

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

6/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

16/02/2023

Deall gwerth cymdeithasol trosglwyddo asedau coetir i drydydd partïon: adolygiad o fuddion, costau a risgiau: Adroddiad Terfynol

Deall gwerth cymdeithasol trosglwyddo asedau coetir i drydydd parti: adolygiad o fuddion, costau a risgiau: Adroddiad Terfynol Awduron: Victoria Johnson, Emma Hanes, Alex Robertson, Ed Lang.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Johnson, V., Hanes, E., Robertson, A., a Lang, E. (2023). *Adolygiad o fuddion, costau a risgiau trosglwyddo asedau coetir i drydydd parti*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 6/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deall-gwerth-cymdeithasol-wrth-drosglwyddo-asedau-coetir-adolygiad>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Aimee Marks

Isadran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Tabl cynnwys

| | |
|---|-----|
| Tabl cynnwys | 1 |
| Rhestr tablau..... | 2 |
| Rhestr ffigurau | 2 |
| Geirfa .. | 3 |
| <u>1.</u> Rhagymadrodd..... | 4 |
| 2. Methodoleg | 10 |
| 3. Canfyddiadau: Ymgynghoriadau Cwmpasu..... | 21 |
| 4. Canfyddiadau: Adolygiad Tystiolaeth..... | 27 |
| 5. Canfyddiadau: Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid | 45 |
| 6. Model Rhesymeg | 60 |
| 7. Argymhellion Ymarferol ar gyfer CNC..... | 64 |
| 8. Casgliadau a'r Camau Nesaf | 84 |
| Atodiad A – Galwad am Dystiolaeth..... | 99 |
| Atodiad B – Canllawiau Pwnc - Ymgynghoriadau Cwmpasu | 98 |
| Atodiad C – Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid | 102 |
| Atodiad D - Hysbysiad Preifatrwydd..... | 112 |
| Atodiad E - Crynodeb o'r Adolygiad Tystiolaeth..... | 116 |
| Atodiad F – Adolygiad lefel uchel o ffynonellau Priso/Fframweithiau Arfarnu a ystyriwyd . | 123 |

Rhestr tablau

| | |
|---|----|
| Tabl 1-1: Cwestiynau'r Ymchwil | 8 |
| Tabl 2-1: Manylion yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd | 11 |
| Tabl 2-2: Meini prawf ar gyfer cynnwys yn yr astudiaeth | 15 |
| Tabl 2-3: Manylion yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd | 17 |
| Tabl 2-4: Cynllun Graddio RAG | 20 |
| Tabl 4-1: Crynodeb o'r Adolygiad Tystiolaeth | 42 |
| Tabl 5-1: Crynodeb o'r buddion a nodwyd gan y GCCau a gyfwelwyd | 47 |
| Tabl 5-2: Crynodeb o amcanion GCCau yng Nghymru..... | 52 |
| Tabl 6-1: Tabl Rhesymeg Risg a Chost | 63 |
| Tabl 7-1: Cynllun Graddio RAG | 67 |
| Tabl 7-2: Canllaw Cyfeirio | 76 |
| Tabl 8-1: Crynodeb o ansawdd y dystiolaeth | 88 |

Rhestr ffigurau

| | |
|---|----|
| Ffigur 4-1: Cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â choedwigaeth | 36 |
| Ffigur 6-1: Model Rhesymeg Buddion..... | 62 |
| Ffigur 7-1: Dulliau Prisio ar gyfer Prisiau Di-Farchnad | 67 |
| Ffigur 7-2: Y berthynas rhwng diben y prisiad ac ansawdd y dystiolaeth prisio sydd ei hangen..... | 68 |

Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| BEIS | Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| CAT | Trosglwyddo Asedau Cymunedol |
| GCC | Grŵp Coetir Cymunedol |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DfT | Yr Adran Drafnidiaeth |
| ENCA | Galluogi Dull Cyfalaf Naturiol |
| GHG | Nwyon tŷ gwydr |
| GI-Val | Offeryn Prisio Seilwaith Gwyrdd |
| HACT | Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithasau Tai |
| LERC | Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol |
| LISS | Systemau Coedamaeth Effaith Isel |
| Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd | |
| SYG | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| OrVAL | Offeryn Prisio Hamdden Awyr Agored |
| NEVO | Offeryn Prisio'r Amgylchedd Naturiol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| QALY | Blwyddyn Bywyd wedi'i Addasu yn ôl Ansawdd |
| Steer ED | Steer Economic Development |
| TAG | Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth |
| TOMS | Themâu Canlyniadau a Mesurau |
| VfM | Gwerth am arian |
| WSE | Menter Gymdeithasol Coetir |
| WTP | Parodrwydd i Dalu |
| WTA | Parodrwydd i Dderbyn |

1. Rhagymadrodd

Cyd-destun y gwaith

- 1.1 Mae coetiroedd yn cyfrif am 15% o arwynebedd tir Cymru.¹ Maent yn darparu ystod o fuddion posibl a gwasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynhyrchu pren, hamdden a thwristiaeth, cefnogi bioamrywiaeth, gwella ansawdd aer, creu swyddi, tynnu carbon o'r atmosffer, a gwella iechyd corfforol a meddyliol. Mae Ystad Coetir Llywodraeth Cymru (YCLIC), a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn gorchuddio 126,000 hectar, neu tua 40% o gyfanswm ardaloedd coetir Cymru. Mae gweddill y coetir dan berchnogaeth breifat.²
- 1.2 Diffinnir coedwigaeth gymunedol yn fras fel rheoli coedwigoedd sydd â chynaliadwyedd ecolegol a buddion cymunedol lleol fel nodau canolog, gyda rhywfaint o gyfrifoldeb ac awdurdod dros reoli coedwigoedd yn perthyn yn ffurfiol i'r gymuned (Charnley a Poe, 2007). Mae coedwigaeth gymunedol wedi datblygu yn y DU dros y 40 mlynedd diwethaf. Mae ysgogwyr allweddol ar gyfer ymddangosiad coedwigaeth gymunedol yn y DU yn cynnwys cyfuniad o ddiddordeb lleol, arloesi, ac ymyriadau polisi megis Partneriaethau Coedwigoedd Cymunedol (Lloegr) a rhaglen Cydcoed (Cymru). Mae prosesau a blaenoriaethau cymdeithasol a gwleidyddol ar draws llywodraethau datganoledig ac o fewn cymunedau wedi esblygu ar draws daearyddiaeth ac amser gan arwain at amrywiaeth eang o berthnasoedd rhwng cymunedau a choetiroedd o ran rheoli adnoddau, deiliadaeth, trefniadaeth grŵp a chyllid a dros 650 o goetiroedd cymunedol yn y DU (Lawrence ac Ambrose-Oji et al., 2014; 2013).
- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Steer Economic Development (Steer-ED) i archwilio'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a risgiau cysylltiedig trosglwyddo asedau coetir i sefydliadau cymunedol neu drydydd sector, gan gynnwys o bosibl ar gyfraddau is na'r farchnad. Bwriad allbynnau'r gwaith hwn, a drafodir ymhellach isod, yw rhoi sylfaen o dystiolaeth i CNC a'i gefnogi wrth asesu'r effeithiau hyn.

¹ [Warren-Thomas, E., Henderson, E., \(2017\) 'Woodlands in Wales: a quick guide' National Assembly for Wales Research Service, Research Briefing.](#)

² Ystadegau Coedwigaeth 2021, Ystadegau Coedwigaeth Ymchwil Coedwigoedd 2021 – Ymchwil Coedwigoedd

- 1.4 Daeth yr ysgogiad ar gyfer y gwaith hwn, yn rhannol, o brosiect arfaethedig yn tarddu o *Cymoedd Gwyrdd*, sefydliad cymunedol, a gynigiodd y prosiect *Skyline*. Roedd prosiect *Skyline* yn cynnwys cynnig i drosglwyddo perchnogaeth 80 hectar o goetir yng nghwm Rhondda i grŵp cymunedol lleol, a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am reoli'r coetir a hefyd yn elwa o'r tir (o fwy o fynediad, buddion economaidd o werthu pren, a'r cyfle i ddefnyddio'r coetir at ddibenion eraill). Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth o'r *Llyfr Gwyrdd*³ a *Rheoli Arian Cyhoeddus*⁴, er mwyn cyfiawnhau penderfyniad o'r natur hwn, bydd angen ystyried yn gyntaf yr effeithiau posibl a'r goblygiadau gwerth am arian gan archwilio opsiynau drwy:
- Nodi'r costau, y buddion a'r risgiau a allai fod yn gysylltiedig â chynnig yn erbyn y gwrthffeithiol (rheolaeth yn cael ei chadw gan CNC) a, lle bo'n berthnasol, dewisiadau amgen posibl eraill;
 - Mesur a, lle bo'n bosibl, rhoi gwerth ariannol ar y costau, y buddion a'r risgiau hyn;
 - Darparu sylfaen dystiolaeth addas i gyfiawnhau nodi, meintioli a rhoi gwerth ariannol ar gostau, buddion a risgiau.
- 1.5 Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith yn bodoli o fewn CNC i gefnogi'r gofynion uchod mewn perthynas â throsglwyddo asedau coetir.

Cwmpas yr adroddiad hwn

- 1.6 Yr adroddiad hwn yw allbwn terfynol y prosiect i adolygu buddion, costau a risgiau trosglwyddo asedau coetir i drydydd parti (e.e. gwerthu pren, neu drosglwyddo hawliau eiddo drwy drefniadau rheoli a pherchnogaeth gwahanol) ac i ddeall y dystiolaeth ynghylch gwerth cymdeithasol trosglwyddo asedau coetir. Manyleb y prosiect oedd cwmpasu'r data sydd ar gael a'r dulliau y gallai CNC eu defnyddio i gefnogi arfarniad prosiectau yn y dyfodol (gan gynnwys eu gwerth cymdeithasol) mewn perthynas â mynediad cymunedol neu drydydd sector i goetir a/neu bren ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo perchenogaeth (gan gynnwys prydlesu tymor byr neu hirdymor posibl; a throsglwyddiadau, rheolaeth, neu werthiant amodol neu isafswm amodau, am bris is na phrisiau'r farchnad). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r saith cwestiwn

³ Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM: Canllawiau Arfarnu a Gwerthuso yn y Llywodraeth Ganolog (2022) – [GOV.UK](https://gov.uk).

⁴ Rheoli Arian Cyhoeddus (2022) – [GOV.UK](https://gov.uk)

ymchwil a gyflwynir yn Nhabl 1-1 ac yn cloi gyda chanllaw cyfeirio i gefnogi CNC gydag arfarnu, monitro a gwerthuso buddion, costau, a risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau coetir. Mae'r canllaw yn nodi canlyniadau disgwylidig, ffactorau a allai effeithio ar (hyd a lled) cyflawniad y canlyniadau, a'r hyder yn y dystiolaeth y gallai throsglwyddo arwain at y canlyniadau hyn. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys dulliau a awgrymir ar gyfer meintioli a, lle bo'n berthnasol, gwerth ariannol a'r hyder yn y dulliau hyn.

- 1.7 Mae'r canllaw cyfeirio yn cyd-fynd ac yn gyson â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM⁵, canllawiau ENCA (Galluogi Dull Cyfalaf Naturiol)⁶ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn ystyried rôl bosibl TOMs Cymru (Themâu, Deilliannau a Mesurau). Oherwydd yr amrywiaeth o drefniadau throsglwyddo a'r amodau throsglwyddo cysylltiedig, yn ogystal â ffactorau megis y gwahaniaeth ym maint, lleoliad a ffocws prosiectau, cydnabyddir bod canlyniadau (h.y. buddion, costau a risgiau) yn debygol o fod yn benodol i brosiect. Felly, mae dulliau sy'n seiliedig ar ddefnyddio set unffurf o ddangosyddion a chyfernodau yn annhebygol o fod yn briodol ar y cyfan.
- 1.8 Bydd canlyniadau'r prosiect hwn hefyd yn helpu i gyflawni'r canlynol:
- Ymrwymadau o fewn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026⁷ sy'n cynnwys, ymhlith eraill, ymrwymiad i "wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt". Yn benodol, mae un o'r camau a addawyd i helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn ymwneud â chefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned. Gallai'r cyfle i reoli, gwerthu neu ddefnyddio coetir/pren yn briodol helpu i gefnogi a chryfhau rhai cymunedau;
 - Gofynion CNC i werthu pren mewn ffordd agored a thryloyw, gan ddangos y gwerth gorau am arian;
 - Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)⁸ drwy, er enghraifft, wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod mewn deddfwriaeth amrywiaeth o ymrwymadau i wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Yng nghyd-

⁵ Y Llyfr Gwyrdd: arfarnu a gwerthuso yn y llywodraeth ganolog (2022) – [GOV.UK](https://gov.uk)

⁶ Gweler Dull Galluogi Dull Cyfalaf Naturiol (ENCA) - [GOV.UK](https://gov.uk)

⁷ Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - Diweddariad - [LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru)

⁸ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) – [LEGISLATION.GOV.UK](https://legislation.gov.uk)

destun y ddeddf hon, dylid cydnabod a rhoi tystiolaeth briodol o fuddion ehangach posibl defnyddio coetir, er enghraifft buddion iechyd meddyliol a chorfforol, a buddion ymgysylltiad/grymusiad cymunedol;

- Yr amcanion strategol a amlinellir yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru (2018)⁹, gan gynnwys y pwyslais ar 'Goetiroedd i'r bobl' a rhoi mwy o gyfle i'r gymuned ymwneud â choetiroedd, megis cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a rheoli coetiroedd;
- Ymrwymiad CNC i Blaned, Pobl a Ffyniant yn ei Strategaeth Fasnachol (2021-2026)¹⁰ sy'n ceisio alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sicrhau'r llesiant gorau posibl. Mae hyn yn cynnwys gwerthu pren.

⁹ Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed (2018) – LLYW.CYMRU

¹⁰ Strategaeth Fasnachol 2021-2026 – [CYFOETH NATURIOIOL CYMRU](http://CYFOETH.NATURIOIOL.CYMRU)

Tabl 1-1: Cwestiynau'r Ymchwil

| Rhif | Cwestiwn Ymchwil |
|------|--|
| 1 | Beth yw buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, costau a risgiau posibl rhoi rheolaeth o goetiroedd a stoc pren CNC i grwpiau cymunedol lleol, o gymharu â'r llinell sylfaen iddynt gael eu rheoli gan CNC? Dylai hyn gynnwys ystyried: Buddion economaidd a chyflogaeth lleol Storio ac atafaelu carbon Gwytnwch a bioamrywiaeth coetiroedd Lles a hunaniaeth cymunedol Effeithiau ar gymunedau difreintiedig Effeithiau ac ystyriaethau perthnasol eraill, gan gynnwys effeithiau dosbarthiadol. |
| 2 | Sut mae'r buddion hyn (a'r costau a'r risgiau) yn amrywio yn ôl ffactorau penodol i brosiect a lleoliad? |
| 3 | Pa ffactorau sy'n dylanwadu'n allweddol ar y canlyniadau a gyflawnir, hirbarhad canlyniadau, a'r risgiau i gyflawni canlyniadau? |
| 4 | Beth yw canlyniadau anfwriadol posibl caniatáu i grwpiau cymunedol reoli stoc pren CNC? Yn benodol, dylid ystyried tystiolaeth ar effeithiau posibl ar faint a chyflwr asedau naturiol a drosglwyddir. |
| 5 | O dan ba amodau y gallai darparu stoc coetir a/neu goed i grwpiau cymunedol lleol roi budd net o ran gwerth cyhoeddus (h.y. a yw'r buddion yn gorbwyso unrhyw enillion economaidd o arfer gwerthu arferol)? |
| 6 | Sut y gall y buddion, y costau a'r risgiau posibl hyn gael eu hasesu a'u mesur yn ymarferol ac yn briodol gan sefydliadau fel CNC, gan gynnwys o dan ffactorau tebygol sy'n benodol i brosiect a lleoliad? |
| 7 | Pa effeithiau y gallai trosglwyddiadau o'r fath eu cael ar weithrediadau rheoli coetir CNC? |

Ffynhonnell: Steer-ED, 2022

Amlinelliad o'r adroddiad

- 1.9 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno canfyddiadau ein hadolygiad tystiolaeth a'n hymgynghoriadau cychwynol â rhanddeiliaid a nodwyd mewn adroddiad interim cynharach y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio'n fewnol ac mae'n adeiladu ar hyn drwy adolygu'r canfyddiadau hyn ochr yn ochr ag ymgynghoriadau rhanddeiliaid pellach gyda staff CNC a grwpiau coetir cymunedol (GCC). Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil, mae'r adroddiad hwn yn cloi gydag argymhellion ymarferol i CNC arfarnu buddion, costau a risgiau cynigion posibl i drosglwyddo asedau coetir.
- 1.10 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro yn y modd canlynol: Mae Adran Dau yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad tystiolaeth ac

ymgyngoriadau â rhanddeiliaid; Mae Adran Tri i Bump yn adrodd ar ganfyddiadau a mewnwediadau o'r adolygiad tystiolaeth, cyfweiliadau â rhanddeiliaid, gan gloi gyda model rhesymeg a gyflwynir yn Adran Chwech; Mae Adran Saith yn darparu canllaw cyfeirio i lywio datblygiad arfarniad. Daw'r adroddiad i ben yn Adran Wyth sy'n cyflwyno casgliadau allweddol o'r gwaith hwn ac yn argymhell y camau nesaf i Lywodraeth Cymru a CNC.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r bennod ganlynol yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni'r prosiect hwn. Roedd tri cham allweddol i'r prosiect:
- Ymgynghoriadau cwmpasu i gael gwell dealltwriaeth o gyd-destun y gwaith, drwy drafod â'r comisiynydd (Llywodraeth Cymru), y defnyddiwr terfynol arfaethedig (CNC) a rhanddeiliaid allweddol eraill;
 - Adolygiad llenyddiaeth nad oedd yn hollgynhwysfawr o'r dystiolaeth ar gyfer buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, costau, a risgiau o roi cyfle i sefydliadau cymunedol reoli coetir; a chynaeafu a gwerthu stoc pren;
 - Ymgynghoriadau strategol gyda grwpiau coetir cymunedol Cymru, timau CNC wedi'u lleoli mewn mannau penodol, a Forestry and Land Scotland.
- 2.2 Gan ddefnyddio'r mewnwelediadau o'r ymgynghoriadau a'r adolygiad o dystiolaeth, datblygwyd model rhesymeg i ddangos sut y disgwylir i drosglwyddo asedau coetir weithio'n ymarferol drwy fapio'r cadwyni achosol o fewnbynau i effeithiau. Yna defnyddiwyd y model rhesymeg i lywio'r gwaith o ddatblygu canllaw 'cyfeirio' i gefnogi datblygiad fframwaith arfarnu ar gyfer cynigion sy'n cynnwys trosglwyddo rheolaeth asedau coetir o CNC i sefydliadau cymunedol neu drydydd sector yng Nghymru, o bosibl am lai na phrisiau'r farchnad.

Ymgynghoriadau Cwmpasu

- 2.3 Yn ystod camau cynnar y prosiect hwn, cynhaliwyd pum ymgynghoriad cwmpasu/lleoli (gweler Tabl 2-2). Diben yr ymgynghoriadau hyn oedd cael gwell dealltwriaeth o gyd-destun y gwaith, drwy drafod gyda CNC a rhanddeiliaid allweddol eraill. O'r herwydd, nid oedd angen methodoleg samplu ar gyfer y rhan hon o'r gwaith - dewiswyd ymgynghoreion gan Lywodraeth Cymru ar sail eu gwybodaeth a'u hymgysylltiad â'r prosiect. Roedd y rhanddeiliaid a ddewiswyd yn dod o amrywiaeth o sefydliadau gwahanol a gyda diddordebau gwahanol yn y prosiect, gan roi amrywiaeth barn.
- 2.4 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gan Gyfarwyddwr Prosiect yr astudiaeth, gan ddefnyddio dull lled-strwythuredig. Datblygwyd canllaw pwnc safonol i'w ddefnyddio gyda'r holl ymgynghoriadau, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Cadwyd

nodiau manwl o'r drafodaeth yn ystod y cyfweiliad, ac yna cafodd y rhain eu cydgrynhoi a'u cyfuno i gynhyrchu crynodeb o'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Yn y cyfuniad a gyflwynir, rydym wedi ceisio cadw'n drwm i ddatganiadau, safbwyntiau a chredoau gwreiddiol yr ymgynghoreion. Mewn rhai achosion, mae datganiadau ymgynghoreion yn cynnig safbwyntiau gwahanol neu'n rhoi dim ond darlun rhannol yn ymwneud â meysydd gwybodaeth y cyfweleion - mae'r achosion hyn wedi'u hamlygu a rhoddwyd sylwebaeth esboniadol lle bynnag y bo modd.

Tabl 2-1: Manylion yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd

| Sefydliad | Sail Resymegol dros Ddewis | Dyddiad |
|---|--|----------------|
| CNC, Gwerthu a Marchnata Nwyddau | Darparu manylion am ddull presennol ac arfaethedig CNC o reoli coedwigaeth a throsglwyddo asedau mewn perthynas â grwpiau cymunedol. | 22 Ebrill 2022 |
| Trysorlys Cymru | Darparu manylion am ddull y Trysorlys o nodi, meintioli a rhoi gwerth ariannol ar gostau a buddion yn y meysydd amgylcheddol a chymunedol. | 26 Ebrill 2022 |
| Cymoedd Gwyrdd | Darparu manylion am brosiect Skyline, cynnig coetir cymunedol a fu'n rhan o'r ysgogiad ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon. | 22 Ebrill 2022 |
| Llais y Goedwig | Darparu safbwynt Llais y Goedwig, corff cynrychioliadol sy'n gweithio ar ran grwpiau coetir cymunedol | 29 Ebrill 2022 |
| Defra | Darparu manylion am ddull Defra o nodi, meintioli a rhoi gwerth ariannol ar gostau a buddion yn y meysydd amgylcheddol a chymunedol. | 20 Mai 2022 |

Ffynhonnell: Steer-ED

Adolygiad o'r Dystiolaeth: Termau Chwilio a Phrotocol Chwilio

2.5 Cynhaliodd Steer-ED adolygiad dystiolaeth nad oedd yn hollgynhwysfawr. Nid oedd yn adolygiad systematig oherwydd yr amser a oedd ar gael. Yn hytrach, adolygiad cyflym o dystiolaeth ydoedd gyda chwmpas cyfyngedig. Fe wnaethom ddilyn arfer gorau drwy:

- Ddatblygu strategaeth chwilio benodol iawn;
- Treialu llinynnau chwilio, a chofnodi canlyniadau i fireinio ein strategaeth chwilio;

- Datblygu meini prawf cynnwys a pheidio â chynnwys tystiolaeth (gweler Tabl 2-1) a chofnodi'r sail resymegol dros gynnwys neu beidio;
- Ychwanegu 'Galwad am Dystiolaeth' i'n strategaeth chwilio (gweler Atodiad A) ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol.

Amcanion yr adolygiad

2.6 Amcanion yr adolygiad tystiolaeth hwn oedd:

- Nodi rhestr gynhwysfawr o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl, costau, a risgiau o roi cyfle i sefydliadau cymunedol reoli coetir; a chynaeafu a gwerthu stoc pren;
- Deall sut y gall trefniadau ac amodau trosglwyddo asedau gwahanol newid yr effeithiau a'r canlyniadau a gyflawnir, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol posibl;
- Gwerthuso ansawdd y dystiolaeth, cadernid y methodolegau a'r dulliau prisio a ddefnyddiwyd;
- Nodi bylchau yn y llenyddiaeth i lywio ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ac ymchwil yn y dyfodol;
- Llywio argymhellion ar gyfer dull asesu ymarferol i CNC ei ddefnyddio i arfarnu'n gadarn buddion, costau a risgiau trosglwyddo asedau cymunedol o stociau pren gan sicrhau cysondeb â chanllawiau arfarnu perthnasol, er enghraifft Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

Diffiniadau allweddol

2.7 Mabwysiadwyd y diffiniadau canlynol o goetiroedd/coetir cymunedol ar gyfer yr adolygiad hwn:

2.8 **Coetir:** Er bod rhai astudiaethau'n gwahaniaethu rhwng coetir a choedwigoedd, ar gyfer eraill defnyddir y termau hyn yn gyfnewidiol. Er enghraifft, mae Lawrence a Molteno (2012) yn dweud bod coetir yn tueddu i gyfeirio at ardaloedd llai, gyda llai (neu ddim) pwyslais ar gynhyrchu pren o gymharu â choedwig.

2.9 Gan ddefnyddio diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) o goetir, diffinnir coetir fel:

“...ardaloedd wedi’u gorchuddio â choed sy’n cynnwys coedwigoedd planhigfeydd, ardaloedd coediog mwy naturiol, a dwysedd is neu glystyrau llai o goed.” (SYG, 2020, tud. 13)

2.10 Nid ydym, fel y cyfryw, yn gwahaniaethu’n benodol rhwng coetir a choedwigoedd. Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at goetir fel ardaloedd cynhyrchiol ac anghynhyrchiol o fewn Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a rhai a reolir gan CNC, waeth beth fo’u maint. Wrth ddadansoddi’r canfyddiadau o’r ffynonellau hyn rydym yn defnyddio’r derminoleg y mae’r astudiaeth yn ei defnyddio, er enghraifft, Coetir, Coedwig, Pren.

2.11 **Coetir cymunedol:** Er bod amrywiaeth o ddiffiniadau o goetir cymunedol, rydym yn defnyddio’r diffiniad a ddarparwyd gan Barlagne et al (2021),

“...math o lywodraethu adnoddau naturiol lle mae rheolaeth coetir yn cael ei wneud yn gyfan gwbl neu’n rhannol gan gymunedau lleol. Fe’i nodweddir gan ystod eang o rwydweithiau, trefniadau contractiol, a phartneriaethau cyhoeddus-preifat sy’n cynnwys cymunedau lleol a’u cyrff cynrychioliadol, cwmnïau datblygu cymunedol, tîrfeddiawyr preifat [a chyrrff cyhoeddus].”

2.12 Mae’r diffiniad hwn yn cydnabod yn benodol bod coetir cymunedol yn cael ei ddiffinio gan ryw fath o reolaeth dros benderfyniadau rheoli’r coetir. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod yr amrywiaeth o drefniadau contractiol a phartneriaethau ar draws grwpiau coetir cymunedol yn y DU.

Cwestiwn ymchwil sylfaenol

2.13 Nod yr adolygiad hwn o lenyddiaeth nad oedd yn hollgynhwysfawr oedd nodi dystiolaeth i fynd i’r afael â’r cwestiwn sylfaenol canlynol:

Beth yw’r buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, y costau, a’r risgiau posibl o roi rheolaeth stoc pren CNC i grwpiau cymunedol lleol o gymharu â’r llinell sylfaen o’i gael wedi’i rheoli gan CNC?

Cwestiynau eilaidd

2.14 Rydym wedi defnyddio’r cwestiwn ymchwil sylfaenol i fframio a strwythuro ein strategaeth chwilio. Defnyddiwyd y llenyddiaeth a’r dystiolaeth a gasglwyd drwy ein

hadolygiad o dystiolaeth, ymgynghoriadau strategol cychwynnol ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid i lywio'r chwe chwestiwn ymchwil eilaidd canlynol:

- Sut mae'r buddion hyn (a'r costau a'r risgiau) yn amrywio yn ôl ffactorau penodol i brosiect a lleoliad?
- Pa ffactorau sy'n dylanwadu'n allweddol ar y canlyniadau a gyflawnir, hirbarhad canlyniadau, a'r risgiau i gyflawni canlyniadau?
- Beth yw canlyniadau anfwriadol posibl caniatáu i grwpiau cymunedol reoli stoc pren CNC? Yn benodol, dylid ystyried tystiolaeth ar effeithiau posibl ar faint a chyflwr asedau naturiol a drosglwyddir.
- O dan ba amodau y gallai darparu stoc coetir a/neu goed i grwpiau cymunedol lleol roi budd net o ran gwerth cyhoeddus (h.y. a yw'r buddion yn gorbwyso unrhyw enillion economaidd o arfer gwerthu arferol).
- Sut y gall y buddion, y costau a'r risgiau posibl hyn gael eu hasesu a'u mesur yn ymarferol ac yn briodol gan sefydliadau fel CNC, gan gynnwys o dan ffactorau tebygol sy'n benodol i brosiect a lleoliad?
- Pa effeithiau y gallai trosglwyddiadau o'r fath eu cael ar weithrediadau rheoli coetir CNC?

Strategaeth chwilio

- 2.15 Oherwydd amserlen gyfyngedig yr adolygiad hwn, datblygwyd strategaeth chwilio benodol iawn. Yn dilyn arolwg cychwynnol o'r llenyddiaeth, gwnaethom ganfod astudiaethau a allai fod yn berthnasol wedi'u lledaenu ar draws llenyddiaeth lwyd¹¹ ac academiaidd (a adolygwyd gan gymheiriaid). O ystyried hyn, rydym wedi cynnwys llenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd a nodwyd drwy chwiliadau Google Scholar, chwiliadau cyfeiriol a chwiliadau llyfryddol llaw o bapurau a nodwyd.
- 2.16 Cafodd strategaethau chwilio eu treialu, eu cofnodi, a'u hadolygu'n ailadroddol yn seiliedig ar berthnasedd y 100 'trawiad' cyntaf. Yn ogystal, fe wnaethom ychwanegu

¹¹ Mae llenyddiaeth lwyd yn cyfeirio at ddogfennau a gynhyrchir ac a gyhoeddir gan asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau academiaidd a grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu dosbarthu na'u mynegeo gan gyhoeddwyr masnachol.

at ein strategaeth chwilio gyda 'galwad am dystiolaeth' a gylchredwyd i unigolion a nodwyd drwy ymarfer mapio rhanddeiliaid.

- 2.17 Er mwyn i astudiaeth gael ei hystyried o fewn yr adolygiad hwn o dystiolaeth, roedd yn rhaid i astudiaeth sylfaenol gyfateb cysyniadau allweddol o fewn cwestiwn yr adolygiad, yn ogystal â chyfyngiadau ymarferol o gofio cwmpas yr adolygiad dystiolaeth hwn (er enghraifft amrediad dyddiadau a gofynion iaith). Mae Tabl 2-2 isod yn amlinellu ein meini prawf ar gyfer cynnwys yn yr astudiaeth.

Tabl 2-2: Meini prawf ar gyfer cynnwys yn yr astudiaeth

| Parth | Cynnwys | Peidio â chynnwys |
|--------------------------|---|--|
| Dyddiad | Cyhoeddwyd rhwng mis Ionawr 2000 a mis Ebrill 2022. | Wedi'i chyhoeddi cyn mis Ionawr 2000 ac ar ôl mis Ebrill 2022 |
| Math o astudiaeth | Mae llenyddiaeth yn empirig ei natur (h.y. astudiaethau rheoli achos, astudiaethau achos cymharol, astudiaethau achos unigol ac astudiaethau ansoddol.) | Damcaniaethol, methodolegol |
| Lleoliad | Lleoliad yr astudiaeth yw'r DU (Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon), Ewrop a Gogledd America (llai o flaenoriaeth). Proffil bioddaearyddiaeth a chymdeithasol-economaidd tebyg i'r DU. | Nid yw'r astudiaeth yn un OECD / mae'n annhebyg i fioaddaearyddiaeth y DU (e.e. Trofannau / gwlad sy'n datblygu) |
| Pwnc(pynciau) perthnasol | Ffocws yr astudiaeth yw coetir / coedwigaeth / coedamaeth / pren; a chymunedau sy'n gyfrifol am eu rheoli. | Adnoddau naturiol eraill |
| Mathau o ymyriadau | Trosglwyddo ased i berchnogaeth neu reolaeth gymunedol. | Mathau o ymyriadau |
| Canlyniadau | Astudiaethau lle mae canlyniadau bioffisegol, economaidd, ariannol, cymdeithasol a chyfranogol yn cael eu harfarnu. | |
| Iaith | Dylai astudiaeth fod wedi'i chyhoeddi yn Gymraeg neu Saesneg. | Astudiaeth heb ei chyhoeddi yn Gymraeg neu Saesneg |

Ffynhonnell: Steer-ED, 2022

Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid

- 2.18 Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriadau cwmpasu a'r adolygiad o dystiolaeth, ac i ategu'r canfyddiadau interim, cynhaliwyd naw ymgynghoriad arall â GCCau yng Nghymru, timau CNC mewn lleoedd penodol, a Forestry and Land Scotland gweler Tabl 2-3.
- 2.19 Pwrpas yr ymgynghoriadau hyn oedd:
- Deall sut y gallai'r trefniadau trosglwyddo asedau gwahanol alluogi gwahanol fuddiannau, risgiau a chostau ychwanegol yn dibynnu ar ddiben y cynllun – ym marn y GCC a holwyd;
 - Archwilio pwy allai'r ystod o fuddiolwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol fod o ganlyniad i drosglwyddo asedau coetir i grwpiau cymunedol/trydydd sector;
 - Deall beth yw ystod a graddfa (a pharhauster) y buddion ychwanegol a ystyrir ar gyfer pob math o fuddiolwr (er enghraifft, CNC, GCC, y gymuned ehangach), lle bo hynny'n ymarferol;
 - Deall sut y gellid mesur pob budd posibl i ddeall i ba raddau y maent yn ychwanegol ac y gellir eu priodoli i'r trosglwyddiad;
 - Deall a yw grwpiau cymunedol/trydydd sector yn asesu eu costau a'u risgiau o ddod i drefniant trosglwyddo asedau ac, os felly, sut;
 - Ystyried heriau posibl i CNC allu meintoli'n briodol a/neu asesu buddion, costau a risgiau yn gymesur gan ddefnyddio dulliau addas.
- 2.20 Cynhaliwyd ymarfer mapio rhanddeiliaid i nodi rhanddeiliaid allweddol ar draws tri chategori: timau CNC mewn lleoliadau penodol (n=4), grwpiau cymunedol/trydydd sector yng Nghymru (n=4) a grwpiau cymunedol/trydydd sector nid yng Nghymru (n= 1). Yn benodol, nodwyd rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth barn yn cael ei chasglu. Dewiswyd grwpiau cymunedol/trydydd sector o Gymru i sicrhau bod safbwyntiau'n adlewyrchu ystod o brosiectau (e.e. amcanion a gweithgareddau) a ffurfiau perchnogaeth trosglwyddo asedau, o gofio'r ffurfiau amrywiol y gallai fod i'r grwpiau hyn. Nodir, fodd bynnag, oherwydd maint cymharol fach y sampl, mai safbwyntiau dangosol yn unig yw'r rhain.
- 2.21 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gan Borth Gwerth Cymdeithasol - awduron TOMs Cymru (fframwaith mesur gwerth cymdeithasol Themâu, Deilliannau a Mesurau) a Chyfarwyddwr y Prosiect yn Steer ED, gan ddefnyddio dull lled-strwythuredig.

Datblygwyd canllaw pwnc safonol i'w ddefnyddio gyda'r holl ymgynghoriadau, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad C. Cadwyd nodiadau manwl o'r drafodaeth yn ystod y cyfweiliad, ac yna cafodd y rhain eu cydgrynhoi a'u cyfuno i gynhyrchu crynodeb o'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Tabl 2-3: Manylion yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd

| Sefydliad | Sail resymegol dros Ddewis | Dyddiad |
|---|--|---------------------------------|
| CNC, Rhaglen Caniatadau Cymunedol | Cynghorydd Arbenigol ar gyfer caniatadau, yn eistedd o fewn Stiwardiaeth Tir – rhwng polisi a chyflenwi. Mae'r rôl yn canolbwyntio nid ar wneud penderfyniadau ar bob caniatâd, ond ar y broses ar gyfer gwneud hynny. | 9 Awst 2022 |
| CNC, Partneriaeth, Mynediad a Hamdden | Rhan o grŵp o arbenigwyr i gysylltu rhwng Polisi a Chyflawni Gweithredol; ymgysylltu â rhanddeiliaid, rhaglen grantiau, 'Cynllun Bro Gweithredol' a chefnogi cysylltiadau cymunedol ag ystâd CNC. | 13 Gorffennaf 2022 |
| CNC, Uwch Swyddog Rheolwr Tir | Rheolwr Ystad ar gyfer ystad coetir e.e. ffensys, ffiniau, diogelwch coed, llwybrau troed. | 14 Gorffennaf 2022 |
| CNC, Tîm Hamdden | Roedd hamdden yn canolbwyntio ar alluogi mynediad diogel i goetiroedd, cydymffurfiaid â diogelwch ar gyfer safleoedd cyhoeddus. | 10 Awst 2022 |
| CNC, Uwch Syrfêwr Arbenigol | Cymryd rhan ar ddechrau Cytundebau Rheoli Cymunedol. Yn chwarae rhan yn y gwaith o oruchwylio cytundebau GCC ar ôl iddynt gael eu sefydlu. | 11 Awst 2022 |
| Croeso i'n Coedwig | GCC gyda threfniant prydles amodol, yn edrych i gynyddu cwmpas ei drefniant presennol. | 30 Mehefin a 13 Gorffennaf 2022 |
| Elwy Working Woods, Cwmni Cydweithredol | Menter gymdeithasol sydd wedi prynu pren wedi'i gynaeafu gan CNC yn y gorffennol ond nad oes ganddi unrhyw drefniant rheoli ar waith ar hyn o bryd. | 15 Gorffennaf 2022 |
| Llyn Parc Mawr | GCC gyda threfniant prydles amodol hirdymor | 1 Gorffennaf 2022 |
| Pobl y Fforest | Trefniant prydles gyda CNC. Dim rheoli pren ond cynnal hyfforddiant a digwyddiadau cymunedol. | 15 Gorffennaf 2022 |
| Forestry and Land Scotland | Wedi bod yn gwerthuso trosglwyddiad asedau cymunedol (coetir) ers dros 5 mlynedd fel rhan o Ddeddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015. | 6 Gorffennaf 2022 |

Ffynhonnell: Steer-ED

Datblygu Model Rhesymeg

Nod y model rhesymeg

- 2.22 Nod model rhesymeg yw dangos yn glir sut y disgwylir i ymyriad weithio'n ymarferol drwy fapio cadwyni achosol posibl ymyriad o fewnbynau i effeithiau. Mae'n fethodoleg a ddefnyddir yn eang wrth werthuso ac mae'n broses fethodolegol allweddol a nodir yn Llyfr Magenta Llywodraeth EM. Mae'r model rhesymeg yn dilyn pob cam o'r gadwyn achosol, gan fapio sut y disgwylir i'r mewnbynau arwain at weithgareddau sy'n cyflwyno allbynau, ac mewn camau dilynol mae'r rhain yn arwain at ganlyniadau ac, yn y pen draw, effeithiau.

Datblygu Model Rhesymeg

- 2.23 Datblygwyd y model rhesymeg drwy ddadansoddi mewnbwn CNC: trosglwyddo hawliau eiddo (drwy drefniadau lesddaliad hirdymor) neu ganiatáu mynediad i/defnydd o goetir i grwpiau cymunedol lleol. Mae gweithgareddau, allbynau, canlyniadau ac effeithiau wedi'u nodi o ymchwilio llenyddiaeth y gorffennol, gan ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a strategol. Dim ond buddion (canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol) a ddangosir yn y model rhesymeg hwn yma. Cyflwynir risgiau a chostau mewn tabl ar wahân sy'n cyd-fynd (trafodir isod). Trwy'r gweithgaredd hwn cawsom ddealltwriaeth drylwyr o'r ystod o weithgareddau a all fod yn gysylltiedig â gwahanol fathau o drefniadau coetir cymunedol, a'r effaith y gall pob arddull trefniant ei chael ar y coetir, y gymuned a'r amgylchedd ehangach. Defnyddiwyd y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr adolygiad llenyddiaeth ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid i gael syniad o gryfder posibl cysylltiadau achosol a ddangosir yn y model rhesymeg isod.

Tabl Risg a Chost

- 2.24 Yn ogystal â'r model rhesymeg buddion a ddisgrifir uchod, mae tabl o risgiau a chostau cysylltiedig wedi'i ddatblygu sy'n nodi ac yn amlinellu goblygiadau negyddol posibl caniatáu defnydd o / mynediad i goetiroedd i grwpiau cymunedol a/neu drosglwyddo hawliau eiddo coetir i berchnogaeth grŵp lleol/cymuned. Cyflwynir costau a risgiau gweithgareddau a nodir yn y model rhesymeg buddion ar wahân, er mwyn gwella darllenadwyedd y model. Dylid edrych ar y model rhesymeg ochr yn

ochr â'r tabl hwn i roi syniad clir o'r buddion posibl, y costau, a'r risg o drosglwyddo asedau coetir.

Datblygu Argymhellion (canllaw cyfeirio)

2.25 Mae'r argymhellion a ddarperir yn yr adroddiad hwn wedi'u datblygu drwy ddwyn ynghyd ein canfyddiadau ar draws holl ffrydiau gwaith yr astudiaeth, ac roedd ein dadansoddiad yn cynnwys:

- Cyfuno gwybodaeth ar draws yr holl ffrydiau gwaith;
- Defnyddio proses gydweithredol gyda Grŵp Llywio'r astudiaeth i sefydlu'r fformat mwyaf defnyddiol ar gyfer allbynnau terfynol;
- Gan ddeall anghenion/gofynion CNC, deallwyd mai canllaw cyfeirio oedd y cyflwyniad mwyaf defnyddiol o'r dystiolaeth a gasglwyd o ystyried canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth sy'n amlygu graddau uchel o heterogenedd prosiectau (e.e. amcanion GCC, gweithgareddau, cyflwr cychwynol y coetir). Adeiladu ar arfer gorau ar draws y llywodraeth – yn arbennig Canllawiau Llesiant Trysorlys EM ar gyfer Arfarnu¹²

2.26 Trwy'r broses hon, nodwyd tri llinyn allweddol o fuddiannau posibl yn ymwneud â throsglwyddo coetir i grwpiau cymunedol: Bioffisegol/Amgylcheddol, Diwylliannol a Chymdeithasol, ac Ysgogiad Economaidd Lleol. Mae gan bob llinyn ychydig (i nifer) o fathau o fuddion, a chyflwynir y prisiadau ar eu cyfer ym Mhennod 7. Er mwyn adlewyrchu lle mae bylchau yn y dystiolaeth neu ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael, rydym wedi defnyddio sgôr RAG (coch, oren a gwyrdd), gan dynnu ar waith Binner et al. (2017), ar gyfer cryfder y dystiolaeth er mwyn meintio'r effaith (y llwybr o ymyrraeth i ganlyniad) a rhoi gwerth ariannol ar yr effaith. Cyflwynir y cynllun graddio RAG hwn yn Nhabl 2-4 isod.

¹² Canllawiau Lles ar gyfer Arfarnu: Canllawiau Atodol y Llyfr Gwyrdd (2021) - GOV.UK (www.gov.uk)

Tabl 2-4: Cynllun Graddio RAG

| Graddiad | Disgrifiad |
|-----------------|-----------------------------------|
| Gwyrdd | Tystiolaeth gref |
| Oren | Tystiolaeth dda, ond rhai bylchau |
| Coch | Bylchau mawr mewn tystiolaeth |

Ffynhonnell: Steer-ED, addaswyd o Binner et al. (2017)

2.27 Mae'r tair adran ganlynol (Adran 3, 4 a 5) yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid allweddol, yr adolygiad o dystiolaeth ac ymgynghoriadau ehangach â rhanddeiliaid gyda grwpiau coetir cymunedol, CNC ac economegwyr y llywodraeth.

3. Canfyddiadau: Ymgynghoriadau Cwmpasu

Cefndir a Chyd-destun

3.1 Daeth yr ysgogiad ar gyfer y gwaith hwn, yn rhannol, o brosiect arfaethedig yn tarddu o Cymoedd Gwyrdd, sefydliad cymunedol, a gynigiodd y prosiect Skyline. Roedd prosiect Skyline yn cynnwys cynnig i drosglwyddo perchnogaeth 80 hectar o goetir yng nghwm Rhondda i grŵp cymunedol lleol, a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am reoli'r coetir a hefyd yn elwa o'r tir (o fwy o fynediad, buddion economaidd o werthu pren, a'r cyfle i ddefnyddio'r coetir at ddibenion eraill). Ni chafodd y prosiect, yn ei ffurf wreiddiol, gymeradwyaeth. Yn ôl yr ymgynghorai y siaradwyd ag ef o brosiect Skyline, roedd hyn oherwydd pryderon a fynegwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru na fyddai'n bosibl cynnal asesiad gwerth am arian sy'n cydymffurfio â'r Llyfr Gwyrdd oherwydd cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth. Mae CNC wedi ymateb, fodd bynnag, i nodi na fynegwyd pryderon o'r fath yn ffurfiol gan Swyddfa Archwilio Cymru - gwnaed y penderfyniad gan Fwrdd CNC a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth o'r Llyfr Gwyrdd a Rheoli Arian Cyhoeddus, er mwyn cyfiawnhau penderfyniad o'r natur hwn bydd angen ystyried yr effeithiau posibl a'r goblygiadau gwerth am arian yn gyntaf drwy archwilio opsiynau posibl drwy:

- Nodi costau, buddion a risgiau a allai fod yn gysylltiedig â'r cynnig yn erbyn y gwrthffeithiol (y broses neu reolaeth yn cael ei chadw gan CNC) a, lle bo'n berthnasol, dewisiadau amgen posibl eraill;
- Mesur a, lle bo'n bosibl, rhoi gwerth ariannol ar y costau, y buddion a'r risgiau hyn;
- Darparu sylfaen dystiolaeth addas i gyfiawnhau nodi a meintioli.

3.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn gosod mewn deddfwriaeth amrywiaeth o ymrwymadau i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Yng nghyd-destun y ddeddf hon, dylid cydnabod a rhoi tystiolaeth briodol o fuddion ehangach posibl defnyddio coetir, er enghraifft buddion o ran iechyd meddwl a chorfforol, a buddion ymgysylltu/grymuso cymunedol. Mae corff cynyddol o dystiolaeth i gefnogi gwerth ariannol buddion o'r

fath fel y dangosir, er enghraifft, yng nghanllawiau ENCA¹³ (canllawiau atodol i'r Llyfr Gwyrdd, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2020) a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Defra sy'n defnyddio technegau adnabyddus fel 'datgan dewis' a 'datgelu dewis' i roi gwerthoedd i effeithiau amgylcheddol. Mae'r dulliau hyn, er eu bod yn cael eu defnyddio'n eang, yn peri rhai heriau cydnabyddedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Efallai na fydd hyd a lled y gofynion data, megis data penodol i achos, yn ymarferol i'w gasglu ac mae angen arbenigedd technegol arbenigol hefyd i'w ddefnyddio. Felly, efallai na fydd arfarnu yn gymesur;
- Gall gwahaniaethau mawr rhwng gwerthoedd a gynhrychir gan dechnegau gwerthuso gwahanol ddigwydd mewn rhai achosion.

3.3 Bydd datblygu'r sylfaen dystiolaeth i fynd i'r afael â bylchau allweddol, a defnyddio'r wybodaeth a'r dulliau sydd ar gael yn cefnogi penderfyniadau ar brosiectau megis Skyline i gael eu gwneud mewn ffordd wybodus, gadarn y gellir eu cyfiawnhau yn y dyfodol, gan ganiatáu ar gyfer ystyried ystod ehangach o gostau a buddion nag y gallai CNC fod wedi'u hystyried yn y gorffennol. Er enghraifft, dywedodd rhai o'r ymgynghoreion, er gwaethaf rhwymedigaethau CNC o ran cadw coedwigoedd er budd cymdeithasol, bod camau gweithredu i fodloni'r rhwymedigaethau hyn wedi tueddu i ganolbwyntio ar enillion ariannol o werthu pren.

3.4 Ochr yn ochr â'r prosiect hwn, mae CNC hefyd yn datblygu menter 'gwerthu pren amgen'. Ddwy flynedd yn ôl gwnaeth CNC ymrwymiad y byddai 30% o'r pren a gynhrychir bob blwyddyn yn cael ei werthu drwy ddulliau amgen. Gall hyn gael yr effaith o ehangu'r sylfaen defnyddwyr (o bosibl i gwsmeriaid heblaw'r rheini sy'n draddodiadol yn prynu symiau mawr mewn swmp, megis melinau llifio). Mae CNC wrthi'n datblygu opsiynau ar gyfer sut y gallai'r swyddogaeth gwerthu pren amgen weithredu, a allai gynnwys, er enghraifft, darparu cyfraddau â chymhorthdal i gwsmeriaid llai. Efallai y bydd canfyddiadau o'r prosiect presennol ar fuddion, costau a risgiau trosglwyddo asedau coetir i drydydd parti hefyd yn berthnasol i CNC eu hystyried wrth iddo ddatblygu'r rhaglen gwerthu pren amgen.

¹³ Gweler Dull Galluogi Dull Cyfalaf Naturiol (ENCA) - [GOV.UK](https://www.gov.uk)

Buddion

3.5 Gofynnwyd i ymgynghoreion awgrymu buddion posibl trosglwyddo asedau coetir i sefydliadau cymunedol neu drydydd sector. Rhoddir crynodeb o'r buddion a awgrymwyd isod (sylwer bod yr holl fuddion yr adroddwyd arnynt gan ymgynghoreion yn cael eu cyflwyno yma, p'un a ydynt wedi'u hadrodd gan un neu gan nifer o ymgynghoreion):

- **Bioamrywiaeth a Buddion Amgylcheddol Eraill** - awgrymodd rhai ymgynghoreion y gallai dulliau amgen o reoli coetir yn lle 'llwyrgrwmpo' (lle mae coed yn cael eu torri i lawr ar gylchred o ddeugain mlynedd) o bosibl arwain at effeithiau bioffisegol cadarnhaol, megis mwy o fioamrywiaeth. Yn benodol, mae 'llwyrgrwmpo' yn arwain at gollu cynefinoedd, ac mae cynhyrchu coedwig sydd ag un rhywogaeth o goedden yn unig (cnwd ungnwd) hefyd yn cyfyngu ar fioamrywiaeth. Mewn cyferbyniad, mae arddull reoli amgen (a elwir yn 'system goedamaeth effaith isel' (LISS) neu 'goedwigaeth gorchudd parhaus') lle mae amrywiaeth o sbesimenau coed yn cael eu tyfu a'u cynaeafu â llaw o bryd i'w gilydd yn osgoi dinistrio cynefinoedd ac yn caniatáu ar gyfer datblygu ecosystem fwy amrywiol. Mae hefyd yn osgoi risgiau o ddiraddiad pridd a llifogydd ac yn darparu ffynhonnell fwy sefydlog o ddal carbon. Er bod CNC hefyd yn arfer amrywiaeth o ddulliau rheoli coetir, gan gynnwys LISS, cynigiodd rhai ymgynghoreion y gallai grŵp cymunedol sy'n cymryd drosodd stiwardiaeth ased coedwig ffafrio'r dull hwn o reoli coedwigaeth â llai o effaith.¹⁴ Fodd bynnag, byddai cyflwr cychwynnol a defnydd presennol yr ased coetir yn effeithio ar yr effaith ehangach ar werth cyhoeddus. Er enghraifft, cyfeiriodd y mwyafrif o ymgynghoreion at achosion lle mae ardaloedd ymylol o goetir - y rhai ar lethrau serth neu â mynediad cyfyngedig - yn cael eu gadael yn gymharol 'heb eu rheoli' gan CNC, gan arwain at amodau tyfu nad ydynt yn optimaidd (er enghraifft afiechyd, coed wedi cwmpo a diffyg golau i ganiatáu twf iach). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod lle i wneud gwelliannau bioffisegol i goetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol, lle mae trosglwyddo asedau'n golygu coetiroedd a reolir yn is-optimaidd o fewn Ystad Coetir Llywodraeth Cymru.

¹⁴ Nodwyd yr arddull reoli hon yn benodol fel dewis gan ymgynghoreion GCC.

- **Buddion Iechyd** - tynnodd y mwyafrif o ymgynghoreion sylw at y ffaith bod buddion iechyd corfforol a meddyliol yn gysylltiedig â defnyddio coetir - boed hynny ar gyfer gweithgareddau cerdded neu hamdden, neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau stiwardiaeth coedwigoedd. Dylid nodi nad yw'r buddion hyn yn dibynnu ar drosglwyddo perchnogaeth er mwyn iddynt ddigwydd. Hefyd, gallai trosglwyddo perchnogaeth mewn gwirionedd gael effaith negyddol ar drefniadau mynediad presennol, er enghraifft, drwy leihau mynediad i neu ansawdd y coetir (a mynegwyd y pryder hwn gan ymgynghorai CNC). Fodd bynnag, soniodd ymgynghoreion am enghreifftiau lle'r oedd perchnogaeth/stiwardiaeth gymunedol wedi arwain at fwy o ffocws ar hygyrchedd cyhoeddus i'r coetir - er enghraifft drwy greu llwybrau troed, meinciau, neu arwyddion newydd, yn aml yn defnyddio gwirfoddolwyr i wneud y gwaith gosod.
- **Buddiannau Cymunedol** – anoddaf eu mesur, mae'r buddion hyn yn deillio o ymgysylltu cymunedol â'r coetir – drwy ymdeimlad o rymuso a chyfranogiad mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd lleol. Esboniodd rhai ymgynghoreion y gallai twf yn hyder unigolion, balchder o le, ac ymdeimlad o gymuned (gan gyfrannu ar y cyd at 'gyfalaf cymdeithasol') oll ddeillio o stiwardiaeth gymunedol coetiroedd, ac yn fwy felly fyth o drosglwyddo perchnogaeth oherwydd yr ymdeimlad gwell o berchnogaeth a chyfrifoldeb; a'r penderfyniadau cyfunol sylweddol sydd eu hangen wrth gymryd cyfrifoldeb cyfreithiol am ased. Gall fod buddion diwylliannol ehangach hefyd, er enghraifft o ddatblygiad ysgolion coedwig, mannau perfformio, neu ddefnyddio'r goedwig fel lle i dyfu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.
- **Buddion Economaidd** – cyfeiriodd un ymgynghorai at y posibilrwydd o greu swyddi lleol drwy reoli'r coetir, er bod yr ymgynghorai hefyd wedi nodi y byddai hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig o ran nifer (bydd llawer o'r gwaith a wneir gan y grŵp cymunedol yn defnyddio gwirfoddolwyr). O dan rai modelau, lle mae gan grwpiau cymunedol yr hawl i werthu'r pren o'r coetir y maent yn ei reoli, byddai'r refeniw o werthu pren hefyd yn cael ei gadw yn y gymuned leol yn hytrach na mynd i CNC. Felly mae ystyriaethau dosbarthu posibl, gyda buddion ariannol o werthu pren yn cael eu cyfeirio at y sefydliad lleol yn hytrach na'u dychwelyd i gronfeydd cyhoeddus ehangach. Er y nodir hynny, gellir ail-fuddsoddi refeniw i gefnogi rheolaeth yr ased neu gefnogi'r gymuned leol yn uniongyrchol.

Costau a Risgiau

3.6 Tynnodd rhai o'r ymgynghoreion sylw at y costau posibl canlynol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau coetir:

- **Llai o 'gynhyrchiant' yr ased** - mewn ardaloedd o goedwigoedd cynhyrchiol, bydd yr arddull reoli presennol yn tueddu i gael ei gynllunio i fanteisio i'r eithaf ar gynnyrch pren ased y goedwig, a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â thynnu coed, plannu a rheoli (gan nodi fodd bynnag bod CNC yn cydbwyso llawer o ffactorau wrth benderfynu ar arddull rheoli). Bydd symud i ddull rheoli amgen, megis coedwigaeth gorchudd parhaus (rheolaeth LISS), yn debygol o arwain at gynnyrch is, yn y tymor byr o leiaf. Dywedodd ymgynghorai GCC, fodd bynnag, na ddisgwylir i hyn fod yn wir yn y tymor hir - yn wir, gallai'r gwrthwyneb fod yn wir. Serch hynny, roedd un ymgynghorai yn dadlau y gallai newid i LISS arwain at lai o refeniw o werthu pren a hefyd, fel sgil-gost, llai o bren ar gael i'w ddefnyddio, gan arwain at ddewisiadau eraill, a allai fod yn fwy carbon-ddwys, neu gynnydd mewn mewnfornion o'r tu allan i Gymru. Byddai graddfa effeithiau o'r fath, fodd bynnag, yn dibynnu ar raddfa'r trosglwyddo asedau yn ogystal â gwahaniaethau cynhyrchiol. Er enghraifft, dywedodd rhai ymgynghoreion mai'r asedau sydd o'r diddordeb mwyaf i grwpiau cymunedol yw'r rheini ar ffiniau cymunedau, nad ydynt yn gyffredinol yn asedau pren cnwd uchel (fel pocedi llai o goetir, weithiau ar lethrau serth) ac efallai nad ydynt ar hyn o bryd dan reolaeth weithredol. Byddai hyn yn lleihau'r gost bosibl o ran elw ariannol is (ac yn wir gyda'r posibilrwydd i hyn gael ei wrthdroi, yn yr achosion lle mae grwpiau cymunedol yn dod â choetiroedd heb eu rheoli dan reolaeth fwy gweithredol).
- **Costau uwch sy'n gysylltiedig â chynhyrchu pren** – mae dull rheoli gorchudd parhaus, pe bai hyn yn cael ei fabwysiadu, yn gofyn am dynnu coed yn bwrpasol. Nododd un cyfwelai fod hyn yn dueddol o fod yn ddrutach fesul uned o bren na llwyrwympo. Mae'n bwysig nodi y gallai CNC elwa gan arbedion maint sy'n annhebygol o gael eu cyflawni gan reolaeth gymunedol. Deellir bod hyn yn cynnwys buddion o ran costau uned posibl a chyfleoedd gwerthu swmp. Byddai budd hefyd o ran enillion rheoli oherwydd arbenigedd CNC.
- **Risg na chaiff yr ased ei gynnal â'i gadw** – mae cynnal a chadw coetir yn golygu sicrhau bod ffiniau a llwybrau yn cael eu cynnal, a bod peryglon diogelwch posibl yn

cael eu rheoli yn barhaus. Fel rhan o'r model presennol, CNC sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. Pe bai'r ased yn cael ei drosglwyddo i grŵp cymunedol, yn dibynnu ar y cytundeb rheoli neu delerau'r trosglwyddiad, mae'n bosibl y bydd y cyfrifoldeb am y gwaith cynnal a chadw hwn hefyd yn cael ei drosglwyddo.

Dyweddodd rhai ymgynghoreion mai pryder posibl yw efallai nad oes gan grwpiau cymunedol yr arbenigedd, cymhelliant, awydd na'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i barhau â'r gwaith cynnal a chadw hwn yn y tymor hir, gan arwain at risgiau ynghylch diraddiad yr ased yn y pen draw, a'r potensial ar gyfer costau gwaith adfer sylweddol efallai na fydd gan y grŵp cymunedol y modd i'w talu. Ystyriaeth ychwanegol yw, yn ogystal â chostau adfer, y byddai disgwyl i ddiraddiad o'r fath effeithio ar faint y buddion a gynhrychir dros amser.

- **Risgiau iechyd a diogelwch** – mae angen cryn arbenigedd i reoli coetir, a rhaid ymgymryd â gweithgareddau peryglus megis torri coed gyda mesurau diogelwch priodol yn eu lle. Mynegodd rhai ymgynghoreion mai pryder posibl ynghylch trosglwyddo rolau stiwardiaeth oddi wrth weithwyr proffesiynol coedwigaeth yw'r potensial ar gyfer risgiau iechyd a diogelwch ychwanegol.

4. Canfyddiadau: Adolygiad Tystiolaeth

Cefndir a Chyd-destun

- 4.1 Trwy ein chwiliadau llenyddiaeth a'n 'galwad am dystiolaeth' gwnaethom nodi 36 o astudiaethau a oedd yn bodloni ein meini prawf cynhwysiant o blith dros 400 o astudiaethau a ddychwelwyd drwy ein chwiliadau ar-lein, chwilio â llaw a galwad am dystiolaeth. Mae'r astudiaethau craidd hyn wedi llunio sail i'n hadolygiad tystiolaeth.
- 4.2 Er bod ein strategaeth chwilio a'n 'galwad am dystiolaeth' wedi'u cynllunio i gasglu ystod eang o lenyddiaeth academaidd a llwyd perthnasol, mae'n bwysig nodi oherwydd cwmpas ac adnoddau nad yw'r adolygiad tystiolaeth hwn yn hollgynhwysfawr.

Crynodeb o fewnwelediadau o'r adolygiad tystiolaeth

- 4.3 Yn fras, mae'r llenyddiaeth a nodwyd ac a adolygwyd yn awgrymu bod ystod eang o effeithiau (a risgiau) cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd *posibl* o drosglwyddo asedau pren i drydydd parti, ac yn benodol grwpiau coedwigaeth cymunedol a mentrau cymdeithasol.¹⁵ Crynhoir y rhain yn Nhabl 4-1. Mae Tabl 4-1 hefyd yn rhoi asesiad ansoddol o ansawdd y dystiolaeth. Rydym yn categoreiddio effeithiau fel rhai a gefnogir gan:
- Dystiolaeth gyfyngedig: Mae tystiolaeth yn gwrth-ddweud ei gilydd, mae diffyg astudiaethau gwerthusol ffurfiol, neu ni chaiff effeithiau eu hadrodd yn eang yn y llenyddiaeth;
 - Tystiolaeth gymedrol: Mae effeithiau yn cael eu hadrodd yn eang yn y llenyddiaeth ac wedi'u nodi gan o leiaf un gwerthusiad rhaglen, fodd bynnag, mae'r effeithiau a adroddir yn cael eu cyflwyno fel allbynnau yn hytrach na chanlyniadau;
 - Tystiolaeth gref: Adroddir yn eang ar effeithiau yn y llenyddiaeth ac maent wedi'u nodi gan nifer o astudiaethau gwerthusol. Efallai bod effeithiau'n cael eu cyflwyno fel allbynnau, ond mae corff ehangach o lenyddiaeth yn cefnogi canlyniadau posibl.

¹⁵ Diffinnir menter gymdeithasol gan Lywodraeth EM fel, 'busnes ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y mae ei wagedion yn cael eu hail-fuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na cael ei ysgogi gan yr angen i wneud y mwyaf o elw i gyfranddalwyr a pherchnogion'. Gweler [Canllaw i Ffurflenni Cyfreithiol ar gyfer Menter Gymdeithasol - GOV.UK](#). Mewn cyferbyniad, mae grwpiau coetir cymunedol yn tueddu i ariannu eu gweithgareddau trwy godi arian a thrwy roddion.

- 4.4 Yn unol ag adolygiadau cynharach (er enghraifft, Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014), fodd bynnag, canfyddwn fod diffyg cyson o dystiolaeth empirig gadarn mewn perthynas ag effaith *wirioneddol* trosglwyddo asedau ar gymunedau a'r gymdeithas ehangach. Mae sawl rheswm am hyn, a disgrifir y rhain yn fanylach isod:
- Dim (neu ddiffyg dull cyson ar gyfer) mesur effaith (Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014; Stewart, 2011). Mae hyn oherwydd gwerthusiadau sy'n canolbwyntio ar ofynion cyllidwyr yr ymyriad a'u hamcanion ehangach a'r flaenoriaeth isel o werthusiadau cadarn gan grwpiau cymunedol sy'n aml yn cael eu tanariannu a heb ddigon o adnoddau (Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014; Wong, 2017);
 - Lle mae gwerthusiadau wedi'u cynnal, y duedd yw canolbwyntio ar fewnbynnau, gweithgareddau ac allbynnau – crynodeb meintiol o weithgaredd (er enghraifft, coed a blannwyd, oriau gwirfoddolwyr, nifer aelodaeth grŵp cymunedol) yn hytrach na chanlyniadau – y newid sy'n digwydd o ganlyniad i weithgaredd (er enghraifft, gwelliannau i fioamrywiaeth, gwell lles gwirfoddolwyr neu lai o arwahanrwydd cymdeithasol oherwydd aelodaeth gymunedol).
 - Yr anhawster i ddeall ychwaneged (beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r ymyriad, na fyddai wedi digwydd fel arall), priodoliad (i ba raddau y gellir priodoli'r newid i'r ymyriad) a hyd yr effeithiau (i ba raddau y mae'r effeithiau yn para dros amser) mewn perthynas â throsglwyddo ased. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg data llinell sylfaen a hydredol (Ambrose-Oji et al, 2012). Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod hyn wedi bod yn llai o broblem ar gyfer prosiectau lle mae ehangu coetir yn un o'r prif amcanion. Er enghraifft, rhaglenni ailgoedwigo neu goedwigo, lle mae data sylfaenol ar gael yn haws ac ychwanegedd yn fwy amlwg.
 - Lefel uchel o heterogenedd rhwng astudiaethau, prosiectau a rhaglenni. Dylanwadir ar fuddion, costau a risgiau gan ffactorau megis nodweddion penodol y prosiect a'r math o drefniant trosglwyddo (er enghraifft, deiliadaeth, lleoliad, maint, a chyflwr cychwynnol coetir), strwythur sefydliadol (er enghraifft ffurfiol, anffurfiol, menter gymdeithasol, menter er elw), sefydlogrwydd ariannol (er enghraifft cyllid grant neu hunangynhaliol), amcanion y sefydliad (er enghraifft cadwraeth, cyflogaeth leol, addysg a hyfforddiant) ac ystod eang o ffactorau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol eraill (Bowler et al., 2012; Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014; Lawrence et al., 2020). Mae hyn yn golygu bod nifer sylweddol o newidynnau annibynnol ar

waith ar gyfer unrhyw astudiaeth, prosiect neu raglen benodol, a gyda hynny yr her o sefydlu achosiaeth mewn perthynas â graddfa a chyfeiriad (effeithiau cadarnhaol neu negyddol) y canlyniad. Mae gan yr heterogenedd hwn oblygiadau pwysig ar gyfer arfarniadau – gallai dull ‘addas i bawb’ or-symbl arwain at amcangyfrifon camarweiniol oherwydd yr amrywiaeth fawr mewn mewnbynnau prosiect penodol ac effaith hyn ar raddfa a math canlyniadau prosiect.

- 4.5 Er bod gan drosglwyddo asedau coetir priodol i drydydd parti addas, megis grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol, y potensial i greu ystod o fuddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, mae diffyg tystiolaeth gadarn y gellir ei chyffredinoli.
- 4.6 Ychydig iawn o dystiolaeth a adroddwyd (os o gwbl) y gwnaethom ei chanfod mewn perthynas ag asesiad o gostau uniongyrchol neu anuniongyrchol posibl (effeithiau negyddol a adroddwyd) sy’n gysylltiedig â throsglwyddo asedau coetir. Mae’r gogwydd cadarnhaol hwn yn ymwneud â’r nifer cyfyngedig o werthusiadau ffurfiol, ac oherwydd natur yr adrodd sy’n tueddu i alinio ag amcanion sefydliadau sy’n ariannu’r gwaith neu brosiect. Fodd bynnag, mae risgiau (a ddiffinnir yma fel *ansicrwydd y bydd canlyniad yn wahanol i’r hyn a ddisgwyllir*), yn cael eu cynrychioli’n well yn y llenyddiaeth. Mae hyn yn golygu, wrth geisio mesur yn gadarn effeithiau posibl trosglwyddo asedau, y bydd swm yr ansicrwydd yn uchel gyda risg o dan-honi neu o or-honi yr effeithiau posibl. Mae hyn yn awgrymu bod angen i arfarniad roi sylw digonol i ddeall ac ystyried materion a risgiau achos-benodol.
- 4.7 Yn yr adrannau sy’n dilyn rydym yn crynhoi’r canfyddiadau o’n hadolygiad tystiolaeth gan fabwysiadu’r categorïau a gyflwynir yn Lawrence ac Ambrose-Oji (2014) sy’n cynnwys: bioffisegol, economaidd ac ariannol, cymdeithasol a chyfranogol.

Bioffisegol

- 4.8 Er bod lluo o fuddion bioffisegol (amgylcheddol) posibl wedi’u nodi yn y llenyddiaeth, mae’r dystiolaeth bod trosglwyddo asedau coetir i grwpiau cymunedol mewn gwirionedd yn cyflawni’r buddion hyn yn gyfyngedig hyd yma. Mae gwerthusiadau wedi’i chael hi’n anodd nodi ychwanegedd effeithiau newid perchnogaeth oherwydd

diffyg data llinell sylfaen a hydredol (er enghraifft, Ambrose-Oji et al., 2012). Er bod grwpiau coetir cymunedol yn *cynnal* gweithgareddau a *allai* gael effeithiau bioffisegol eang, nid oes unrhyw werthusiadau ffurfiol wedi nodi a gafodd yr effeithiau hyn eu gwireddu neu'n barhaus.

- 4.9 Er enghraifft, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod gan GCCau sy'n cymryd rheolaeth dros goetiroedd yn aml amcanion penodol sy'n ymwneud ag ymarfer Systemau Coedamaeth Effaith Isel (LISS), cynyddu amrywiaeth genetig coetiroedd trwy blannu rhywogaethau cynhenid neu wella cynefinoedd a rheoleiddio plâu a chlefydau trwy ddewisiadau o ran plannu a gweithgareddau rheoli (Dunn et al., 2021; Wong, 2017; Owen et al., 2008). Ac, er bod gan yr arferion hyn y potensial i wella dal a storio carbon (Krug, 2019), bioamrywiaeth a gwytnwch coetiroedd (Dunn et al., 2021; Ray et al., 2018), nid ydym wedi nodi astudiaeth neu werthusiad ffurfiol sy'n cadarnhau bod y buddion hyn wedi'u gwireddu gan GCCau, ac i ba raddau. Fodd bynnag, mae mesurau anuniongyrchol, megis gwell canfyddiad o ansawdd amgylcheddol ac ansawdd coetir, wedi cael eu cysylltu â gweithgareddau coetir cymunedol (Owen et al., 2008; Lawrence ac Amrbose-Oji, 2014; Wong, 2017; Dunn et al., 2021).
- 4.10 Gall GCCau, ac maent yn, chwarae rhan mewn rheoli coetir, yn enwedig ar gyfer coetiroedd llai, llai cynhyrchiol, neu goetiroedd nas rheolir yn ddigonol. Yn aml bydd grwpiau cymunedol yn defnyddio gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r gweithgareddau rheoli hyn, gan arwain at gost ariannol is na phe bai gweithwyr cyflogedig yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, bydd graddau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddull a ddefnyddir (megis coedwigaeth gorchudd parhaus neu fondocio), y sgilliau, yr adnoddau, y cymorth cyfryngwr, a'r rhwydweithiau gwybodaeth sydd ar gael a chyflwr cychwynnol y coetir (Dunn et al., 2021; Wong et al. 2015). Nodir hefyd fod angen ystyried cost cyfle mewnbynau llafur di-dâl a chymorth cyfryngwr, yn ogystal â'r ffaith bod coetir a reolir gan y gymuned yn debygol o ddarparu lefel wahanol o gynhyrchiant asedau – ac felly nid yw costau rheoli yn rai y gellir eu cymharu'n uniongyrchol.
- 4.11 Lle mai ehangu coetiroedd fu prif amcan grwpiau coetir cymunedol, mae tystiolaeth gryfach o ran dal a storio carbon o blannu coed, gwell bioamrywiaeth, ansawdd coetiroedd, a buddion canfyddedig mewn perthynas â rheoli pridd yn well, rheoli dŵr

yn well a lleihau'r perygl o lifogydd (Ambrose-Oji et al., 2012). Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn ystyried sut y byddai'r gweithgareddau hyn a gyflawnir gan GCCau yn creu buddion net a oedd yn ychwanegol at ehangu coetir a gyflawnir gan, er enghraifft, gyrff cyhoeddus.

Economaidd ac ariannol

- 4.12 Mae dystiolaeth anghyson mewn perthynas ag effaith trosglwyddo asedau coetir ar gyflogaeth leol a chynaliadwyedd cyflogaeth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr effeithiau'n debygol o fod yn fach. Er gwaethaf yr anawsterau i ddeall i ba raddau y mae creu cyflogaeth yn ychwanegol ac i ba raddau y mae dadleoli¹⁶ yn digwydd, mae creu cyflogaeth yn dibynnu ar faint, cwmpas a threfniant sefydliadol y grŵp coetir cymunedol, cymorth cyfryngwr (Lawrence et al., 2020), a photensial ar gyfer creu refeniw. Mae mentrau cymdeithasol yn fwy tebygol o greu cyflogaeth leol sy'n gynaliadwy o gymharu â grwpiau coetir cymunedol, drwy symud oddi wrth arian grant i fathau mwy cynaliadwy o greu incwm, er bod hyn yn dibynnu ar refeniw ariannol a/neu gronfeydd eraill. Mae grwpiau coetir cymunedol llai yn dueddol o gael eu cefnogi gan wirfoddolwyr, gan ddefnyddio arian grant neu roddion i gefnogi swyddi cyflogedig rhan-amser. Ystyriaeth bwysig yma yw nad oes unrhyw adroddiadau o greu cyflogaeth yn ystyried ychwaneged, er enghraifft i ba raddau y mae unrhyw effeithiau gwrthbwysol ar gyflogaeth perchnogion presennol yr ased.
- 4.13 Mae rhai grwpiau coetir cymunedol yn cynhyrchu incwm drwy werthu nwyddau a gwasanaethau. Yn ôl Lawrence ac Ambrose-Oji (2014) mae o leiaf traean o'r grwpiau cymunedol sy'n berchen ar dir, neu'n ei brydlesu, yn cynhyrchu incwm o ryw fath o fasnachu. Er bod y mathau o gynnyrch yn amrywiol ac yn benodol i'r cyddestun (Siegener et al. 2021) ac yn dibynnu a oes gan grwpiau cymunedol yr hawl i gynnyrch y tir. Gall gweithgareddau gynnwys gwerthu pren, coed tân, NTFP (Cynhyrchion Coedwigaeth Di-bren), gwasanaethau cymdeithasol, rheoli coetir dan gontract, hyfforddiant, rhentu eiddo, cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol

¹⁶ Mae'r Llyfr Gwyrdd (2022) yn diffinio dadleoli fel '... y graddau y mae cynnydd mewn gweithgarwch economaidd neu ganlyniad dymunol arall yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiadau mewn gweithgarwch economaidd neu ganlyniad dymunol arall yn yr ardal dan sylw neu mewn ardaloedd cyfagos. Er enghraifft, lle mae busnes a gynorthwyr yn cymryd cyfran o'r farchnad oddi wrth fusnes nad yw'n cael ei gefnogi.' Gweler Y Llyfr Gwyrdd (2022) - [GOV.UK](https://www.gov.uk/government/publications/green-book-2022)

(Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014; Wong, 2017; Ludvig et al., 2018; Dunn et al., 2021). Mae Wong (2017) yn amlygu bod incwm masnachol o gytundebau rhentu gyda darparwyr gweithgareddau coetir trydydd parti (er enghraifft, ysgolion coedwig neu ddigwyddiadau diwylliannol) yn arbennig o ddeniadol gan ei fod yn risg gymharol isel ac nad oes angen staffio sylweddol arno.

- 4.14 Mae'n gyffredin bod yr incwm a gynhrychir gan GCC yn gymedrol. Fodd bynnag, gall chwarae rhan hollbwysig wrth gynnal GCC, gan ganiatáu ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau a gweithgareddau eraill (Dunn et al., 2021). Eto, mae'r graddau y bydd trosglwyddo asedau yn arwain at weithgareddau cynhrychu referniw yn dibynnu ar amcanion cyffredinol y grŵp neu fenter coetir cymunedol, telerau deiliadaeth neu gytundeb rheoli, galluoedd ac adnoddau i gynhrychu nwyddau a gwasanaethau o'r fath, a'r galw amdanynt. Hefyd, er nad yw wedi'i nodi yn y llenyddiaeth, mae angen ystyried i ba raddau y mae gweithgareddau cynhrychu referniw yn ychwanegol neu'n gwrthbwysu'r rheini a gynhrychir gan berchennog presennol yr ased.
- 4.15 Gall trosglwyddo asedau gynnig sylfaen ar gyfer datblygu menter gymdeithasol (Stewart, 2011), gan ganiatáu i gymunedau berchenogi neu reoli asedau mewn modd sy'n cynhrychu elw, tra hefyd yn hwyluso cynhrychu incwm (h.y. symud oddi wrth ddibyniaeth ar grantiau). Mae astudiaethau yn Awstria a'r Alban wedi awgrymu y gallai fod gan fentrau cymdeithasol coetir rywffaint o botensial i gyfrannu at rywffaint o wrthweithio ymfudo o ardaloedd gwledig a gwneud rhanbarthau'n fwy deniadol (Weiss et al., 2017; Barlagne, 2021). Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod yr effeithiau hyn yn debygol o fod yn fach o gymharu â ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar lif poblogaeth.
- 4.16 Mae llwyddiant yn aml yn dibynnu ar i ba raddau y gall GCCau neu fentrau cymdeithasol ddenu buddsoddiad cyfalaf, marchnadoedd i werthu pren neu NTFP a mynediad i'r farchnad, a chefnogaeth cyfryngwyr penodol i'r sector (Wong, 2017; Wong et al., 2015). Mae hyd prydles hefyd yn ffactor bwysig wrth benderfynu a yw mentrau cymdeithasol coetir yn gallu benthyca arian yn erbyn yr ased coetir ar gyfer buddsoddiad pellach mewn datblygu busnes (Stewart, 2011).
- 4.17 Mae gan GCCau y potensial i gynhrychu twristiaeth seiliedig ar natur o ansawdd uchel (Sarkki et al., 2019), er bod y dystiolaeth yn gyfyngedig yn y llenyddiaeth a

adolygwyd. Mae Owen et al. (2008), fodd bynnag, yn adrodd ar dystiolaeth anecdotaidd o gynnydd mewn ymwelwyr â choetiroedd cymunedol ac yn awgrymu y gallai'r ffocws hwn ar ddefnyddio coetiroedd gynnog rhywfaint o effaith gadarnhaol bosibl ar yr economi leol. Mae hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar ystod o ffactorau megis dadleoli gwariant a maint y gwariant. Fodd bynnag, gallai perchnogion coetir cyhoeddus neu breifat eraill ymgymryd â gweithgareddau o'r fath hefyd.

- 4.18 Nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol yn ymwneud â gwerthu lotiau llai o bren neu werthu coed am lai na gwerth y farchnad. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau cymunedol neu gyflenwyr lleol am ddefnyddio cyflenwadau pren lleol ar gyfer cynhyrchion pren, wedi'u hysgogi gan fuddiannau lleol a chynaliadwyedd megis allyriadau CO₂ sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a lleihau mewforion o'r tu allan i Gymru.¹⁷

Cymdeithasol

- 4.19 Mae corff eang o dystiolaeth sy'n awgrymu y gall trefniadau trosglwyddo coetir arwain at ystod o fuddion cymdeithasol. Mae'r dystiolaeth yn tueddu i fod ar ffurf canfyddiadau defnyddwyr o fuddion neu allbynnau cymdeithasol (megis cymryd rhan mewn digwyddiadau). Yn ogystal, roedd rhai buddion a adroddwyd yn cynnwys lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch y coetir (er enghraifft fandaliaeth, tipio anghyfreithlon) er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth, a dim ond mewn un astudiaeth y nodir y rhain (Owen et al., 2007). Fodd bynnag, bydd buddion gwahanol yn cael eu dosbarthu ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth. Er enghraifft, mae lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar drigolion sy'n byw'n agos at y coetir. Mewn cyferbyniad, gall y gymuned agos a defnyddwyr nad ydynt yn lleol elwa gan well mynediad ac ansawdd coetir.
- 4.20 Mae sail dystiolaeth gref ar gyfer y buddion sy'n gysylltiedig ag iechyd (canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol) o gynyddu mynediad cyhoeddus i goetiroedd yn benodol a manau gwyrdd yn ehangach (er enghraifft, Ridgley et al., 2020; Christie et al., 2017). Canfu Nguyen et al. (2021) fod canfyddiadau o ansawdd manau gwyrdd yn gallu rhagfynegi buddion iechyd a bod buddion iechyd yn fwy cyson

¹⁷ Barn arbenigol o ohebiaeth bersonol â Dr Jenny Wong, 19 Ebrill 2022.

mewn poblogaethau sydd â mwy o ganopi coed, ond nid mwy o laswelltir. Fodd bynnag, mae i ba raddau y mae mynediad (a defnydd) yn cael ei gynyddu trwy drosglwyddo asedau i GCC yn dibynnu ar leoliad y safle (e.e. yn agos at ardal breswyl), a yw hyn yn un o amcanion penodol y GCC a'r cyflwr cychwynol a'r seilwaith sydd ar gael ar adeg y trosglwyddo.


- 4.21 Mae buddion mwy o fynediad (er enghraifft, gwell seilwaith a manau mynediad) a chanfyddiadau o well ansawdd coetir (gan gynnwys cynnydd mewn gwerth amwynder, ymdeimlad o le, gwelliannau yn ansawdd bywyd y gymuned) yn amlwg yn y llenyddiaeth mewn perthynas â pherchnogaeth coetir cymunedol (Dunn et al., 2021, Logan et al., 2021). Effeithir ar raddfa a maint y buddion hyn gan agosrwydd at ardaloedd preswyl, poblogaethau mwy a phroffil economaidd-gymdeithasol ardal.
- 4.22 Nododd sawl astudiaeth fod coetiroedd yn cael eu defnyddio fwyaf pan fo defnyddwyr yn gallu cerdded yno (er enghraifft, Tzoulas et al., 2010; Greenspace Scotland et al., 2017). Yn ogystal, mae ymchwil helaeth wedi dangos y gellir haneru anghydraddoldebau iechyd mewn ardaloedd incwm isel gyda mwy o fynediad i fannau gwyrdd (Marmot et al., 2010). Er bod agosrwydd yn ffactor pwysig, cysylltir defnydd neu 'amlygiad' ag ansawdd coetir, rhaglennu digwyddiadau a theimlad o ddiogelwch (Logan et al., 2021; Ngom et al., 2016; Thompson et al., 2007). Fodd bynnag, nodir bod bwch yn y dystiolaeth ynghylch sut y gall hygyrchedd ac amlygiad amrywio'n ofodol ar draws graddiannau trefol-wledig, gan gynnwys asesu gwahanol fathau o fannau naturiol, a sut maent yn berthnasol i'w gilydd (Jarvis et al., 2020). Er y gellir gwireddu buddion sy'n ymwneud â mwy o fynediad a defnydd o goetiroedd trwy drosglwyddo perchnogaeth i GCC, nid yw'r graddau y mae'r buddion hyn yn ychwanegol ac y gellir eu priodoli i'r trosglwyddiad wedi'i archwilio. Gellir gwireddu buddion o'r fath hefyd drwy berchnogaeth grŵp nad yw'n gymunedol pe bai gan sefydliadau o'r fath amcan hefyd i gynyddu mynediad a defnydd o'r coetir.
- 4.23 Mae'r ddarpariaeth addysg (profiad gwaith, gwella'r cwricwlwm), effeithiau sgiliau a hyfforddiant yn cael eu hadrodd yn eang yn y llenyddiaeth (Dunn et al., 2021; Siegner et al., 2021; Ludvig et al., 2018; Eguny et al., 2016; Blundel a Lyon, 2015; Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014; Owen et al., 2008). Fodd bynnag, bydd y rhain i gyd yn dibynnu ar amcanion grwpiau coetir cymunedol a'r gweithgareddau y maent

yn eu cynnal. Mae arolygon amrywiol yn nodi bod addysg, hyfforddiant a sgiliau yn tueddu i fod yn flaenoriaethau uchel i'r rhan fwyaf o grwpiau coetir cymunedol, gyda Wong (2017) yn nodi tuedd gynyddol tuag at ymgysylltu cymdeithasol a gweithgareddau sy'n ymwneud â materion lleol. Fodd bynnag, prin yw gwerthusiadau ffurfiol ar gyfer elfennau addysg a hyfforddiant o'r fath yn y cyddestun hwn er mwyn deall cysondeb a graddfa buddion o'r fath.

Cyfranogiad mewn grwpiau coetir cymunedol a gweithgareddau coetir

- 4.24 Mae ystod eang o fuddiannau honedig trosglwyddiad asedau coetir ar gyfranogiad, o ran cyfranogiad o fewn GCC neu weithgareddau coetir a drefnir gan y GCC. Er bod y dystiolaeth yn llai datblygedig o gymharu â llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar goedwigaeth gymunedol mewn gwledydd sy'n datblygu, mae effeithiau cyfranogol wedi'u hystyried yn y llenyddiaeth. Mae Lawrence ac Ambrose-Oji (2014) yn nodi, fodd bynnag, bod gwerthusiadau wedi canolbwyntio ar fathau llai grymus o gyfranogiad, megis gwirfoddoli, aelodaeth o grwpiau coetir cymunedol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau coetir o gymharu â phrydlesu neu drosglwyddo perchnogaeth coetir.
- 4.25 Mae Ambrose-Oji (2011) yn amlygu y bydd lefel y cyfranogiad yn dibynnu ar y cyfleoedd i bobl ymgysylltu â choetir (gweler Ffigur 9-1). Yn benodol, mae coetir cymunedol yn dangos sbectwm eang o gyfleoedd i gyfranogi. Oherwydd hyn, bydd graddfa a maint y buddion i unigolion a chymunedau yn dibynnu ar ffactorau megis y math o weithgareddau, trefniadau sefydliadol a deiliadaeth.

Ffigur 4-1: Cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â choedwigaeth



Addaswyd o wefan Comisiwn Coedwigaeth yr Alban

Ffynhonnell: Ambrose-Oji (2011)

- 4.26 Nododd gwerthusiad manwl o 24 o brosiectau o fewn rhaglen Cydcoed yng Nghymru nifer o fuddion a hunan-gofnodwyd gan fuddiolwyr y rhaglen, gan gynnwys gwelliannau llesiant drwy gymryd rhan yn y rhaglen, mwy o ymddiriedaeth yn y gymuned a mwy o rwydweithiau cymdeithasol, gwell cysylltiadau cymunedol yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli a chyfranogiad mewn digwyddiadau (Owen et al., 2008). Yn yr un modd, mewn gwerthusiad mwy diweddar o grwpiau coetir cymunedol yng Nghymru, canfu Wong (2017) amrywiaeth o fuddion wedi'u hunan-adrodd yn ymwneud â mwy o gyfranogiad fel gwirfoddoli a chydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, oherwydd data hydredol cyfyngedig yn ymwneud â chyfranogiad dros amser, prin yw'r dystiolaeth ar gynaliadwyedd y canlyniadau a adroddir.
- 4.27 Yn fwy cyffredinol, mae'r llenyddiaeth yn amlygu effaith bosibl trosglwyddo asedau coetir ar *rymuso cymunedau* (datganoli pŵer i ddiwallu anghenion lleol, datblygiad mecanwaith effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau); *gallu cymunedol* (gallu cymuned i addasu i newid economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, amgylcheddol er mwyn sicrhau bod aelodau'r gymuned yn cynnal neu'n gwella ansawdd eu bywyd); *cynhwysiant cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol* (perthynas a rhwydweithiau rhwng unigolion a sefydliadau a nodweddion y perthnasoedd hyn (Stewart, 2011).

- 4.28 Er bod gwerthusiadau wedi cadarnhau gwelliannau wedi'u hunan-adrodd mewn cyfalaf cymdeithasol, mae i ba raddau y mae grymuso cymunedau a mwy o allu cymunedol wedi'u cyflawni ac i bwy (er enghraifft, y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu wedi'i ymgysylltu'n weithredol â'r prosiect neu'r gymuned ehangach) yn llai amlwg. Er bod Lawrence ac Ambrose-Oji (2014) yn dod o hyd i dystiolaeth o rymuso a gallu cymunedau, roedd y cymunedau gwledig a arolygwyd yn teimlo bod llywodraethu cryf eisoes yn bodoli o fewn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae astudiaethau eraill yn adrodd am rymuso a chydlyniant cymunedol fel buddion a gyflawnir drwy gymryd rhan mewn prosiectau coetir cymunedol (Tidey a Pollard, 2010; Sarkki et al., 2019).
- 4.29 Mae Lawrence ac Ambrose-Oji (2014) yn tynnu sylw at y ffaith y gall cyfranogiad mewn llywodraethu coetiroedd fod yn anghynrychioliadol o'r cymunedau y mae coetiroedd wedi'u lleoli ynddynt, er enghraifft, mae aelodau pwyllgor yn tueddu i fod yn gogwyddo tuag at boblogaeth hŷn, ac yn aml yn wyn a gwrywaidd (Edwards et al., 2009). Adlewyrchir hyn hefyd yn y llenyddiaeth ryngwladol (McDermott, 2009). Fodd bynnag, mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, grwpiau incwm isel, lleiafrifoedd ethnig, neu'r rheini ag anabledau) yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiadau a chynyddu'r defnydd o ased coetir uwchlaw cyfranogi mewn grŵp cymunedol (Lawrence ac Ambrose-Oji, 2014).

Y Llenyddiaeth Trosglwyddo Asedau Cymunedol ehangach

- 4.30 I raddau, gellir ystyried yr effeithiau a'r risgiau cymdeithasol, economaidd, ac ariannol, a chyfranogol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau coetir i drydydd parti (yn enwedig y trydydd sector) yn debyg i'r rheini a adroddwyd yn y llenyddiaeth trosglwyddo asedau cymunedol (CAT) ehangach (asedau sy'n eiddo i gyrrff cyhoeddus cymunedol sy'n cael eu trosglwyddo i berchnogaeth gymunedol) ac eithrio:
- *Effeithiau bioffisegol* (bioamrywiaeth, gwytnwch coetiroedd, dal a storio carbon);
 - *Effeithiau cymdeithasol seiliedig ar natur* (hamdden, gwell mynediad at fannau gwyrdd).
 - *Addysg, hyfforddiant a sgiliau seiliedig ar goetiroedd* (hyfforddiant rheoli coedwigaeth, prentisiaethau, profiad gwaith a gwella'r cwricwlwm).

4.31 Yn 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad tystiolaeth mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol o fewn y sector Cynghorau Tref a Chymuned ac archwiliodd brofiadau Awdurdodau Lleol a chyrrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru mewn perthynas â CAT (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r buddion, costau a risgiau sy'n gysylltiedig â CAT i'r trosglwyddwr (corff sector cyhoeddus) a'r trosglwyddai (sefydliad trydydd sector) a'r gymuned ehangach.

4.32 Mewn perthynas â'r trosglwyddwr:

- Gostyngiad mewn costau megis costau rheoli a chynnal a chadw;
- Colli gallu ar gyfer cynllunio strategol;
- Posibilrwydd o golli cyfalaf ariannol yn y dyfodol o ran incwm a'r ased os oes trosglwyddiad llawn (yn hytrach na phrydles).

4.33 Mewn perthynas â'r trosglwyddai:

- Gall trosglwyddo perchnogaeth gefnogi sefydliadau cymunedol i ddatblygu sylfaen asedau sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer twf a sefydlogrwydd;
- Buddion unigol a chyfunol gwirfoddoli;
- Cryfhau'r berthynas rhwng y grŵp cymunedol (trosglwyddai) a'r awdurdod lleol (trosglwyddwr) ar ôl cwblhau'r CAT;
- Gall asedau ddod yn rhwymedigaethau ariannol (er enghraifft, oherwydd camreoli neu ddiffyg adnoddau i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt). Fel arall, gall asedau fod yn rhwymedigaethau cyn trosglwyddo gan arwain at anawsterau ariannol i'r trosglwyddai.

4.34 Mewn perthynas â'r gymuned:

- Mae'r ased yn parhau i fod yn agored, a gall ddod yn fwy ymatebol i anghenion lleol;
- Gall cael incwm arwain at yr ased yn gwasanaethu'r gymuned yn well ac yn ymgysylltu ag ystod ehangach o ddefnyddwyr cymunedol;
- Mae dirprwyo penderfyniadau i lefelau cymunedol yn galluogi cymunedau i ysgogi eu hamcanion eu hunain a all fod yn gatalydd ar gyfer adfywio cymunedol, gan gynnwys twf posibl y sector busnes cymunedol;

- Grymuso cymunedau, cynyddu hyder, ymdeimlad o berchnogaeth ac ymlyniad emosiynol gydag effeithiau cydredol ar lesiant unigol a chyfunol;
- Risgiau mewn perthynas â chynrychioldeb aelodau grwpiau cymunedol a chynwysoldeb o ran creu buddion.

4.35 Er bod adolygiad ehangach o'r llenyddiaeth CAT y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad tystiolaeth hwn, rydym yn amlygu'r cysylltiadau hyn ag ymchwil adolygu tystiolaeth blaenorol gan Lywodraeth Cymru fel enghraifft o'r posibilrwydd o drosglwyddo mewnwelediadau o'r corff ehangach hwn o lenyddiaeth. Mae gan hyn y potensial i ychwanegu pwysau at y sylfaen dystiolaeth bresennol o drosglwyddo asedau coetir i grwpiau cymunedol. Er nad yw'r llenyddiaeth yn rhoi golwg ar effeithiau cymdeithasol bioffisegol, seiliedig ar natur ac addysg coetir sy'n benodol i natur ac asedau coetir.

Risgiau

4.36 Mae risgiau trosglwyddo asedau cymunedol coetir yn cael eu cynrychioli'n well yn y llenyddiaeth na chostau, ac amlinellir y rhain isod.

Cynaliadwyedd ariannol grwpiau coetir cymunedol

4.37 Roedd y risg mwyaf cyffredin a nodwyd yn y llenyddiaeth yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol grwpiau coetir cymunedol, sy'n cael ei dal yn gynyddol mewn cylch o geisiadau grant sy'n ddarostyngedig i fypwyon amcanion esblygol cyllidwyr (Wong, 2017; Dunn et al., 2021). Yn benodol, mae'r dirywiad diweddar mewn cyllid ar gyfer rheoli coetiroedd wedi rhoi pwysau sylweddol ar grwpiau coetir cymunedol presennol yng Nghymru. Mae methiant mynych i ennill ceisiadau grant wedi arwain at ddirywiad mewn morâl ymhlith rhai grwpiau a chwtogi ar waith neu ymgymryd â llai o weithgareddau heriol (Wong, 2017).

4.38 Model busnes sy'n dod i'r amlwg mewn ymateb i heriau cynaliadwyedd ariannol yw mentrau cymdeithasol. Er bod y dull hwn yn aml yn cael ei annog gan gyllidwyr GCCau, efallai eu bod yn cael eu harwain gan bobl heb y craffter busnes neu brofiad ar y cychwyn neu drwy drosglwyddo aelodaeth, felly gellir goramcangyfrif y potensial neu beidio â manteisio'n llawn arno (Wong, 2017). Mae gan hyn oblygiadau pellach i hyfywedd tymor hwy prosiectau, gyda risgiau pellach i gyflwr asedau a chostau adfer i CNC.

Dibyniaeth ar amser gwirfoddolwyr

- 4.39 Mae mwyafrif y GCCau yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflawni eu hamcanion. Fodd bynnag, canfu arolwg diweddar o grwpiau coetir cymunedol y bu gostyngiad yn argaeledd amser gwirfoddolwyr ac anhawster wrth recriwtio gwirfoddolwyr. Fel uchod, mae hyn yn rhoi cyfyngiad posibl ar y gweithgareddau y gellir eu cyflawni (Wong, 2017), ac felly risg bosibl i ragolygon yr asedau a drosglwyddwyd a'r buddion a wireddir, neu gostau ychwanegol os oes angen cyllid ychwanegol ar gyfer gweithwyr cyflogedig.

Diffyg rhwydweithio ar lefel leol

- 4.40 Mae rheoli coetir yn gofyn am ddealltwriaeth briodol o reoli coetir, arferion cynaeafu, cynaliadwyedd ac yn achos tyfu menter, datblygu cynnyrch (Lawrence et al., 2020). Yn aml, mae gan GCCau awydd cryf am rwydweithio ar lefel leol i alluogi datrys problemau ymarferol, dysgu ar y cyd a mynediad at offer a gwasanaethau sydd i gyd yn cefnogi gallu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau ecosystem. Fodd bynnag, canfuwyd bod diffyg rhwydweithio a rhannu cefnogaeth rhwng GCCau (Dunn et al., 2021), gan gyfyngu o bosibl ar ansawdd a maint y canlyniadau posibl.

Blaenoriaethau sy'n gwrthdaro

- 4.41 Anaml y bydd GCCau yn blaenoriaethu cynhyrchiant coetir, a gall fod yn anodd cysoni buddiannau cymunedol lleol â thargedau twf a chynhyrchu ehangach CNC mewn perthynas â chynhyrchu pren (Siegener et al., 2021).

Risg gorddefnyddio

- 4.42 Dywed Dunn et al. (2021) y gall galluogi a hyrwyddo mynediad i goetiroedd arwain at orddefnyddio, gan olygu difrod a tharfu gan beri niwed i wasanaethau ecosystem eraill.

Risgiau dosbarthiadol

- 4.43 Mae Lawrence ac Ambrose-Oji (2014) a Duncan et al., (2013) yn tynnu sylw at effeithiau dosbarthiadol posibl o ganlyniad i welliannau i goetiroedd a mannau gwyrdd trefol ac o gwmpas trefi a all o bosibl gynyddu cost tai yn yr ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn gyfyngedig ac mae angen ei rhoi yng

nghyd-destun graddfa effeithiau amwynder o'r fath. Mae gwelliannau pellach o ran amwynder o fudd i breswylwyr/perchnogion tai presennol.

Risgiau parhauster

- 4.44 Mae Llywodraeth yr Alban yn datgan bod, '*...gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a seicolegol penodol rhwng bod yn berchen ar ased a'i brydlesu neu ei reoli. Un o fuddion allweddol perchnogaeth yw'r lefel uwch o ddiogelwch a rheolaeth y mae'n ei chynnig, gan gyfrannu yn ei dro at feithrin gwytnwch cymunedol.*' (Llywodraeth yr Alban, 2015). Mae Blake (2019), fodd bynnag, yn dadlau bod tystiolaeth i awgrymu y gellir gwireddu'r un buddion drwy fodelau perchnogaeth eraill cyn belled â bod deiliadaeth yn hirdymor (er enghraifft, 100 mlynedd). Mae'r diffyg data hydredol i ddeall parhauster grwpiau coetir cymunedol (er enghraifft, llywodraethu, aelodaeth, adnoddau), eu heffeithiau a sut y gallai'r rhain esblygu dros amser yn golygu bod risg parhauster sylweddol, yn enwedig ar gyfer trefniadau trosglwyddo asedau hirdymor.

Tabl 4-1: Crynodeb o'r Adolygiad Tystiolaeth¹⁸

Nodyn: Mae + yn nodi effaith cadarnhaol, mae – yn nodi risg/cost

| Canlyniad Posibl | Disgrifiad | Ansawdd y Dystiolaeth |
|--|--|---------------------------|
| Bioffisegol | | |
| Mabwysiadu LISS ac arferion coedamaeth arloesol | + Gall rheolaeth gan Grwpiau Coetir Cymunedol (GCCau) leihau cost rheoli coetir mewn ardaloedd llai, llai cynhyrchiol neu ardaloedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol a defnyddio technegau coedamaeth arloesol fel Systemau Coedamaeth Effaith Isel (LISS). - Gall blaenoriaethau wrthdaro â rhai CNC. - Mae'n bosibl nad oes gan GCCau y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau gan arwain at gostau adfer posibl yn effeithio ar raddfa'r buddion a gynhyrchir dros amser. | Cyfyngedig |
| Cadwraeth a gwella coetiroedd | + Gall lleihau coetiroedd sydd heb eu rheoli o gwbl/yn ddigonol gynyddu ansawdd coetir, cynyddu'r gwerth amwynder, ac annog defnydd, gyda gwell canfyddiad cyhoeddus o'r coetiroedd/amgylchedd lleol. - Efallai nad oes gan GCCau a Mentrau Cymdeithasol Coetiroedd (MGCau) y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau i ymarfer LISS. - Gall gordefnydd gan ymwelwyr danseilio gweithgareddau cadwraeth. - Gall gwelliannau i goetiroedd, yn enwedig mewn lleoliadau trefol ac o gwmpas trefi gynyddu gwerth (a phrisiau) tai, gydag effeithiau dosbarthiadol posibl. | Cymedrol |
| Mwy o fioamrywiaeth | + Gwelliannau i amrywiaeth genetig (e.e. plannu rhywogaethau cynhenid), gwella a chreu cynefinoedd, LISS, ond mae'n dibynnu ar flaenoriaethau GCCau yn hytrach na'u priodoli o reidrwydd i drosglwyddo asedau coetir. - Mae'n bosibl nad oes gan GCCau y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau gan arwain at gostau adfer posibl yn effeithio ar raddfa'r buddion a gynhyrchir dros amser. | Cyfyngedig |
| Gwynwch coetir | + Gwelliannau i amrywiaeth genetig, rheoleiddio plâu a chlefydau drwy weithgareddau plannu a rheoli, monitro ecolegol, ac adrodd, ond mae'n dibynnu ar flaenoriaethau GCCau yn hytrach na'u priodoli o reidrwydd i drosglwyddo asedau coetir. - Mae'n bosibl nad oes gan GCCau y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau gan arwain at gostau adfer posibl yn effeithio ar raddfa'r buddion a gynhyrchir dros amser. | |
| Storio ac atafaelu carbon | + Ehangu coetir (os caiff ei reoli'n dda), gan symud o lwyrgwmpo i LISS. - Peth tystiolaeth i awgrymu y gallai mwy o reolaeth ar goetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol leihau'r potensial i ddal a storio carbon drwy darfu ar bridd neu fwy o gynaeafu. | Storio ac atafaelu carbon |
| Economaidd ac ariannol | | |

¹⁸ Cyflwynir crynodeb manylach o'r adolygiad tystiolaeth yn Atodiad E.

| | | |
|---|---|------------|
| Cyflogaeth leol | + Creu cyflogaeth leol / diogelu cyflogaeth. - Efallai y bydd effeithiau gwrthbwysu ar berchennog yr ased presennol. | Cyfyngedig |
| Twf mentrau | + Gall gwerthu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau (pren, coed tân, NTFP, gwasanaethau cymdeithasol, rheoli coetir dan gontract, hyfforddiant, rhentu eiddo, cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol) hwyluso cynhyrchu cyfoeth a symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar grantiau. + Mae gan dwf menter y potensial i gynyddu ffyniant lleol, gyda rhai astudiaethau Ewropeaidd yn nodi bod gan hyn hefyd y potensial i atal ymfudo o ardaloedd gwledig, gan wneud rhanbarthau yn fwy deniadol. - Anawsterau cynhyrchu incwm oherwydd yr angen am fuddsoddiad cyfalaf, cystadleuaeth, marchnadoedd a mynediad i farchnadoedd, gan amlygu'r buddion sy'n gysylltiedig â gwerthu ar raddfa fawr. - Efallai y bydd effeithiau gwrthbwysu ar berchennog yr ased presennol. | Cymedrol |
| Twristiaeth | + Gallai gweithgareddau GCCau arwain at gynydd yn nifer yr ymwelwyr â'r coetiroedd y maent yn eu rheoli, fodd bynnag, anaml y ceir tystiolaeth o hyn. + Gall cynnydd mewn ymwelwyr arwain at effeithiau cadarnhaol ar yr economi leol. - Gall gordefnydd gan ymwelwyr danseilio gweithgareddau cadwraeth. | Cyfyngedig |
| Cymdeithasol | | |
| Addysg amgylcheddol | + Gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd lleol a natur; mwy o bresenoldeb mewn digwyddiadau gyda thema addysgol a dysgu | Cymedrol |
| Hyfforddiant mewn rheoli coedwigoedd | + Pobl leol wedi'u hyfforddi i ymarfer dewisiadau eraill yn lle rheoli coedwigoedd ar raddfa fwy/masnachol. | |
| Hamdden | + Cynnydd mewn defnydd hamdden (e.e. ymarfer corff, chwarae anffurfiol). + Gall prydlesu eiddo i drydydd parti gynyddu cyfleusterau hamdden o fewn coetir, a chefnogi cynhyrchu refeniw ar gyfer grŵp coetir cymunedol. | |
| Mynediad | + Creu seilwaith (llwybrau/traciau); cynnydd mewn manau mynediad a chynnal a chadw seilwaith, er ei fod yn dibynnu ar nodau'r GCC. - Cost cynnal a chadw uchel yn aml i grwpiau coetir cymunedol. - Gall gordefnydd gan ymwelwyr danseilio gweithgareddau cadwraeth. | |
| Addysg a hyfforddiant | - Gweithgareddau gwella'r cwricwlwm; hyfforddiant sgiliau cysylltiedig â gwaith (prentisiaethau, profiad gwaith). | |
| Ansawdd bywyd y gymuned | + Gwelliannau yn ansawdd bywyd y gymuned; lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch coetiroedd; ymdeimlad o le. | |
| Iechyd a lles unigol | + Mwy o ddefnydd hamdden o goetiroedd (e.e. ymarfer corff, chwarae anffurfiol), ond yn dibynnu ar agosrwydd coetir i ardaloedd preswyl gan fod defnydd yn arwain at wireddu buddion. - Gall gordefnydd gan ymwelwyr danseilio gweithgareddau cadwraeth. | Cryf |

| Cyfranogol | | |
|---------------------------------|---|------------|
| Cynhwysiant cymdeithasol | <ul style="list-style-type: none"> + Mae'n bosibl y gall GCCau a menter gymdeithasol coetir (MGC) ddarparu gwasanaethau lleol am gostau is gan na fydd angen iddynt efallai greu elw. + Cyfleoedd cyflogaeth (hyfforddiant, profiad gwaith, cyflogaeth leol). + Mwy o fynediad gan bobl o ardaloedd difreintiedig. + Datblygu economaidd drwy greu cymunedau mwy mentrus a denu pobl newydd i fusnes. - Gall fod effeithiau gwrthbwysu ar berchennog yr ased presennol, a chyflogaeth gysylltiedig. - Tystiolaeth y gall gwell gwerth amwynder gael effaith negyddol ar gynhwysiant cymdeithasol drwy gynyddu prisiau tai. - Efallai na fydd aelodau o'r grŵp nad ydynt yn gynrychioliadol yn blaenoriaethu anghenion lleol. | Cyfyngedig |
| Grymuso cymunedol | <ul style="list-style-type: none"> + Datganoli pŵer i ddiwallu anghenion lleol, neu fecanwaith effeithiol ar gyfer cynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau. | Cyfyngedig |
| Gallu cymunedol | <ul style="list-style-type: none"> + Gallu cymuned i addasu i newid economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, amgylcheddol o ran bygythiadau a chyfleoedd i sicrhau bod aelodau'r gymuned yn cynnal neu'n gwella ansawdd eu bywyd. | Cymedrol |
| Cyfalaf cymdeithasol | <ul style="list-style-type: none"> + Gellir cryfhau cyfalaf cymdeithasol drwy annog perchnogaeth gymunedol a rheoli asedau. | Cymedrol |
| Gwirfoddoli | <ul style="list-style-type: none"> + Mwy o gyfleoedd i wirfoddoli. - Mae llawer o GCCau yn adrodd am anawsterau wrth gynnal a recriwtio gwirfoddolwyr gan olygu naill ai newid mewn model busnes neu ffocws ar weithgareddau sydd angen niferoedd is o wirfoddolwyr. | Cryf |

5. Canfyddiadau: Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid

5.1 Mae'r Bennod hon yn cyfuno naw ymgynghoriad â grwpiau coetiroedd cymunedol Cymru, timau CNC mewn lleoedd penodol, a Forestry and Land Scotland. Diben yr ymgynghoriadau hyn oedd:

- Deall sut y gallai'r gwahanol drefniadau trosglwyddo asedau alluogi gwahanol fuddiannau, risgiau a chostau ychwanegol yn dibynnu ar ddiben y cynllun;
- Archwilio pwy allai'r ystod o fuddiolwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol fod o ganlyniad i drosglwyddo asedau coetir i grwpiau cymunedol/trydydd sector;
- Deall beth yw ystod a graddfa (a pharhauster) buddion ychwanegol ar gyfer pob math o fuddiolwr a nodir gan rhanddeiliaid, lle bo hynny'n ymarferol;
- Deall sut y gellid mesur pob budd posibl ac i ba raddau y maent yn ychwanegol ac y gellir eu priodoli i'r trosglwyddo;
- Deall a yw grwpiau cymunedol/trydydd sector yn asesu eu costau a'u risgiau o ddod i drefniant trosglwyddo asedau, ac os felly, sut;
- Ystyried heriau posibl i CNC allu meintoli'n briodol a/neu asesu buddion, costau a risgiau'n gadarn a chymesur gan ddefnyddio dulliau addas.

Rôl ganfyddedig CNC

Y prif fathau o drefniadau sydd gan CNC gyda GCCau

5.2 Yn ôl Llais y Goedwig, sy'n cynrychioli ac yn cefnogi grwpiau cymunedol ac ymarferwyr ledled Cymru, mae tua 300 o aelodau llawr gwlad ar draws holl goetiroedd Cymru. O fewn yr asedau a reolir gan CNC, mae tua 34 o GCCau sydd â chytundeb rheoli presennol ar dir CNC. Dechreuodd rhai GCCau ar gytundebau tymor byr o 5 mlynedd, ond mae CNC yn ystyried symud tuag at gytundebau 25 mlynedd hirach. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys:

- Adlewyrchu cylch cynllunio Datganiad Ardal CNC, sydd wedi'i ddylunio'n rhannol o amgylch cylch bywyd coeden rhywogaeth feddal. Mae hyn yn rhoi dull mwy cydgysylltiedig sy'n galluogi GCCau i gyfrannu at y cynllun tymor hwy ar gyfer pob Datganiad Ardal.¹⁹

¹⁹ Mae 'Datganiad Ardal': Saith datganiad ardal ledled Cymru, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 'lle'. E.e. Argyfwng Hinsawdd, Ailgyssylltu pobl â natur, Economi gynaliadwy, Economi Tir Cynaliadwy. Mae'r Datganiadau Ardal ar gael ar wefan CNC – ar gyfer pob rhan o Gymru – mae'r rhain wedyn yn llywio'r cynllunio Gweithredol e.e. Cynllun Lle.

- Cefnogi ceisiadau grant GCCau, lle mae'r rhan fwyaf o Gyrrff Ariannu angen 5+ mlynedd yn weddill ar y cytundeb.

5.3 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae CNC yn cynnig dau fath o ganiatâd. Mae'r rhain yn cynnwys;

- **Ymgynghoriad ar Dir ac Eiddo:** Mae hyn yn digwydd pan fydd 'ased' (er enghraifft, caban) yn gysylltiedig. Mae hyn yn gofyn am gyfranogiad ystod o dimau CNC gan gynnwys rhai cyfreithiol a masnachol.
- **Proses Caniatâd:** Cyflwynir y rhain yn uniongyrchol i arweinydd CNC rhanbarthol. Gall y rhain gynnwys trefniant rheoli, ond yn fwy nodweddiadol mae ceisiadau am ganiatâd yn dueddol o fod ar gyfer digwyddiadau untro yn y coetir. Nid yw ceisiadau am ganiatâd ar gyfer digwyddiadau untro wedi'u hystyried ymhellach gan fod cwmpas yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar drefniadau rheoli hirach a mwy ffurfiol.

5.4 O ran y mathau o drefniadau a nodwyd, dim ond un GCC sydd ag Ymgynghoriad Tir ac Eiddo (trefniant prydles) oherwydd strwythur presennol ar y tir dan sylw. Mae gan bob GCC arall drefniant rheoli sy'n dod o dan y Broses Caniatâd.

5.5 O ran categoreiddio mathau o drefniant yn y dyfodol, mae Llais y Goedwig ar hyn o bryd yn cyflawni contract gyda CNC i ymchwilio a chyfweld â phob un o'r 34 GCC er mwyn categoreiddio'n well eu math o drefniant – er mwyn sicrhau, yn ei dro, bod pob Proses Caniatâd yn adlewyrchu cwmpas pob categori. Gallai cyfeiriad cychwynnol ar gyfer categoreiddio GCCau newydd gynnwys:

- Llwybrau troed a chasglu sbwriel (risg isel);
- Grwpiau Coetir Cymunedol;
- Llwybrau beicio mynydd;
- Mentrau Cymdeithasol, Cwmnïau Cydweithredol a microfusnesau

Buddion y mae timau CNC yn ystyried y mae GCCau eu darparu

5.6 O ystyried yr amrywiaeth eang o amcanion a blaenoriaethau GCCau, a'r amrywiaeth o ran lleoliadau a nodweddion coetir, ni themlai unrhyw un o'r rhai a holwyd gan CNC y gallent gydbertyn buddion penodol â gwahanol fathau o drefniadau; *'nid oes un dull sy'n addas i bawb'*.

5.7 Y tu hwnt i'r mathau o drefniadau, roedd themâu clir yn ategu'r adolygiad llenyddiaeth a amlygwyd fel buddion y teimlai'r cyfweleion y mae pob GCC yn eu creu. Cyflwynir y rhain yn Nhabl 5-1 ac maent wedi'u categorio i'r categorïau trosfwaol - Bioffisegol, Economaidd ac Ariannol, Cymdeithasol, a Chyfranogol a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad.

Tabl 5-1: Crynodeb o'r buddion a nodwyd gan y GCCau a gyfwelwyd

| Categori effaith | Disgrifiad |
|-------------------------------|---|
| Bioffisegol | Cyfrannu at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy CNC |
| Economaidd ac ariannol | Addysg, twristiaeth, cyflogaeth drwy gontractwyr, hyfforddi sgiliau mewn coedwigaeth (cynaliadwyedd y diwydiant), creu swyddi drwy waith cyflogedig o fewn rhai GCCau |
| Cymdeithasol | Hamdden, iechyd meddwl a chorfforol, mwynhad o'r awyr agored, ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc, addysg y goedwig a gofalu am y blaned fyw |
| Cyfranogol | Cynyddu gallu'r gymuned i gynnal blaenoriaethau'r grŵp, cynyddu ymdeimlad o berchnogaeth (nod y Datganiad Ardal) |

Ffynhonnell: Steer-ED

5.8 Teimlai pob un o gyfweleion CNC mai nid dim ond galluogi GCCau i ffynnu yw'r peth iawn i'w wneud er mwyn cyfrannu at leoedd llewyrchus, ond ei fod yn hollbwysig er mwyn cyflawni nodau strategol CNC fel sefydliad.

Sut gallai CNC gefnogi GCCau yn well i wireddu buddion trefniant trosglwyddo?

5.9 Mae CNC eisoes yn cefnogi GCCau drwy gontract (tan 2024) gyda Llais y Goedwig. Trwy'r contract hwn mae Llais y Goedwig yn gweithredu fel cyfryngwr, gan rannu arfer gorau, gwybodaeth, a phrofiad o brosiectau'r gorffennol, i roi'r cyfle gorau i bob GCC newydd lwyddo yn y camau cyntaf o ffurfio grŵp a chymryd cytundeb rheoli coetir.

5.10 Mae'n ofynnol i GCCau gyflwyno cynllun rheoli blynyddol. Nid oes templed penodol y mae'n rhaid iddynt ei ddilyn, ond cânt eu dwyn i gyfrif am eu cynnydd mewn perthynas â'r cynllun.

5.11 Mae GCCau hefyd yn rhannu adroddiadau blynyddol byr sy'n ymdrin ag lechyd a Diogelwch, cyflogaeth a metrigau eraill sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau y maent yn eu darparu, er enghraifft buddiolwyr hyfforddiant a ddarperir gan y GCCau, mentrau lechyd a Lles a phartneriaethau â sefydliadau eraill (e.e. y GIG).

- 5.12 Yn ogystal, dywedodd cyfweleion CNC fod cyfarfodydd chwarterol neu flynyddol presennol yn gweithio'n dda ar gyfer cael diweddariadau ar gynnydd a gweithgareddau GCCau ac y gellid eu defnyddio fel cyfle i gasglu metrigau mewn perthynas â:
- Nifer y digwyddiadau;
 - Nifer y cyfranogwyr;
 - Nodweddion allweddol cyfranogwyr (e.e. oedran);
 - Y gweithgareddau y mae GCCau yn eu cyflawni.
- 5.13 Teimlai cyfweleion fod y gofynion adrodd cyfredol yn gweithio'n dda ar gyfer grwpiau cymunedol ac er mwyn monitro cynnydd. O ystyried heterogenedd y GCCau, fodd bynnag, teimlai cyfweleion pe bai gofynion adrodd yn mynd yn rhy anhyblyg a manwl, na fyddent yn briodol ar gyfer amcanion a gweithgareddau eang pob GCC. Roedd yna bryder hefyd gan GCCau y gallai gofynion adrodd helaeth atal arloesedd.
- 5.14 Fodd bynnag, cytunodd y rhai a holwyd y gallai GCCau gael eu cefnogi'n well i lywio drwy'r broses fel y mae ar hyn o bryd drwy'r canlynol:
- Cwmpas asesu mwy cynhwysol sy'n nodi dymuniadau ac anghenion y GCCau, ar y cyd â rhedeg gweithrediad coedwigaeth fasnachol (er enghraifft, ildio gwerth y pren ar y tir);
 - Cydnabod coetir fel adnodd ehangach y tu hwnt i werthu pren;
 - Monitro GCCau a'u gweithgareddau fesul achos;
 - Gwirio dogfennau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth yn rheolaidd (er enghraifft, trwyddedau llif gadwyn). Mae gan safleoedd aeddfed lawer llai o gyswllt, fel arfer drwy adroddiadau blynyddol a chynlluniau gweithredu blynyddol.
- 5.15 Amlygodd sawl un a gyfwelwyd hefyd na ddylai fod unrhyw ddisgwyliad o 'fynd y tu hwnt' i'w cynlluniau presennol. O ystyried nad yw'r holl asedau coetir a ddefnyddir ar hyn o bryd gan GCCau yn goetiroedd masnachol gynhyrchiol, deallir ei bod yn ymddangos bod yr holl weithgareddau a gyflawnir gan GCCau yn ychwanegol. Oherwydd hyn, gellid ystyried y rhain yn fuddiol i CNC a chymdeithas yn ehangach.
- 5.16 Roedd CNC a GCCau yn cydnabod yr angen am bragmatiaeth a hyblygrwydd. Serch hynny, mae gofyniad i fonitro cyflawniad ac asesu Gwerth am Arian. Hefyd, efallai mai dim ond gyda niferoedd cyfredol (bach) o GCCau y gall gofynion lleiaf o

ran adrodd weithio. Os bydd niferoedd y GCCau yn cynyddu'n sylweddol, gall fod yn anodd cydgrynhoi neu feincnodi perfformiad sawl dull a gofynion adrodd hyblyg. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai CNC angen mwy o adnoddau i reoli a monitro cytundebau rheoli GCCau, gan arwain at gostau ychwanegol. O ganlyniad, efallai na fydd dull cyffyrddiad ysgafn iawn o fonitro ac adrodd yn bosibl yn y dyfodol.

Y risgiau a'r costau y mae CNC yn eu hystyried wrth asesu cynigion grŵp cymunedol/trydydd sector, mewn perthynas â phob trefniant trosglwyddo asedau

- 5.17 Amlygodd cyfweleion fod CNC yn mynd i gostau o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi GCCau newydd a phresennol gyda chytundeb rheoli. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad cyfan dan bwysau ac mae gan bob adran gylch gwaith eang (e.e. timau Rheoli Tir). Mae'r pwysau ar amser ac adnoddau wedi dod yn fwy heriol ers pandemig COVID-19.
- 5.18 Mae'r ffioedd cyfreithiol i sefydlu cytundeb coetir yn costio tua £1,000 i'r GCC. Mae CNC hefyd yn mynd i gostau ychwanegol mewn ffioedd cyfreithiol o gymharu â bod heb gytundeb yn ei le, er bod maint y costau yn amrywio yn dibynnu ar y math o gytundeb coetir.
- 5.19 Mae GCCau yn tueddu i dargedu asedau coetir nad ydynt yn fasnachol hyfyw ar gyfer cynhyrchu pren. Fodd bynnag, y tîm masnachol yn CNC sy'n pennu gwerth yr ased, a bydd hyn yn cael ei osod ar ei werth marchnad presennol.
- 5.20 Mae CNC yn mynd i gostau i gynnal a datblygu cynlluniau. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i dimau CNC wirio bod seilwaith coetir newydd a osodwyd gan GCC megis llwybr troed newydd yn bodloni safonau ansawdd a diogelwch. Er mai cost amser staff yw hyn i'r Rheolwr Tir deithio i'r safle ac oddi yno a chynnal gwiriadau angenrheidiol, mynegodd cyfweleion mai bychan iawn oedd hyn yng nghyd-destun gwariant ehangach CNC. Nodir y bydd y gost yn dibynnu ar amser teithio a maint y gwiriadau ar y safle. Yn ogystal, efallai y bydd Tîm Hamdden CNC yn wynebu costau ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw neu wella seilwaith ategol, megis meysydd parcio, llwybrau, arwyddion a chyfathrebu. Fodd bynnag, efallai nad yw hyn o reidrwydd yn ymwneud â chostau cynnal a chadw seilwaith a osodwyd gan GCC, ond yn hytrach seilwaith a oedd yn bodoli eisoes cyn y trosglwyddiad. Nid yw cynnal a chadw seilwaith presennol yn dod o fewn cytundebau rheoli GCCau. Mae ffioedd asiantau tir hefyd yn gysylltiedig â chytundebau rheoli GCCau.

5.21 Ar gyfer GCCau [wrth sefydlu cytundeb] mae costau ychwanegol sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd, hyfforddiant cymorth cyntaf, hyfforddiant llif gadwyn, gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig ag offer arall, cost prydlesu (neu brynu) swyddfa ac amser gwirfoddolwyr. Mae costau hefyd yn gysylltiedig â mynychu cyfarfodydd chwarterol, mynychu fesul grŵp cymunedol [a staff CNC].

Y risgiau y mae timau CNC yn teimlo sydd angen eu hystyried wrth asesu cynigion grwpiau cymunedol/trydydd sector

5.22 Fel y nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth, mae risg gyffredin i holl brosiectau GCCau y bydd y prosiect yn methu neu'n cau oherwydd ansefydlogrwydd strwythur y sefydliad. Roedd yr enghreifftiau a ddisgrifiwyd gan gyfweleion yn cynnwys:

- **Newidiadau mewn personél:** unigolyn o oedran ymddeol sy'n heneiddio ac yn rheoli GCC yn methu â pharhau, neu mae newidiadau mewn personél. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r risg hon drwy annog ystod eang o aelodau.
- **Mae GCC yn dod yn 'grŵp buddiant cymunedol' yn anfwriadol.** Mae GCCau wedi wynebu heriau yn y gorffennol pan oedd deinameg pŵer yn gogwyddo ormod tuag at ddiddordeb cul nad yw'n gynrychioliadol neu'n gynhwysol i'r gymuned gyfan. Er enghraifft, pan nad yw grŵp llwybr beicio mynydd yn ymgysylltu'n briodol â'r gymuned ehangach ynghylch ei gynlluniau ar gyfer llwybrau newydd neu'n annog carfan ehangach, llai cynrychioliadol o'r gymuned i ymuno. Awgrymodd un cyfwelai mai ffordd o liniaru'r risg hon fyddai i CNC fynnu bod y GCCau arfaethedig yn mabwysiadu'r *Broses Dylunio Coedwigoedd yn y Dyfodol*²⁰ Byddai hyn yn sicrhau bod y gymuned gyfan yn cael y cyfle i fwydo i mewn i gynlluniau tymor hir o'r cychwyn cyntaf.
- **Gall GCCau dorri amodau eu cytundeb:** Er ei fod yn anghyffredin, mae risg y gall GCCau ymgymryd â gweithgareddau heb ymgynghori â CNC, er enghraifft, cwmpo coed heb gytuno. Mae'n bwysig nodi y byddai gwiriadau cydymffurfio rheolaidd (er enghraifft, blynyddol) gan CNC yn gost ychwanegol a pharhaus.
- **Mae cyllid yn risg reolaidd i bob sefydliad cymunedol/trydydd sector sydd heb fodel busnes cynaliadwy sy'n caniatáu iddynt fod yn annibynnol ar gyllid.** Mae yna wastad bwysau am arian a chynigion grant, o ran yr adnoddau sydd eu hangen i baratoi ceisiadau, a'r gystadleuaeth am y cyllid sydd ar gael. Mae'r rheini y gwyddom sy'n

²⁰ Proses cyd-ddylunio Welcome to our Woods. <https://futureforestvision.co.uk/people-and-process-2/>

ariannu GCCau yn cynnwys: Arian Loteri, cyllid Budd Cymunedol a gynigir gan bartneriaid cyflenwi (er enghraifft, mae ffermydd gwynt Tir Llwyd ac Ynys Môn yn cynnig arian iawndal, fodd bynnag, gall y rhain gael eu hystyried yn ddadleuol mewn rhai cymunedau, megis ffermio), Cyllid Cyn-filwyr, a statws Coedwig Cenedlaethol (gallai hyn fod yn ystâd CNC, neu ystadau eraill fel Awdurdod Lleol neu breifat).

- Mae **anafiadau personol a risgiau eraill o ran cydymffurfiaeth** yn bodoli, ond amlygodd cyfweleion fod y rhain yn haws eu rheoli a mwy rhagweladwy ar gyfer GCCau a'u gweithgareddau cysylltiedig o gymharu â rhai o'r gweithgareddau eraill y mae CNC yn eu cyflawni. Byddai hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar y gweithgareddau a gyflawnir a hyfforddiant a phrofiad yr unigolion sy'n ei gyflawni. Er enghraifft, anaml y byddai GCC yn cwmpo coetir, ond heb y lefel gywir o arbenigedd, gallai'r risg fod yn sylweddol uwch o'i gymharu â CNC yn ymgymryd â'r un dasg.

Grwpiau cymunedol

Y prif fathau o drefniadau sydd gan GCCau â CNC

5.23 Ar wahân i un o'r GCCau a gyfwelwyd nad oes ganddo drefniant rheoli gyda CNC ar hyn o bryd, dywedodd dau gyfwelai fod ganddynt gytundeb rheoli rhwng 5-21 mlynedd, gyda gwahanol fathau o drefniadau yn ystod y cyfnodau hynny. Roedd gan drydydd GCC gytundeb prydles gyda CNC. Roedd hyn oherwydd bod strwythur ar y safle. Gall fod amodau cynnil hefyd sy'n amrywio rhwng un cytundeb a'r llall, megis:

- Gwahardd unrhyw weithgaredd masnachol ar safle'r coetir, gan gynnwys torri a gwerthu pren. Eglurodd un cyfwelai ei fod weithiau'n cwmpo coed gyda chaniatâd CNC, fodd bynnag, maent wedi'u gwahardd rhag gwerthu'r pren.
- Amodau ar gyfer cynnal adeilad neu laswellt ar ymyl maes parcio;
- Amodau penodol nad yw'r brydles yn cynnwys y stoc pren (e.e. cytundeb mynediad heb hawliau cwmpo coed);
- Peidio â defnyddio peiriannau yn y coetir.

Y prif ddiben (amcan) y mae pob grŵp yn ceisio ei gyflawni (h.y. pa rai o'r Nodau Llesiant a chanlyniadau gwerth cymdeithasol y mae grwpiau cymunedol yn eu blaenoriaethu fwyaf)

5.24 Yn union fel y dywedodd rhanddeiliaid CNC, bydd amcanion GCC ochr yn ochr â lleoliad a nodweddion eu coetir, yn dylanwadu ar y buddion penodol y gallant eu cyflawni; '*nid oes un ateb yn addas i bawb*'. Roedd pedwar amcan cysylltiedig ond ychydig yn wahanol ar gyfer pob grŵp. Crynhoir y rhain yn Nhabl 5-2.

Tabl 5-2: Crynodeb o amcanion GCCau yng Nghymru

| | |
|--------|---|
| Grŵp 1 | lechyd a Lles – gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd da, cefnogi mentrau iechyd meddwl ac anweithgarwch corfforol; Sgiliau a Swyddi – mynd i'r afael â sgiliau isel, cyflogau isel a dim ond ychydig o gyfleoedd am gyflogaeth yn yr ardaloedd. Mae llawer o'r gyflogaeth bresennol yn isafswm cyflog, yn rhan amser neu'n dymhorol. Mae unrhyw fenter sgiliau a gyflwynir gan y grŵp yn ceisio mynd i'r afael â'r materion systemig hyn; Tlodi – mynd i'r afael â diffyg mynediad at adnoddau a gwasanaethau, a thlodi tanwydd; Amcanion eraill y grŵp: Gadael coetir mewn cyflwr gwell nag y mae heddiw fel bod y gymuned leol yn elwa ohono. |
| Grŵp 2 | Rheolaeth gymunedol – thema gyffredinol eang yn ôl dyluniad. Roedd rheolaeth gymunedol yn golygu y gallai gweithgareddau fod yn ymatebol i anghenion cymunedol. Addysg – yn ddiben craidd, er enghraifft roedd Ysgol Goedwig yn rhan o gymhelliant gwreiddiol y prosiect hwn. Mynediad cymunedol – i alluogi mynediad at ddefnydd cymunedol ar sail ad hoc. |
| Grŵp 3 | Budd cymunedol a bioamrywiaeth – y pwrpas craidd yw rheoli coetir er budd y gymuned leol a bywyd gwylt. Mae'n rhaid i unrhyw weithgaredd wneud y ddau o'r rhain ar gyfer pob menter e.e. mae gan ddsbarth ymarfer corff a chlririo coetir ddau ddiben. |
| Grŵp 4 | Twf economaidd lleol a chreu swyddi Rheoli coetir ar gyfer pren cynaliadwy – gan gynnwys codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo plannu coetiroedd newydd; lechyd meddwl – defnyddio'r coetir i wella lles unigolion. |

Buddiolwr uniongyrchol diben a math o drefniant GCCau

5.25 Nododd pob un o'r cyfweleion GCCau fod yr holl fuddion a amlygwyd o'r adroddiad interim yn berthnasol i'w cytundeb, yn enwedig:

- **Cyflogaeth a sgiliau:** darparu cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd sy'n cefnogi cyflogaeth (swyddi gwyrdd), tynnodd GCCau sylw hefyd at eu bod bob amser yn ceisio cyrchu'n lleol a defnyddio contractwyr lleol.

- **Addysg:** Darparu mynediad i Ysgolion Coedwig (mae pob ysgol leol yn defnyddio eu coetir lleol). Maent hefyd yn gweithio gydag ysgolion lleol i ddarparu gweithgareddau gwella'r cwricwlwm (yn ychwanegol at Ysgolion Coedwig).
- **Bioffisegol:** Roedd enghreifftiau o weithgareddau yn cynnwys: arbrofi gyda rhywogaethau egsotig newydd sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd; digwyddiadau cyhoeddus (e.e. Noson Gwyfynod) yn gweithio gydag ecolegwyr lleol; cadwraeth gloÿnnod byw; defnyddio arbenigedd lleol ar gyfer gweithgareddau rhannu gwybodaeth mewn perthynas â'r amgylchedd gan arbenigwyr lleol, er enghraifft, codi ymwybyddiaeth am lygredd dŵr.
- **Arloesedd:** Treialu mentrau cynhyrchion coetir nad sy'n bren, megis cynaeafu a gwerthu sudd bedw (surop bwytadwy). Roedd mentrau eraill yn cynnwys grwpiau canu, sesiynau coetir i blant o ysgolion lleol sy'n talu. Mae rhai o'r rhain yn cael eu harwain gan y GCCau eu hunain, tra bod eraill fel y grŵp canu yn cael eu cynnal yn breifat ac mae GCCau yn prydlesu man cymunedol.
- **Cymdeithasol:** Grwpiau lles, rhaglen wirfoddoli, ymdeimlad cryfach o gymuned a pherthyn
- **Gwell mynediad i goetir er mwyn cynyddu cyfranogiad:** llwybrau newydd, plannu coed, gwneud penderfyniadau cymunedol

Buddion eraill a nodwyd y tu hwnt i'r adolygiad llenyddiaeth

- 5.26 **Mwy o allu a hyder cymunedol:** Mae un gymuned wedi sefydlu siop sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr mewn pentref cyfagos (trosiant o £140k). Rhoddodd y profiad o sefydlu a rhedeg y GCC, a ddeilliodd o gytundeb prydles rheoli, hyder i'r grŵp ddatblygu prosiectau pellach.
- 5.27 **Buddsoddiad cyfalaf na fyddai wedi digwydd fel arall:** Mae GCCau sydd â chytundebau rheoli wedi gallu gwneud cais am grantiau allanol i adeiladu cabanau, llwybrau a chuddfan adar. Arweinir ceisiadau am grantiau yn bennaf gan Gyfarwyddwyr gwirfoddol y GCC. Er na fyddai cyllid wedi bod yn bosibl heb gytundeb rheoli CNC, mae'r cyllid yn allanol i gyllid grant CNC yn aml yn dod o sefydliadau elusennol neu drwy gronfeydd Budd Cymunedol.
- 5.28 **Llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol:** Roedd gan un grŵp GCC gytundeb rheoli a oedd yn caniatáu creu pydew tân i fynd i'r afael â llosgi bwriadol. Er y gallai ffactorau eraill hefyd fod wedi chwarae rhan yn y broses o roi'r gorau i ymosodiadau, ni adroddwyd am unrhyw losgi bwriadol mewn 8 mlynedd yn olynol.

- 5.29 **Tynnu'r pwysau oddi ar y Gwasanaethau Cyhoeddus gan greu arbedion i bwrs y wlad:** Mae'r gostyngiad mewn tanau bwriadol oherwydd yr ymyrraeth y pydew tân a nodir uchod wedi lleihau'r costau i'r Frigâd Dân. Gweithiodd un GCC mewn partneriaeth â bwrdd iechyd lleol i ddod â grwpiau cleifion (Grwpiau Therapi Coetir) i'r safle. Darparwyd y safle gan y GCC i'r bwrdd iechyd lleol am ddim.
- 5.30 **Cydluniant cymunedol/hwyl²¹:** Teimlai cyfweleion fod eu GCC wedi dod yn sefydliad angori o fewn eu hardal. Er bod hyn yn anodd ei fesur fe'i disgrifiwyd fel 'hwyl'. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod hyn yn seiliedig ar farn y GCC yn hytrach na'r gymuned ei hun.
- 5.31 **Creu cyneiliau a lleihau rhwystrau:** Roedd un o'r GCCau wedi mynd drwy broses helaeth i symud tuag at gytundeb prydles gyda CNC a fyddai'n rhoi mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb o'r llain i'r GCC o gymharu â threfniant rheoli. Ystyriwyd y dysgu a'r profiad o'r enghraifft benodol hon yn werthfawr ynddi'i hun i GCCau y dyfodol sy'n elwa o'r llwybr a grëwyd gan y GCC.
- 5.32 **Cyfle i gymunedau arloesi:** Mynegodd cyfweleion fod hon yn elfen dan y radar o'r gwaith a wnânt, sydd bob amser yn cael ei hystyried y tu hwnt i'r disgwyliadau. Roedd teimlad cryf y gellir datrys materion cymunedol drwy wella mynediad i goetiroedd a'r sylfeini y maent yn eu darparu ar gyfer llu o weithgareddau ac ymyriadau.
- Y costau y mae pob grŵp cymunedol yn eu hwynebu mewn perthynas â'u prif amcanion*
- 5.33 **Costau annisgwyl i gywiro difrod a wneir ar safle GCC gan y diwydiant pren:** Dywedodd un GCC fod peiriannau contractwr wedi dinistrio llwybr a osodwyd gan y GCC. Er iddo gael ei hysbysu o'r difrod, ni ddychwelodd y contractwr i atgyweirio'r difrod a wnaed. Mynegodd cyfweleion fod angen dal y diwydiant pren yn atebol am effaith eu presenoldeb ar leiniau GCC.
- 5.34 **Ymrwymiad i ddarparu sgiliau o fewn y tîm:** Er bod GCCau wedi rhoi'r cyfle i ennill ystod o gymwysterau, megis trwyddedau llif gadwyn, mae angen amser ac adnoddau. Maent hefyd angen cyllid ar gyfer gwasanaethau proffesiynol, er

²¹ teimlad cynhyrfus o gymhelliant emosiynol ac egni

enghraifft ar gyfer cynlluniau Coedwigwr Siartredig, rhestrau gwirio iechyd a diogelwch, ac ar gyfer offer a pheiriannau.

- 5.35 **Costau gweithredol:** Y brif gost yw yswiriant (adeiladau ac atebolrwydd cyhoeddus): i'r lefel sydd ei angen ar CNC - £400-£500 y flwyddyn. Mae GCCau hefyd yn mynd i gostau gweithredu, hyd yn oed os ydynt yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, megis cyfleustodau (e.e. ynni a gwastraff).
- 5.36 **Costau cynnal a chadw:** Ceisiodd pob GCC wneud pethau am gost isel/dim cost, ond mae rhwystrau wedi'u gosod sy'n atal hyn. Er enghraifft, mae cytundebau rheoli yn gwahardd defnyddio rhai peiriannau fel peiriannau torri lawnt, ac mae CNC yn mynnu bod ei contractwyr ei hun yn cael eu defnyddio.
- 5.37 **Cost gymdeithasol:** Mynegodd cyfweleion hefyd, er bod llawer o fuddion cadarnhaol yn deillio o GCCau a'u gweithgareddau, y gall rheoli GCC achosi straen, yn enwedig mewn perthynas â pharatoi cynigion ar gyfer cyllid grant.

Y risgiau y mae pob grŵp cymunedol yn eu hwynebu mewn perthynas â'u prif amcan:

- 5.38 Yn ychwanegol at y buddion a'r costau ychwanegol a allai fod yn gysylltiedig â threfniadau rheoli GCC, gofynnwyd hefyd i GCCau pa risgiau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd a allai lesteirio eu hamcanion sefydliadol.
- **Sgiliau:** Mae risgiau iechyd a diogelwch posibl, a risgiau i ansawdd y goedwig os nad oes gan y gymuned y sgiliau i reoli'r goedwig yn gywir. Gellid lliniaru hyn drwy hyfforddiant a chymorth cyfryngwr, fel yr hyn a ddarperir gan Llais y Goedwig.
 - **Diffyg parhad:** Fel y trafodwyd gan ymgynghoreion CNC, bydd GCCau heb fodel busnes cynaliadwy ac sy'n dibynnu ar arian grant bob amser mewn perygl y gallai rhaglenni ariannu ddod i ben neu y bydd cystadleuaeth am adnoddau'n cynyddu. Oherwydd hyn, mae risg y gall gweithgareddau ddod i ben neu gael eu lleihau os nad oes cyllid ar gael.
 - **Gwirfoddoli:** Mae GCCau yn dueddol o fod yn ddibynnol ar amser gwirfoddolwyr. Nid yn unig bod heriau o ran recriwtio, ond gall ymrwymiad a chyfradd cadw gwirfoddolwyr newid wrth i lefelau brwdfrydedd amrywio dros amser.
 - **Aeddfedrwydd mesur:** Roedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan GCCau mai megis dechrau datblygu y mae'r gwaith o roi ffigurau ariannol ar y byd naturiol. O'r

herwydd, mae angen peidio â defnyddio unrhyw ddirprwyon ariannol allan o gyd-destun a bob amser ochr yn ochr ag asesiadau meintiol ac ansoddol eraill.

Safbwyntiau GCCau ynghylch sut y gallent fesur pob budd yn well

- 5.39 Mae mesur yn ofyniad safonol ar gyfer pob cyllid grant, megis adborth ansoddol o arolygon a ffurflenni cyfranogwyr. Ar gyfer cytundebau rheoli gyda CNC, ni nododd GCCau fawr ddim gofyniad am fetrigau penodol heblaw am adroddiad blynyddol yn erbyn eu cynllun gwaith blynyddol.
- 5.40 Mae amrywiaeth o weithgareddau monitro eisoes yn cael eu cynnal yn erbyn y buddion a gafwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Mae **arian grantiau/Loteri** yn gofyn am adrodd yn erbyn dangosyddion penodol, megis nifer y cyfranogwyr, a bagiau o sbwriel a gesglir. Ategir y rhain gan dystebau ac astudiaethau achos. Mae rhai grantiau yn ei gwneud yn ofynnol i werthuswyr allanol ymweld â'r safle a mesur yn erbyn Theori Newid.
 - Mae GCCau hefyd yn casglu **data ansoddol**, er enghraifft drwy gynnal arolygon gyda buddiolwyr mewn perthynas â chysylltiadau cymdeithasol a hyder drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau GCC neu fynediad i'r coetir. Fodd bynnag, mae casglu data yn aml yn gysylltiedig â gofynion y cyllidwyr.
 - Mae **cydymffurfiaeth** yn cynnwys gofynion megis iechyd a diogelwch a rheoleiddiwr coedwigaeth.
 - **Amgylcheddol:** Mae GCCau yn creu taenlen o'r holl rywogaethau a blannwyd i ddeall newidiadau mewn bioamrywiaeth. Mae GCCau yn lanlwytho'r data hwn i ganolfannau cofnodion amgylcheddol lleol (LERC) megis Cofnod. Deellir bod GCCau yn dueddol o gofnodi rhywogaethau a blannwyd, ond gellid hefyd gasglu data arolwg safle manylach drwy ddefnyddio ap LERC Cymru, gan ganiatáu monitro hirdymor a mwy helaeth o newidiadau y gellir eu priodoli i weithgareddau GCC. Rhwydwaith cenedlaethol cyntaf o'i fath ar gyfer adrodd amgylcheddol a ddatblygwyd yng Nghymru yw LERC. Mae rhai GCCau y cyfwelwyd â hwy hefyd yn cymryd rhan yn BioBlitz, rhaglen a gynhelir gan y Gymdeithas Ddaearyddol Genedlaethol (NGS) sy'n ddigwyddiad adrodd natur cymunedol 24 awr ledled y wlad y mae nifer o GCCau yn cymryd rhan ynddo. Er bod yr adrodd yn cael ei wneud ar bapur, mae GCCau yn gwneud defnydd cynyddol o apiau a ddatblygwyd gan yr NGS megis Seek (offeryn adnabod delweddau sy'n galluogi i'r defnyddiwr

adnabod ffyngau, planhigion ac anifeiliaid) ac iNaturalist sy'n ap a ddatblygwyd er mwyn cofnodi a rhannu arsylwadau

5.41 Y prif heriau mewn perthynas â mesur a monitro a nodwyd gan y GCCau oedd nodi beth sy'n ystyrllon neu'n 'bwysig' i'w fesur a sut i wneud hyn yn effeithiol. Ystyrir bod adrodd yn erbyn effeithiau economaidd neu fesuriadau goddrychol megis teimladau neu les yn heriol, tra bod adrodd am berfformiad ariannol neu fesurau mwy gwrthrychol megis niferoedd ymwelwyr yn symlach. Yn gyffredinol, mae'n dibynnu ar nodau pob grŵp, nodweddion eu safle a'r targedau a'r nodau a osodwyd ganddynt ar gyfer y flwyddyn. Yn olaf, teimlai nifer o GCCau mai dim ond trosfwaol y dylai amcanion ac unrhyw fesuriadau fod. Yn hyn o beth, mae'n rhoi elfen angenrheidiol o hyblygrwydd i'r GCC ymateb i anghenion cymunedol sy'n newid yn barhaus ac mae'n annog cyflwyno mentrau newydd ac arloesol o ganlyniad.

5.42 Roedd rhwystrau eraill i fesur metrig yn cynnwys: cysondeb mesur rhwng cyllidwyr grant, cyfyngiadau adborth ansoddol safonol (h.y. gallai pobl deimlo'n wahanol ar ddiwrnodau gwahanol, gallent gyflwyno canlyniad gwahanol ar bapur o gymharu ag arolwg ar-lein, bod yn onest) a theimlad cyffredinol nad oedd metrigau a oedd yn rhy anhyblyg yn cyd-fynd ag ysbryd y trefniant rheoli. Mewn geiriau eraill, caniatáu elfen o hyblygrwydd er mwyn i GCCau fod yn ymatebol i anghenion y gymuned.

Sut mae pob grŵp cymunedol yn teimlo y gallent gael eu hasesu'n well ar ôl gwireddu eu hamcanion o ddechrau eu cytundeb rheoli

5.43 Tynnodd y GCCau a gyfwelwyd sylw at sawl ffordd y gellid eu hasesu'n well o ran gwireddu eu buddion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adnoddau ariannol gan gorff cyhoeddus i dalu grwpiau cymunedol i gyflawni buddion penodol. Os yw grŵp am dderbyn taliad, bydd angen iddynt ei brofi gyda metrigau;
- Ni ddarparodd CNC unrhyw ganllawiau, felly roedd diffyg cysondeb ar draws cynlluniau rheoli ar gyfer pob grŵp. O'r herwydd, gallai CNC ddarparu rhagor o ganllawiau;
- Teimlai GCCau y gallai fod yn fwy priodol rhagamcanu targedau yn erbyn Cynlluniau Gwaith penodol.

Crynodeb

- 5.44 Roedd pob GCC a gyfwelwyd yn wahanol o ran maint a lleoliad, ac eto roedd gan bob un ohonynt nodau tebyg; i greu buddion ar gyfer eu cymuned leol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Gwella bioamrywiaeth, iechyd (gan gynnwys cefnogi cleifion y Bwrdd Iechyd), cydlyniant a chyfranogiad cymunedol, a gallu a hyder cymunedol;
 - Darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a datblygu sgiliau er mwyn cynyddu cyflogadwyedd;
 - Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phwysau ar Wasanaethau Cyhoeddus.
- 5.45 Roedd cyfweleion CNC yn teimlo bod grymuso GCCau a'u cefnogi i ffynnu wedi cyfrannu at leoedd llewyrchus ac wedi galluogi CNC i gyflawni ei nodau strategol. Yn yr un modd, roedd y GCCau a gyfwelwyd o'r farn bod eu rôl yn galluogi CNC i gyflawni ei amcanion ei hun.
- 5.46 Er bod rhai costau a risgiau wedi'u hamlygu, teimlwyd bod y costau a'r risgiau hyn yn fach eu natur o gymharu â holl weithgarwch CNC. Er enghraifft, mynegodd rhai cyfweleion farn y gallai trosglwyddo asedau coetir i GCCau leihau 'cynhyrchiant' y coetir. Fodd bynnag, ni ystyriwyd bod yr holl leiniau a reolir gan y GCC a oedd yn ymwneud â'r ymchwil hwn yn gynhyrchiol oherwydd eu lleoliad neu eu maint. Felly ystyriwyd bod caniatáu i GCCau gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol o ardal anghynhyrchiol yn peri risg fach iawn o ran cynhyrchiant asedau is.
- 5.47 Teimlai cyfweleion fod risg gyffredin i bob GCC o strwythur sefydliadau ansefydlog oherwydd trosiant personél neu gadw gwirfoddolwyr, gellid lliniaru'r risg hon drwy annog sbectwm eang o aelodau. O ystyried hyn, dylai pob GCC fod ag amcan i gynnwys y gymuned gyfan yn ystod y cyd-ddylunio o'r cychwyn cyntaf.
- 5.48 Teimlwyd bod y cynllun rheoli y mae GCCau yn ei gyflwyno i CNC yn ddigonol ac yn briodol er mwyn i gynnydd rhwng partion gael ei alinio. Fodd bynnag, heb unrhyw dempled penodol i GCCau ei ddilyn, gallai offeryn cyfeirio neu fodel rhesymeg syml sy'n cyd-fynd â disgwyliadau CNC helpu i egluro sut y gall GCCau gysylltu eu hamcanion penodol eu hunain â buddion perthnasol a chymesur. Gall y model rhesymeg weithredu fel yr edefyn aur sy'n cysylltu nodau strategol â chanlyniadau cadarnhaol hysbys.

- 5.49 O ran mesur cynnydd gweithgareddau neu fesur yn erbyn unrhyw fuddion neu effeithiau, roedd cyfweleion CNC a GCCau yn cydnabod yr angen am bragmatiaeth a hyblygrwydd. Roedd GCCau yn arbennig yn awyddus i unrhyw fonitro fod yn ysgafn fel na fyddai'n atal arloesi a'r gallu i ymateb i anghenion cymunedol. Fodd bynnag, bydd angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i asesu effeithiau yn fwy ffurfiol. Bydd angen i unrhyw asesiad a monitro buddion, costau a risgiau yn y dyfodol gael ei strwythuro i ymateb i newidiadau i nifer o drefniadau neu eu natur h.y. dyfernir lefel uwch o gyfrifoldeb neu berchnogaeth i GCCau drwy brydlesi.
- 5.50 Yn olaf, mae cyfle i'r diwydiant pren weithio gyda GCC, yn hytrach na gweithio o'u cwmpas neu niweidio eu gweithgarwch.

6. Model Rhesymeg

6.1 Yn yr adran hon cyflwynir model rhesymeg buddion gyda'r nod o ddangos yn glir sianeli achosol posibl trosglwyddo asedau coetir i GCCau a sefydliadau trydydd parti, o fewnbynau i effeithiau. Mae'r model rhesymeg yn cyfuno'r canfyddiadau yn Adrannau tri i bump i ddangos camau yn y gadwyn achosol. Mae'n nodi sut y gallai mewnbynau arwain at weithgareddau sy'n cyflawni allbynau, ac mewn camau dilynol mae'r rhain yn arwain at ganlyniadau ac effeithiau. Mae model rhesymeg yn dangos, drwy hepgoriad, pa weithgareddau neu effeithiau nad ydynt yn cael eu hystyried yn y gadwyn achosol oherwydd yr ystyrir nad ydynt yn cael eu dylanwadu gan yr ymyriad. O ganlyniad, mae'n rhoi fframwaith clir ar gyfer meddwl drwodd a chanolbwyntio ymdrechion asesu ac ystyried ystyriaethau monitro ac arfarnu angenrheidiol. Mae'r model rhesymeg hefyd yn rhoi syniad o'r buddion y gellid eu gwireddu, pe byddai gweithgareddau penodol yn cael eu caniatáu o dan drefniant trosglwyddo.

Datblygu Model Rhesymeg


6.2 Mae'r model rhesymeg a gyflwynir yn **Error! Reference source not found.** wedi'i ddatblygu drwy ddadansoddi mewnbwn CNC: trosglwyddo'r defnydd o asedau (h.y. drwy drefniadau lesddaliad) o goetir i GCC lleol. O ganlyniad i'r mewnbwn hwn, mae'r gweithgareddau, allbynau, canlyniadau ac effeithiau cyfatebol wedi'u nodi o'r ymchwil a gyflwynwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn. Nodir y bydd rhai gweithgareddau yn gofyn am fewnbynau ychwanegol, megis llafur (e.e. oriau gwirfoddolwyr neu lafur â thâl) ac o bosibl adnoddau ariannol eraill (e.e. cyllid grant) i gynhyrchu allbynau.

6.3 Mae'r llinellau di-dor a thoredig a gyflwynir yn y model rhesymeg yn dangos cysylltiadau cryfach a gwannach yn y drefn honno, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n bodoli. Mae'r model yn nodi'r buddion sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 7 lle awgrymir methodolegau meintioli buddion a gwerth am arian i fesur pob budd. Darperir dolen i'r model rhesymeg risg hefyd yn y golofn Gweithgareddau ac fe'i disgrifir yn fanylach isod.

Model Rhesymeg Risg

- 6.4 Yn ogystal â'r model rhesymeg buddion a ddisgrifir uchod ac a gyflwynir yn yr adran hon, mae model rhesymeg risg symlach wedi'i ddatblygu sy'n nodi ac yn amlinellu goblygiadau negyddol posibl trosglwyddo asedau coetir i berchnogaeth grŵp/cymunedol lleol. Mae Tabl 6-1 yn cyflwyno'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo coetir i berchnogaeth a rheolaeth gymunedol ac mae wedi'i wahanu oddi wrth y model rhesymeg i gynorthwyo darllenadwyedd.
- 6.5 Mae'r mewnbwn yr un fath ag yn y model rhesymeg buddion, ond mae'r gweithgareddau sy'n dylanwadu ar y costau a'r risgiau yn wahanol, sy'n arwain at effeithiau negyddol. Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chostau a risgiau wedi'u rhifo a lle gallai'r rhain ddigwydd ochr yn ochr â'r gweithgareddau a amlygwyd yn y model rhesymeg buddion, dangoswyd hyn drwy roi'r rhif hwn i'r gweithgareddau hyn. Er enghraifft, mae'r gweithgaredd '*CNC yn cefnogi GCC yn unol â'r cytundeb fframwaith*' yn y model buddion wedi'i gysylltu â '*Cynnydd yn yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi GCCau newydd a phresennol sydd â chytundeb rheoli (e.e. cymorth a chynnal a chadw)*' yn y tabl rhesymeg risg a chost gan y gall y gweithgareddau hyn ddigwydd ochr yn ochr â'i gilydd. Mae hyn yn helpu'r darlennydd i weld lle y gallai fod angen ystyried buddion, costau a risgiau gyda'i gilydd ar gyfer gweithgareddau penodol.

Ffigur 6-1: Model Rhesymeg Buddion



Tabl 6-1: Tabl Rhesymeg Risg a Chost

| Mewnbynnau | Gweithgareddau | Canlyniadau |
|---|--|--|
| <p>Trosglwyddo asedau coetir i sefydliadau trydydd parti (grwpiau coetir cymunedol / mentrau cymdeithasol)</p> | <p>[1] Gwerthu pren yn is na phrisiau'r farchnad</p> | <p>Nid yw CNC yn gwneud refeniw o werthu coed. Pren yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwerth is, gan leihau'r potensial ar gyfer ysgogiad economaidd lleol.</p> |
| | <p>[2] Cynnydd yn yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi GCCau newydd a phresennol sydd â chytundeb rheoli (e.e. cymorth a chynnal a chadw).</p> | <p>Mae twf yn nifer y GCCau yn arwain at gostau amser staff uwch i CNC ar gyfer datblygu, monitro/gwiriadau cydymffurfiaeth blynyddol GCCau â chytundebau rheoli coetir. Risg nad oes gan CNC yr adnoddau i orfodi/cefnogi cytundebau fframwaith.</p> |
| | <p>[3] Rheoli coetir (e.e. diffyg sgiliau a gwybodaeth)</p> | <p>Costau gweithredol (e.e. cyfleustodau, yswiriant, gwasanaethau proffesiynol) Costau cynnal a chadw (e.e. seilwaith, rheolaeth) Cost cyfle mewnbynnau llafur di-dâl a chymorth cyfryngwr. Cost cyfle coetir llai cynhyrchiol. Costau hyfforddi (e.e. trwyddedau llif gadwyn) Cost llesiant (e.e. straen sy'n gysylltiedig â cheisiadau am gyllid). Risg o gamreoli yn arwain at gyflwyno rhywogaethau ymledol, clefydau, marwolaethau coed, atafaelu carbon is a bioamrywiaeth, gan arwain at gost i CNC ar gyfer gwaith adfer. GCCau yn torri amodau eu cytundeb, gan arwain at gost i CNC am waith adfer.</p> |
| | <p>[4] Sefydlogrwydd GCC (e.e., grŵp 'buddiant cymunedol', trosiant uchel o aelodau GCC, ansefydlogrwydd cyllid)</p> | <p>Eithrio unigolion a risgiau dosbarthiadol gan y bydd y buddion ar gyfer is-set gymunedol yn unig. Mae newidiadau mewn personél yn arwain at golli cyfalaf gwybodaeth o fewn GCC gan effeithio ar sefydlogrwydd ariannol, adnoddau ariannol a llai o uchelgais a maint canlyniadau o weithgareddau GCCau. Mae anhawster recriwtio a chadw gwirfoddolwyr yn arwain at ddiffyg adnoddau ac yn lleihau uchelgais a maint canlyniadau gweithgareddau GCCau. Mae ansefydlogrwydd cyllid GCCau yn lleihau uchelgais a graddfa canlyniadau gweithgareddau GCCau. Mae diffyg diddordeb/ymgysylltu hirdymor yn lleihau'r buddion Risg iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr dibrofiad neu ddigymhwyster.</p> |
| | <p>[5] Mynediad i goetir</p> | <p>Cynyddu mynediad i goetir yn arwain at orddefnydd gan arwain at ddiraddio a chost uwch i CNC neu GCC ar gyfer gwaith adfer neu leihau buddion bioffisegol a 'mynediad'. Eithrio unigolion a risgiau dosbarthiadol gan y bydd y buddion ar gyfer is-set gymunedol yn unig.</p> |
| | <p>[6] Difrod oherwydd gweithgaredd masnachol yn agos i ased coetir</p> | <p>Cost ychwanegol i GCC. Llai o effaith gweithgareddau GCC. GCC yn colli cymhelliant.</p> |

7. Argymhellion Ymarferol ar gyfer CNC

Rhagymadrodd

- 7.1 Yn y Bennod hon, rydym yn cyflwyno allbwn allweddol yr astudiaeth hon, sef canllaw 'cyfeirio' i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith arfarnu ar gyfer cynigion sy'n cynnwys trosglwyddo rheolaeth asedau coetir o CNC i gymuned o sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, o bosibl am yn is na phrisiau'r farchnad.
- 7.2 Mae'r Bennod hon wedi'i datblygu drwy ddwyn ynghyd ganfyddiadau ar draws holl ffrydiau gwaith yr astudiaeth: ymgynghoriadau cwmpasu cychwynnol, adolygiad tystiolaeth nad yw'n hollgynhwysfawr ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o CNC, y sector coedwigaeth gymunedol, Forestry and Land Scotland ac economegwyr y llywodraeth.
- 7.3 Trwy broses gydweithredol gyda Grŵp Llywio'r astudiaeth, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a CNC, cytunwyd mai'r fformat mwyaf defnyddiol ar gyfer allbynnau terfynol y gwaith hwn oedd canllaw cyfeirio sy'n nodi'n fras sut y gellir mesur effeithiau posibl a, lle bo'n berthnasol, ariannol ac offer ac adnoddau i gefnogi hyn – trafodir hyn yn fanylach isod. Nod y dull hwn yw cefnogi anghenion CNC ond mae hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau ein hadolygiadau tystiolaeth ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid. Mae hyn oherwydd y bydd yr ystod o drefniadau trosglwyddo, amodau trosglwyddo cysylltiedig, nodweddion ac amcanion grwpiau coetir cymunedol a'u perthynas â'r gymdeithas ehangach yn golygu y bydd canlyniadau, rhai cadarnhaol a negyddol, o drosglwyddiadau o'r fath yn debygol o fod yn brosiect-benodol. Oherwydd yr heterogenedd uchel rhwng prosiectau, efallai na fydd set unffurf o ddangosyddion yn ddigonol i arfarnu buddion, costau a risgiau prosiect yn briodol.
- 7.4 Mae'r canllaw cyfeirio (a gyflwynir yn Nhabl 7-1) yn nodi cryfder y dystiolaeth ar gyfer yr effaith benodol a'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar raddfa, hyd, a maint yr effaith. Mae'n defnyddio'r effeithiau posibl (buddiannau, costau, a risgiau) sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau coetir i grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd parti a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ac a allai fod yn berthnasol wrth arfarnu trosglwyddiad ased coetir

arfaethedig. Mae'r canllaw hefyd yn tynnu sylw at ddulliau ar gyfer meintioli a, lle bo'n berthnasol, rhoi gwerth ariannol ar yr effeithiau bioffisegol, economaidd ac ariannol, cymdeithasol a chyfranogol posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo pren a choetir i sefydliadau cymunedol a/neu drydydd sector.

- 7.5 Mae'r canllaw cyfeirio hwn yn dilyn dulliau tebyg i ganllawiau megis Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, Galluogi Dull Gweithredu Cyfalaf Naturiol (ENCA) Defra a Chanllawiau Llesiant Trysorlys EM, y ddau yn ganllawiau atodol i'r Llyfr Gwyrdd, drwy nodi dulliau ac adnoddau cadarn i alluogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau (e.e. noddwyr prosiect neu CNC) i arfarnu cynigion a gyflwynir gan sefydliadau cymunedol neu drydydd sector.
- 7.6 Mae'r canllawiau a'r argymhellion a gyflwynir yn y Bennod hon hefyd yn gyson â'r dulliau a fabwysiadwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ac ENCA.


Mesur a rhoi gwerth ariannol ar fuddion, costau a risgiau

- 7.7 Mae arfer gorau'r Llywodraeth yn nodi y dylai costau a buddion disgwylidig unrhyw ddefnydd o arian cyhoeddus gael eu meintioli a dylid rhoi gwerth ariannol arnynt lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn galluogi'r adran gyllido i ganfod gwerth tebygol am arian yr ymyriad, ac i wneud penderfyniadau ynglŷn ag ariannu ystod o raglenni amgen, gan gynnwys busnes fel arfer neu linell sylfaen berthnasol.²² O'r herwydd, bu pwyslais cynyddol ym mholisiau, rhaglenni a phrosiectau Llywodraeth y DU ar roi gwerth ariannol ar ffactorau nad oes unrhyw werth marchnad priodol ar eu cyfer.
- 7.8 Yn ogystal ag arfer gorau Llywodraeth y DU, mae gwerth ariannol yn ddull defnyddiol, oherwydd ceir uned fesur gyson i gymharu canlyniadau â'i gilydd a chostau eu cynhyrchu, gan apelio at y rheini sy'n gwneud penderfyniadau sy'n croesawu'r eglurder a'r symlrwydd y mae arian yn ei gynnig. Y risg o beidio â rhoi gwerth ar ganlyniad yw bod y rhain yn cael eu hanwybyddu wrth ddadansoddi a gwneud penderfyniadau, gan arwain at golledion i les a llesiant.

²² Ar gyfer arfarnu trosglwyddiad asedau coetir cymunedol, byddai fel busnes fel arfer neu linell sylfaen yn debygol o fod yn fwy penodol i safle ar gyfer asesu effeithiau net ychwanegol posibl cynigion prosiectau unigol. Fodd bynnag, efallai y bydd gan linell sylfaen fwy cyffredinol rai defnyddiau i raddau ehangach a monitro cyflwr.

- 7.9 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae technegau wedi dod yn fwy soffistigedig ac wedi galluogi i ystod ehangach o gostau a buddion gael eu meintioli – gan helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth a llywio ymhellach asesiad buddsoddi mewn prosiectau nad oeddent wedi'u harfarnu yn y gorffennol (e.e. prosiectau sy'n effeithio ar lesiant neu'r amgylchedd). Fodd bynnag, ni ellir rhoi gwerth ariannol ar yr holl gostau a buddion na hyd yn oed eu meintioli.
- 7.10 Gellir defnyddio dulliau meintiol (rhifol), ansoddol (disgrifiadol) ac ariannol (gwerth mewn £) neu gyfuniad o'r rhain i asesu pwysigrwydd cymharol canlyniad. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn rhoi arweiniad ar effeithiau, risgiau ac ansicrwydd anariannol ac anfesuradwy, a sut y dylid ystyried y rhain yn y broses arfarnu.
- 7.11 Mae dau reswm allweddol pam nad yw rhai dangosyddion efallai wedi'u gosod mewn gwerth ariannol o fewn arfarniad:
- Nid oes digon o dystiolaeth neu ymchwil i alluogi'r canlyniad i gael ei brisio'n briodol, neu efallai na fydd yn ymarferol darparu amcangyfrif rhesymol.
 - Nid yw'r adnoddau a fuddsoddwyd i gasglu a dadansoddi tystiolaeth ar effeithiau ymyriad yn gymesur â'r costau, buddion a risgiau cysylltiedig i gymdeithas o ganlyniad i'r cynnig dan sylw. Yn syml, mae hyn yn golygu bod costau dangos tystiolaeth o'r effeithiau (er enghraifft, arolwg sylfaenol o fioamrywiaeth o fewn llain coetir a monitro parhaus) yn fwy na buddion yr ymyriad.
- 7.12 Mae'r Llyfr Gwyrdd yn darparu hierarchaeth o'r prif dechnegau y gellir eu defnyddio mewn gwahanol amgylchiadau i gefnogi'r broses o bennu gwerth ariannol nad yw'n werth y farchnad. Er bod gan bob un o'r dulliau gryfderau a gwendidau, ystyrir mai'r technegau hyn: prisiau'r farchnad, prisiau generig, hoffter a ddatgelwyd, ffafriaeth a llesiant datganedig ac amcangyfrif o werth ac ystod cyfeiriol canolog yw'r rhai mwyaf cadarn. Mae angen ystyried y technegau hyn mewn perthynas â'r cwestiwn, y cyd-destun a'r gofynion penodol. Mae Ffigur 7-3 o Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn rhoi disgrifiad byr o bob techneg.

Ffigur 7-1: Dulliau Prasio ar gyfer Prisiau Di-Farchnad



Ffynhonnell: Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (2022), tud. 59

7.13 Mae'r canllaw cyfeirio wedi ceisio nodi gwerthoedd ariannol sy'n cyd-fynd â'r technegau hyn. Er ei bod yn werth nodi y dylai astudiaethau unigol, hyd yn oed wrth ddefnyddio technegau prasio a fabwysiadwyd yn eang hefyd gael eu gwerthuso o ran eu cadernid a'u perthnasedd i'r canlyniad yr ymchwili'r iddo. Mae rhai ffynonellau o werthoedd ariannol a ystyriwyd yn darparu eu gradd cadernid eu hunain (megis ENCA). Fodd bynnag, i adlewyrchu lle mae bylchau yn y dystiolaeth, mae sgôr RAG (coch, oren a gwyrdd) wedi'i gymhwyso i gryfder y dystiolaeth ar gyfer meintioli'r effaith (y llwybr o ymyrraeth i ganlyniad) a rhoi gwerth ariannol ar yr effaith yn y canllaw cyfeirio, gan dynnu ar Binner et al., (2017). Cyflwynir y cynllun graddio RAG hwn yn Nhabl 1-1 isod.

Tabl 7-1: Cynllun Graddio RAG


| | |
|----------|-----------------------------------|
| Graddiad | Disgrifiad |
| Gwyrdd | Tystiolaeth gref |
| Oren | Tystiolaeth dda, ond rhai bylchau |
| Coch | Bylchau mawr mewn dystiolaeth |

Ffynhonnell: Steer-ED, addaswyd o Binner et al., (2017)

7.14 Mae ENCA hefyd yn darparu sgematig defnyddiol, a atgynhychir yn Ffigur 7-4, sy'n adlewyrchu'r berthynas rhwng diben y prisiad ac ansawdd y dystiolaeth brisio sydd ei hangen. Yn fras mae'r diagram yn dangos y byddai 'banciau gwerth' megis ENCA, yr Offeryn Prasio Coetir ac EVRI (Rhestr Cyfeirio Prasio Amgylcheddol) sy'n

gyson â'r Llyfr Gwyrdd yn briodol ar gyfer opsiynau cwmpasu a sgrinio ac i raddau gwerthuso polisi a phrosiect, ac maent yn felly yn addas ar gyfer gofynion CNC.

Ffigur 7-2: Y berthynas rhwng diben y prisiad ac ansawdd y dystiolaeth prisio sydd ei hangen



Ffynhonnell: Canllaw ENCA (2021)

7.15 Yn yr adran isod, rydym yn rhoi darlun manylach o ddull Forestry and Land Scotland o arfarnu prosiectau trosglwyddo asedau cymunedol. Mae hyn yn seiliedig ar gyfweiliad gyda rhanddeiliad sy'n gweithio gyda Chynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol Forestry and Land Scotland (FLS). Mae'r portread byr yn rhoi enghraifft gyd-destunol berthnasol ac eglurhaol o fframwaith arfarnu sydd wedi'i gymhwyso'n ymarferol i drosglwyddo asedau coetir am y 5 mlynedd diwethaf.

Dull Forestry and Land Scotland ar gyfer arfarnu cynigion

7.16 Asiantaeth lywodraethol i Lywodraeth yr Alban yw Forestry and Land Scotland; mae'n rheoli'r tir sy'n eiddo i Weinidogion yr Alban, sydd tua 640,000 hectar. Mae FLS wedi cyflwyno'n raddol gynllun trosglwyddo asedau cymunedol er mwyn trosglwyddo darnau o dir i grwpiau cymunedol sy'n bwriadu defnyddio'r ardal i greu gwerth.

- 7.17 Mae cynllun asedau cymunedol FLS wedi'i gyflwyno fel rhan o strategaeth ehangach o rymuso cymunedau a ddangosir yn Rhan 5 Deddf Grymuso Cymunedau (yr Alban) 2015²³. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno hawl i gyrrff cymunedol wneud ceisiadau i bob awdurdod lleol, Gweinidogion yr Alban, ac ystod o gyrrff cyhoeddus am unrhyw dir neu adeiladau y teimplant y gallent wneud defnydd gwell ohonynt. Drwy'r hawl hon, gall y corff cymunedol gael perchnogaeth dros dro neu barhaol (trwy lesddaliad neu bryniant hirdymor) o'r ased gan y corff cyhoeddus. Mae'r polisi yn annog tir ac asedau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol i ddarparu gwerth i'r gymuned leol.
- 7.18 Mae'r prosiectau cymunedol a oruchwylir gan FLS yn amrywiol iawn ac yn cynnwys ystod o brosiectau coetir a rhai nad ydynt yn goetiroedd:
- Prosiectau mynediad a hamdden, megis darparu meinciau, cuddfannau, llwybrau at ddefnydd cymunedol;
 - Trosi adfeilion/ysguboriau yn adeiladau defnydd cymunedol. Er enghraifft, adeiladodd un prosiect amgueddfa fechan ar ymyl Loch;
 - Prosiectau chwaraeon megis adeiladu llwybrau beicio mynydd at ddefnydd aelodau'r gymuned. Roedd angen cydweithio â'r gymdeithas llwybrau gan ei bod bellach yn cynnal rhai o'r llwybrau beicio mynydd 'anawdurdodedig';
 - Prosiectau chwaraeon pellach gydag enghreifftiau yn amrywio ar draws meysydd hwylio, saethu a saethyddiaeth. Mae cymunedau lleol yn dymuno cynnal y gweithgareddau hyn ar y tir, ac angen caniatâd ffurfiol i wneud hynny (mae hyn yn cynnwys digwyddiadau a drefnir);
 - Rhoddwyd prydlesi pysgota i gymdeithasau pysgota lleol. Mae'r cymdeithasau yn rheoli'r hawliau pysgota ac yn rhoi nifer cyfyngedig o drwyddedau; mae hyn wedi arwain at gytundeb mwy ffurfiol gyda Llywodraeth yr Alban ynghylch gweithgarwch pysgota;
 - Mae saith cynllun cynhyrchu trydan dŵr wedi'u rhoi ar waith.
- 7.19 Fel rhan o'u cais, mae'n ofynnol i grwpiau cymunedol gyflwyno arfarniad i FLS sydd wedyn yn asesu ceisiadau yn erbyn fframwaith gwerthuso. Mae mewnwelediadau ansoddol yn rhan bwysig o'r arfarniad, mae buddion anodd sy'n anodd rhoi gwerth

²³ Gweler Rhan 5 Deddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015 – [GOV.SCOT](http://gov.scot)

ariannol arnynt yn cael eu mynegi ond maent yn rhoi cryn bwys ar y penderfyniad a ddylid trosglwyddo'r ased. Er mwyn cynorthwyo gyda chreu'r achos busnes mae FLS yn cyfeirio'r grŵp cymunedol at ymgynghorwyr trosglwyddo asedau cymunedol arbenigol. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb i gyfrifo'r buddion yn cael ei roi ar y grŵp cymunedol i ddangos tystiolaeth yn eu hachos busnes.

7.20 Yn ychwanegol at y mewnwelediadau ansoddol, mae FLS hefyd yn argymhell cyfrifo a rhoi gwerth ariannol ar fuddion disgwylidiedig trosglwyddo asedau lle bo modd. Darperir canllawiau ar wefan FLS ar gyfer methodolegau cyfrifo a phennu gwerth ariannol, er enghraifft:

- **Manteision economaidd yn deillio o GYC swyddi** – pe bai gwerthiant pren yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithiwr i reoli'r goedwig, er enghraifft, gellir cyfrifo'r GYC sy'n gysylltiedig â'r swydd honno a'i gynnwys yn yr arfarniad. Mae FLS yn argymhell cynnwys GYC swyddi newydd yn yr asesiad gwerth lle bo modd. Yn ymarferol, mae cyflogau wedi cael eu defnyddio gan ymgeiswyr i ddarparu procsi ar gyfer buddion GYC sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r ceisiadau trosglwyddo asedau FLS sy'n cynnwys gwerthoedd buddion swyddi, ac nid yw'r un o'r rhai a adolygwyd yn ceisio cyfrifo GYC o ffigurau cyflog. O'r herwydd, mae lefelau cyflog wedi'u defnyddio i roi syniad o'r budd i'r gymuned, ond nid ydynt wedi'u defnyddio i ddadlau gostyngiad yn y pris prynu – trafodir gostyngiadau o'r fath ymhellach ym mharagraff 7.24.
- **Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr** – amcangyfrifir a rhoddir gwerth ar niferoedd ymwelwyr ychwanegol (gan gyfrif am ddadleoli). Er enghraifft, gellir creu effeithiau mwy gan ymwelwyr drwy weithio drwy grŵp trydydd sector a all ddarparu adnoddau i annog ymgysylltiad cymunedol a phobl leol i ddefnyddio'r goedwig; efallai na fydd adeiladu llwybrau heb gyfathrebu gyda'r gymuned yn cael effaith fawr ar niferoedd ymwelwyr ychwanegol;
- Gellir rhoi gwerth ariannol ar **fuddion hamdden** drwy senarios parodrwydd i dalu²⁴ (WTP). Ni ddefnyddiwyd senarios WTP i ddangos buddion o fewn unrhyw un o'r trosglwyddiadau asedau FLS a adolygwyd. Yn lle hynny, mae'r gwerth i'r gymuned yn aml yn cael ei gyfrifo drwy werthoedd gwario ar weithgarwch cysylltiedig yn y

²⁴ techneg ar gyfer casglu gwerth nwydd neu wasanaeth nad yw'n cael ei farchnata o'r swm y mae ymatebwyr i arolwg a ddyluniwyd yn arbenigol yn fodlon ei dalu i gaffael a da neu wasanaeth.

gorffennol (e.e. Marchnadoedd Nadolig, Gwyliau Cerddoriaeth ac ati) sy'n cyfleu'r budd hamdden yn rhannol;

- **Lles cymunedol:** Mae FLS yn argymhell mesur effeithiau lles cymunedol drwy luosi oriau gwirfoddolwyr y flwyddyn gyda'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn aml nid yw'r buddion hyn yn sylweddol: er enghraifft, gallant ddod i £15k, ar ased tir gwerth £200k wedi'i brisio ar gyfraddau'r farchnad.
- **Effeithiau bioamrywiaeth:** Mae FLS yn mynegi ei bod yn anodd mesur a monitro buddion bioamrywiaeth ac yn anaml y cânt eu mesur yn ariannol neu eu meintioli mewn achosion busnes, os o gwbl.

7.21 O ran sicrhau cymariaethau budd, mae gan FLS ddwy safon asesu wahanol, un ar gyfer yr ased sy'n cael ei waredu waeth beth fo rhan y gymuned leol ynddo ac un arall ar gyfer yr ased nad yw wedi'i gynllunio i gael ei waredu:

- Ar gyfer tir sy'n cael ei waredu, mae gwerthusiadau grwpiau cymunedol lleol yn cyfrifo defnyddiau sector preifat tebygol fel nodweddion gwrthffeithiol: yn aml nid oes gan y gwrthffeithiol hwn unrhyw fuddion cymunedol.
- Ar gyfer ased tir neu goetir nad oedd yn mynd i gael ei waredu i ddechrau, y gwrthffeithiol yw gweithgaredd a gynlluniwyd gan FLS.

7.22 Mae panel gwerthuso annibynnol yn adolygu pob achos busnes gan ystyried buddion ansoddol a meintiol. Maent hefyd yn ymgysylltu â'r grŵp cymunedol sy'n cyflwyno'r achos. Rhoddir heriau i'r grŵp cymunedol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r profiad perthnasol a'u bod yn ymwybodol o'r ymrwymiad. Mae hyn yn gymorth i gael sicrwydd na fydd risgiau a nodwyd yn digwydd.

- Darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a datblygu sgiliau er mwyn cynyddu cyflogadwyedd;
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phwysau ar Wasanaethau Cyhoeddus.
- Roedd cyfweleion CNC yn teimlo bod grymuso GCCau a'u cefnogi i ffynnu wedi cyfrannu at leoedd llewyrchus ac wedi galluogi CNC i gyflawni ei nodau strategol. Yn yr un modd, roedd y GCCau a gyfwelwyd o'r farn bod eu rôl yn galluogi CNC i gyflawni ei amcanion ei hun.
- Roedd yr holl asedau a reolir gan y GCCau a gyfwelwyd yn goetiroedd nad ydynt yn rhai cynhyrchiol.
- Amlygwyd costau a risgiau; fodd bynnag, fe'u hystyriwyd yn fach eu natur yn gymesur â chyfanswm gweithgarwch CNC.
- Teimlai cyfweleion fod risg gyffredin i bob GCC o ansefydlogrwydd yn strwythur y sefydliad oherwydd trosiant personél neu'r gallu i gadw gwirfoddolwyr. O ystyried hyn, dylai fod yn amcan i bob GCC gynnwys y gymuned gyfan yn y gwaith cyd-ddylunio o'r cychwyn cyntaf.
- Er y teimlwyd bod cynlluniau rheoli a gyflwynir gan GCCau i CNC yn ddigonol ac yn briodol er mwyn alinio cynnydd rhwng gwahanol bartïon, heb dempled penodol i GCCau ei ddilyn, gallai offeryn cyfeirio neu fodel rhesymeg syml sy'n cyd-fynd â disgwyliadau CNC helpu i egluro sut y gall GCCau gysylltu eu hamcanion penodol eu hunain â buddion perthnasol a chymesur. Gall y model rhesymeg weithredu fel yr edefyn aur sy'n cysylltu nodau strategol â chanlyniadau cadarnhaol hysbys.
- Yn olaf, mae cyfle i'r diwydiant coed weithio gyda GCC, yn hytrach na gweithio o'i gwmpas neu niweidio ei weithgarwch.

Argymhellion Ymarferol ar gyfer CNC (canllaw cyfeirio)

- 8.8 Fel rhan o'r gwaith o lunio canllaw i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith arfarnu ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â throsglwyddo rheolaeth asedau coetir o CNC i sefydliadau cymunedol neu drydydd sector yng Nghymru, cynhaliwyd adolygiad o ystod o offer.
- 8.9 Nododd yr adolygiad ystod eang o offer a allai o bosibl gefnogi arfarniad o gynigion trosglwyddo asedau coetir, gan gynnwys y rheini sy'n dod o fewn canllawiau'r

Llywodraeth ganolog a chanllawiau atodol. Mae'n debygol y bydd angen ystyried rhai o'r rhain ymhellach o gofio eu bod y tu allan i ffynonellau canllawiau perthnasol, ond, o dan amgylchiadau priodol, efallai y bydd ganddynt ryw faint o rôl wrth lywio amcangyfrifon lle mae bylchau yn y dystiolaeth yn dal i fod.

- 8.10 O ystyried yr ystod o effeithiau a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, gwelwn nad oes un fframwaith neu offeryn 'addas i bawb' ond man cychwyn allweddol yw'r Llyfr Gwyrdd a'r adnoddau canllaw atodol. O'r herwydd, mae'r canllaw cyfeirio a gyflwynir ym Mhennod 7 yn defnyddio llawer o offer, ond mae'n bwysig i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o sail ac addasrwydd y ffynonellau hyn ar gyfer yr achos dan sylw, gan gynnwys eu cyfyngiadau.
- 8.11 Ar gyfer llawer o effeithiau posibl trosglwyddo asedau coetir, mae amrywiaeth o dulliau cadarn ar gyfer meintioli a rhoi gwerth ariannol ar effeithiau, felly mae angen gwneud penderfyniadau gwybodus am ddewisiadau o'r fath. Dylai'r dewis o werthoedd fod yn seiliedig ar ddefnyddio dulliau a ffynonellau cadarn ac addas - ond gall hefyd fod yn ddibynnol ar y data sydd ar gael, mesurau a gymerwyd i leihau cyfrif ddwywaith a pharodrwydd CNC i brynu cytundebau trwydded ar gyfer peth offer.

Crynodeb o'r ymchwil

- 8.12 Gan dynnu ar yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae Tabl 8-1 yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau allweddol o'r adolygiad tystiolaeth, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ac adolygiad o ddata a dulliau ar gyfer mesur a rhoi gwerth ariannol ar effaith. Ei nod yw rhoi syniad o sefyllfa o ran g wybodaeth am yr effeithiau (buddiannau, costau a risgiau) a'r potensial i ymgorffori effeithiau meintiol ac ariannol mewn asesiad Gwerth am Arian/BCA.

Tabl 8-1: Crynodeb o ansawdd y dystiolaeth

| Effaith | Ansawdd y dystiolaeth ar gyfer effaith bosibl trosglwyddo asedau cymunedol | Ansawdd y dystiolaeth ar gyfer gwerth ariannol |
|-------------------------------------|---|---|
| Bioamrywiaeth a gwydnwch coetir | Cyfyngedig | Gwan |
| Addasiad | Cyfyngedig | Gwan |
| Storio ac atafaelu carbon | Cyfyngedig | Cryf |
| Datgarboneiddio | Cyfyngedig | Cryf |
| Ysgogiad economaidd lleol | Cyfyngedig | Cryf |
| Cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol | Cymedrol | Cryf |
| Lles | Cryf | Cryf |
| Ansawdd bywyd cymunedol | Cymedrol | Cryf |
| Grymuso cymunedau | Cyfyngedig | Gwan |

Ffynhonnell: Steer-ED

- 8.13 O'r naw maes effaith a nodir yn Nhabl 8-1, ystyrir bod gan gyfalaf cymdeithasol a diwylliannol, effeithiau ar ansawdd bywyd a llesiant cymunedol ansawdd 'cryf' neu 'gymedrol' o dystiolaeth ar gyfer effaith bosibl a gwerth ariannol. Mae hyn oherwydd bod corff ehangach o ymchwil empirig o ansawdd uchel i dynnu arno o fewn y parth llesiant a llenyddiaeth trosglwyddo asedau cymunedol. Caiff hyn ei ysgogi gan agenda ymchwil weithredol ym maes llesiant, a chorff ehangach o lenyddiaeth yn gwerthuso effaith trosglwyddo asedau cymunedol (asedau nad ydynt yn goetiroedd). Mewn geiriau eraill, mae tuedd yn y cyhoeddiadau.
- 8.14 Mewn cyferbyniad, mae diffyg cyson o dystiolaeth empirig gadarn mewn perthynas â'r chwe maes effaith arall a gyflwynir yn Nhabl 8-1 a/neu mae ystod ehangach o ffactorau drwslyd. Yn benodol, mae tri maes effaith sy'n ymddangos yn arbennig o gyfyngedig o ran y dystiolaeth bresennol bod trosglwyddo asedau coetir cymunedol yn arwain at greu buddion, costau a risgiau a'r offer sydd ar gael i roi gwerth ariannol ar y rhain. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau bioffisegol (bioamrywiaeth, gwytnwch coetir, ac addasu) a grymuso cymunedau. Mae'r effeithiau hyn yn heriol ac yn defnyddio llawer o adnoddau i'w mesur, ac mae cyfyngiadau sylweddol mewn rhoi gwerth ariannol. Trafodir y rhain yn fanylach isod.

- 8.15 **Grymuso cymunedau:** Er bod y llenyddiaeth a adolygwyd yn rheolaidd yn nodi grymuso cymunedau fel effaith yn ymwneud â throsglwyddo asedau coetir cymunedol, prin oedd y dystiolaeth gadarn (sef gwerthusiadau) i gefnogi hyn. Darparodd yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect hwn rywfaint o dystiolaeth ategol y gall grymuso cymunedau ddigwydd. Er enghraifft, roedd un GCC wedi sefydlu siop sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr mewn pentref cyfagos (trosiant o £140k). Rhoddodd y profiad o sefydlu a rhedeg y GCC, a ddeilliodd o gytundeb prydles rheoli, hyder i'r grŵp ddatblygu prosiectau pellach. Hefyd, mae'r llenyddiaeth ar drosglwyddo asedau cymunedol yn darparu tystiolaeth ategol bellach ar fuddion, costau a risgiau sy'n gysylltiedig â'r thema effaith hon. Gallai effeithiau gael eu casglu'n ansoddol neu'n feintiol, ond mae diffyg prisiadau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM cadarn yn golygu y bydd nodi gwerth ariannol yn heriol o ystyried y wybodaeth gyfredol.
- 8.16 **Effeithiau bioffisegol:** Un o fuddion pwysig trosglwyddo asedau coetir yw gwella ansawdd y gwasanaethau coetir ac ecosystem. Er gwaethaf hyn, nododd yr adolygiad tystiolaeth fod cyfyngiadau mewn perthynas â meintioli a rhoi gwerth ariannol ar effeithiau bioffisegol.
- 8.17 Yn gyntaf, mae diffyg tystiolaeth bresennol bod effeithiau bioffisegol yn cael eu gwireddu o ganlyniad i drosglwyddo asedau coetir.
- 8.18 Yn ail, gall deall ychwaneged ymyriadau bioffisegol fod yn anghymesur â'r gwerth a grëir o ystyried yr angen i bennu llinell sylfaen a monitro newidiadau o fewn ecosystemau cymhleth. Er bod offer ar gael i alluogi modelu effeithiau bioffisegol posibl, mae natur safle-benodol ecosystemau coetir a gwasanaethau cysylltiedig yn golygu bod eu cadernid yn gyfyngedig. Mae hyn wedi bod yn llai o broblem ar gyfer prosiectau lle mae ehangu coetir yn un o'r prif amcanion. Er enghraifft, rhaglenni ailgoedwigo neu goedwigo, lle mae data sylfaenol ar gael yn haws ac ychwaneged yn fwy amlwg.
- 8.19 Adroddwyd yn eang ar her ychwaneged yn y llenyddiaeth a adolygwyd. I fynd i'r afael â hyn, dylid cynnal gwerthusiad o'r coetir adeg trosglwyddo a monitro ansawdd y coetir yn barhaus drwy gydol y cytundeb trosglwyddo coetir. Gellid cynnal arolygon safle gan CNC, GCC neu drydydd parti annibynnol. Mae rhaglenni ac offer 'Ecoleg y Dinesydd' fel LERC, Seek neu iNaturalist hefyd yn cynnig y cyfle i

gasglu data sylfaenol a monitro dros amser. O ystyried cyfyngiadau dulliau o'r fath, megis tuedd ac amrywioldeb yn ansawdd y data a gesglir, byddai angen cysoni'r rhain â gofynion canllawiau arfarnu'r llywodraeth ganolog megis Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

- 8.20 Yn drydydd, er bod rhywfaint o dystiolaeth yn ymwneud â'r llwybrau rhwng newidiadau mewn bioamrywiaeth a defnydd a gwerth peidio â defnyddio, mae bylchau sylweddol hefyd yn y ddealltwriaeth o'r llwybrau hyn. Serch hynny, o ystyried y risg bosibl o gamreoli sy'n arwain at gostau sylweddol i gymdeithas a CNC (e.e. costau adfer) a pherthnasedd posibl effeithiau bioffisegol, dylid asesu a ellir mesur effeithiau a rhoi gwerth ariannol arnynt fesul achos. Fodd bynnag, nodir y gallai hyn fod yn heriol o ystyried y wybodaeth gyfredol.

Camau Nesaf a Argymhellir

- 8.21 **Gallai CNC anelu at dreialu'r canllaw cyfeirio a argymhellir cyn ei wreiddio ar draws y sefydliad yn ehangach.** Bydd angen i'r canllaw cyfeirio a argymhellir, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, gael eu treialu o fewn CNC gyda grŵp defnyddwyr i nodi anghenion hyfforddiant, cyd-ddylunio templedi adrodd, canllawiau ychwanegol, a meysydd lle gallai fod angen arbenigedd. Bydd hefyd yn bwysig deall lle gallai trosglwyddiadau arwain at gostau ychwanegol i CNC (yn ariannol neu fel arall) – mae'r adolygiad tystiolaeth wedi rhoi rhyw syniad o'r rhain. Dylai CNC asesu a all ysgwyddo'r costau ychwanegol hyn cyn ac fel rhan o'r broses arfarnu, gan gydbwysu'r rhain yn erbyn y buddion y gall trosglwyddo asedau coetir eu cyflwyno.
- 8.22 **Dylai CNC ystyried sefydlu set o brisiadau a metrigau cysylltiedig sydd wedi'u 'cymeradwyo i'w defnyddio'.** Diben y canllaw cyfeirio oedd darparu ystod eang o ffynonellau prisio sy'n ymdrin ag effaith yr holl weithgareddau y gallai GCCau ymgymryd â hwy. Mae'r ystod eang o werthoedd ariannol a gyflwynir yn adlewyrchu amrywiaeth y gweithgareddau a gyflawnir gan GCCau. Fodd bynnag, roedd archwilio pob prisiad yn unigol y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon. O ystyried hyn, mae nifer o brisiadau gwahanol ar gael yn y canllaw cyfeirio ar gyfer yr un canlyniad. Felly, dylai defnyddwyr (er enghraifft, grŵp defnyddwyr CNC) adolygu ffynonellau a phrисиadau am eu cadernid, prisiadau peilot a sefydlu sensitifrwydd gyda'r bwriad o gytuno ar set o brisiadau a metrigau cysylltiedig 'cymeradwyo i'w defnyddio'. Er y bydd y dewis o fetrigau a phrисиad yn amrywio fesul achos yn

dibynnu ar yr ased a gweithgareddau arfaethedig y GCC, bydd cytuno ar gyfres o fetrigau a phrasiadau cymeradwy yn lleihau tuedd o ran dethol ac yn rhoi cysondeb ar draws arfarniadau. Wrth i ffynonellau prisio allweddol megis ENCA gael eu diweddarau, dylid adolygu'r prasiadau hyn, er enghraifft, yn flynyddol neu bob dwy flynedd i gadw'n gyfredol â datblygiadau yn y llenyddiaeth.

- 8.23 **Dylai CNC dynnu ar ddysgu a phrofiad o raglenni trosglwyddo asedau coetir presennol (e.e. Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn yr Alban).** Gallai CNC ystyried, er enghraifft, ymgynghori â Forestry and Land Scotland, i dynnu ar brofiad a dysgu o'r Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Yma, mae gan sefydliadau cymunedol hawl i wneud cais i gymryd drosodd tir neu adeiladau cyhoeddus y maent yn teimlo y gallant wneud gwell defnydd ohonynt ar gyfer pobl leol. Mae Forestry and Land Scotland wedi datblygu proses arfarnu trosglwyddiad asedau sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am ddangos effaith ac ystyried costau a risgiau ar y grŵp cymunedol arfaethedig sydd wedyn yn cael ei adolygu gan banel o arbenigwyr a'i ategu gan ymweliadau safle. Dywedodd y GCCau a holwyd y gallai fframwaith 'anhyblyg' ar gyfer monitro a mesur canlyniadau rwystro arloesedd a gallai fod angen llawer o adnoddau, yn enwedig pan fo GCCau eisoes dan bwysau. Er yr ymgynghorwyd â Forestry a Land Scotland fel rhan o'r prosiect, cynghorir ymgynghoriad dilynol. Byddai hyn yn galluogi CNC i dynnu ar brofiad a dysgu o ddatblygiad a gweithrediad cynllun tebyg, mewn cyd-destun tebyg.
- 8.24 **Dylai CNC ddatblygu fersiwn symlach o'r canllaw cyfeirio ar gyfer GCCau.** Gallai pecyn cymorth sy'n cynnwys metrigau a phrasiadau 'cymeradwy i'w defnyddio' a chanllawiau penodol i GCCau roi brasamcan cyntaf ar y cam cynnig. O ystyried costau ychwanegol posibl i CNC pe bai cynigion GCCau a chytundebau rheoli gweithredol yn cynyddu'n sylweddol, gallai ffordd effeithiol o sgrinio cynigion lleihau costau. Hefyd, gellid mabwysiadu'r dull hwn o gam cymeradwyo'r cynnig i gychwyn y prosiect i gyd-ddylunio monitro ac adrodd ar brotocolau a thablau risg. Gallai hyn feithrin gweithio mewn partneriaeth â CNC o'r cychwyn.
- 8.25 **Dylai CNC dreialu'r canllaw cyfeirio ynghyd â gwerthusiad cynhwysfawr, safonol a systematig o brosiectau trosglwyddo asedau coetir.** Byddai'r dull hwn yn galluogi CNC i adeiladu sylfaen dystiolaeth ynglŷn â maint a hyd a lled yr effeithiau sy'n deillio o drosglwyddo asedau coetir, yn enwedig lle mae bylchau yn y

dystiolaeth. Byddai hyn hefyd yn hwyluso CNC i nodi'r ffactorau mwyaf amrywiol sy'n effeithio ar wireddu effaith. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr astudiaeth hon yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad ansoddol o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a'r adolygiad tystiolaeth mewn perthynas ag effaith maint a hyd a lled y gwahanol weithgareddau a gyflawnir gan GCCau. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r graddau bod y casgliadau yn rhannol ac yn anfesuradwy ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r crynodeb o ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir yn Nhabl 1-3 yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am yr effeithiau (buddiannau, costau a risgiau) a'r potensial i ymgorffori effeithiau meintiol ac ariannol mewn gwerth am arian / asesiad cost a budd. Bydd yn bwysig bod CNC yn gallu nodi rhyw fath o linell sylfaen y gellir monitro buddion yn ei herbyn a bod cynnydd yn cael ei asesu dros amser i helpu i roi syniad o'r effaith y mae unrhyw drosglwyddo asedau coetir wedi'i chael. Gall hyn hefyd helpu i ddechrau nodi lle mae effeithiau yn ychwanegol.

9. Cyfeiriadau

Barlagne, C. et al (2021) 'What Are the Impacts of Social Innovation? A Synthetic Review and Case Study of Community Forestry in the Scottish Highlands' *Sustainability* **13**(8): 4359.

Binner, A.R., Smith, G., Bateman, I.J., Day, B.H., Agarwala, M. a Harwood, A., 2017. Valuing the social and environmental contribution of woodlands and trees in England, Scotland and Wales. Comisiwn Coedwigaeth, Bryste, Y Deyrnas Unedig.

Blundel, R.K. a Lyon, F., 2015. Towards a 'long view': historical perspectives on the scaling and replication of social ventures. *Journal of Social Entrepreneurship*, **6**(1), tud.80-102.

Bowler, D.E., Buyung-Ali, L.M., Healey, J.R., Jones, J.P., Knight, T.M. a Pullin, A.S., 2012. Does community forest management provide global environmental benefits and improve local welfare? *Frontiers in Ecology and the Environment*, **10**(1), tud.29-36.

Campbell, L. a Bryan, A., 2006. Evaluation of partnerships between community groups and forestry commission Scotland. A study for community woodlands association. Campbell Consulting (Highland) Ltd.

Charnley, S. a Poe, M.R., 2007. 'Community forestry in theory and practice: Where are we now?' *Annu. Rev. Anthropol.*, **36**, tud.301-336.

Christie, M.; Cole, F. 'The impact of green exercise on volunteers' mental health and wellbeing: Findings from a community project in a woodland setting'. *J. Ther. Hortic.* 2017, **27**, 17–33.

Coates, J., Nickson, S., Owens, N., a Smith, H., 2021. rosglwyddo asedau cymunedol: ymchwil gyda'r trydydd sector, awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 33/2021.

Duncan, D., Kawachi, I., White, K. a Williams, D., 2013. 'The Geography of Recreational Open Space: Influence of Neighbourhood Racial Composition and Neighbourhood Poverty', *Journal of Urban Health*, **90**(4), 618–631.

Dunn, M., Ambrose-Oji, B. ac O'Brien, L., 2021. 'Delivery of Ecosystem Services by Community Woodland Groups and Their Networks. *Forests*', **12**(12), tud.1640.

Edwards, D., Elliott, A., Hislop, M., Martin, S., Morris, J., O'Brien, L., Peace, A., Sarajevs, V., Serrand, M. a Valatin, G., 2009. A valuation of the economic and social contribution of forestry for people in Scotland. Comisiwn Coedwigaeth, Caeredin, Y Deyrnas Unedig.

Egunyu, F., Reed, M.G. a Sinclair, J.A., 2016. 'Learning through new approaches to forest governance: evidence from Harrop-Procter Community Forest, Canada. *Environmental Management*, **57**(4), tud.784-797.

Greenspace Scotland, Scottish Natural Heritage, Central Scotland Green Network Trust (2017) Greenspace use and attitudes survey 2017 Research findings. Greenspace yr Alban, Sterling, Y Deyrnas Unedig.

Higgins, J.P., Thomas, J., Chandler, J., Cumpston, M., Li, T., Page, M.J. a Welch, V.A. eds., 2019. *Cochrane handbook for systematic reviews of interventions*. John Wiley & Sons.

Jarvis, I., Gergel, S., Koehoorn, M. a van den Bosch, M., 2020. 'Greenspace access does not correspond to nature exposure: measures of urban natural space with implications for health research'. *Landscape and Urban Planning*, **194**, tud.103686.

Lawrence, A., Gatto, P., Bogataj, N. and Lidestav, G., 2021. Forests in common: Learning from diversity of community forest arrangements in Europe. *Ambio*, **50**(2), tud.448-464.

Lawrence, A. ac Ambrose-Oji, B., 2015. Beauty, friends, power, money: Navigating the impacts of community woodlands. *The Geographical Journal*, **181**(3), tud.268-279.

Lawrence, A. a Molteno, S., 2012. *Community forest governance: a rapid evidence review. A Report by Forest Research on Behalf of the Independent Panel on Forestry*. Forest Research, Farnham, Y Deyrnas Unedig.

Logan, M.J., Metzger, M.J. a Hollingdale, J., 2021. 'Contributions of Scottish community woodlands to local wellbeing before and during the COVID-19 pandemic'. *Scottish Geographical Journal*, **137**(1-4), tud.113-130.

Marmot, M., Allen, J., Goldblatt, P., Boyce, T., McNeish, D., Grady, M. and Geddes, I., 2010. *The Marmot review: Fair society, healthy lives*. UCL, Llundain, Y Deyrnas Unedig.

McDermott, M.H., 2009. Locating benefits: decision-spaces, resource access and equity in US community-based forestry. *Geoforum*, **40**(2), tud.249-259.

McGarvey, A., Jochum, V., Davies, J., Dobbs, J. a Hornung, L., 2019. *Time well spent: A national survey on the volunteer experience*. NCVO, Llundain, Y Deyrnas Unedig.

Ngom, R., Gosselin, P., Blais, C. a Rochette, L., 2016. 'Type and proximity of green spaces are important for preventing cardiovascular morbidity and diabetes—a cross-sectional study for Quebec, Canada.' *International Journal of Environmental Research and Public Health*, **13**(4), tud.423.

SYG, 2020. *Woodland natural capital accounts, UK: 2020*. Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain, Y Deyrnas Unedig.

- Pagdee, A., Kim, Y.S. a Daugherty, P.J., 2006. 'What makes community forest management successful: a meta-study from community forests throughout the world' *Society and Natural resources*, **19**(1), tud.33-52.
- Pollard, A.; Tidey, P., 2009. Community woodlands in England. In *Baseline Report for Forest Research*; Forest Research: Farnham, Y Deyrnas Unedig.
- Ridgley, H., Hands, A., Lovell, R., Petrokofsky, C., Stimpson, A., Feeley, A., Bedford, A., Fenech, B., Leeman, D., Skykes, E. a Price, G., 2020. Improving access to greenspace A new review for 2020. Public Health England, Llundain, Y Deyrnas Unedig.
- Russell, A.R., Nyame-Mensah, A., de Wit, A. a Handy, F., 2019. 'Volunteering and wellbeing among ageing adults: A longitudinal analysis'. *VOLUNTAS: International Journal of Voluntary and Nonprofit Organizations*, **30**(1), tud.115-128.
- Saraev, V., O'Brien, L., Valatin, G., Atkinson, M. a Bursnell, M., 2020. Scoping Study on Valuing Mental Health Benefits of Forests. Forest Research, Caeredin.
- Saraev, V., O'Brien, L., Valatin, G., Bursnell, M., 2021. Valuing the mental health benefits of woodlands. Forest Research, Caeredin.
- Llywodraeth yr Alban, 2015. One million acres by 2020. strategy report and recommendations from the 1-million-acre short life working group.
- Siegner, M., Kozak, R., Panwar, R. a Nelson, H., 2022. 'How does strategic choice affect the performance of community forest enterprises? A study in the Cascadia region.' *Canadian Journal of Forest Research*, **52**(2), tud.227-236.
- Stuart, J., Kamerāde, D., Connolly, S., Ellis, A.P., Nichols, G. and Grotz, J., 2020. The impacts of volunteering on the subjective wellbeing of volunteers: A rapid evidence assessment. What Works Centre for Wellbeing: Llundain, Y Deyrnas Unedig.
- Tzoulas, K.; James, P., 2010, 'Peoples' use of, and concerns about, green space networks: A case study of Birchwood, Warrington New Town, UK'. *Urban For Urban Green*, **9**, 121–128.
- Wavehill. A Survey of Community Woodland Groups in Wales, 2010. Report of Main Findings; A Report for Forestry Commission Wales; Wavehill: Bronx, Efrog Newydd, UDA.
- Weiss, G., Ludvig, A., Zivojinovic, I., Asamer-Handler, M. and Huber, P., 2017, Non-timber innovations: How to innovate in side-activities of forestry—Case study Styria, Austria *Nichtholz-Innovationen: Über Innovationen in forstlichen Nebentätigkeiten, Fallstudie Steiermark, Österreich*.
- Wong, J., 2017, The economics of community woodland in Wales; *Llais Y Goedwig, Machynlleth, Deyrnas Unedig*.

Wong, J., Lawrence, A., Urquhart, J., Feliciano, D.M.S. a Slee, B., 2015. Forest land ownership change in United Kingdom. European Forest Institute, Joensuu, Ffindir.

Atodiad A – Galwad am Dystiolaeth

Comisiynwyd Steer Economic Development (Steer-ED) gan Lywodraeth Cymru i nodi ac adolygu'r dystiolaeth bresennol ar natur, maint a pharhad buddion, costau a risgiau trosglwyddo asedau coetir a/neu bren i sefydliadau trydydd parti/grwpiau cymunedol. Bydd yr adolygiad dystiolaeth yn llywio'r gwaith o ddatblygu dull asesu ymarferol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei ddefnyddio wrth arfarnu buddion, costau a risg y prosiectau hyn yn gadarn, gan gynnwys gwybodaeth am sut y gellir eu cymhwyso a'u meintioli'n briodol.

Er mwyn sicrhau bod yr adolygiad hwn mor gynhwysfawr â phosibl, rydym yn awyddus i goladu deunyddiau yr ystyrir yn **hollbwysig neu na chânt eu canfod yn ein strategaeth chwilio** (offer chwilio ar-lein, chwiliadau cyfeirio a ddyfynnir a chwiliadau llyfryddiaeth â llaw), er enghraifft, adroddiadau heb eu cyhoeddi. Yn benodol, mae gennym ddiddordeb mewn nodi llenyddiaeth empirig (h.y. eithrio barn neu lenyddiaeth ddamcaniaethol)

- Gwerthusiadau o brosiectau, rhaglenni ac ymyriadau sy'n ymwneud â 'choedwigaeth gymunedol' / 'coetir cymunedol' / 'rheolaeth coetir cymunedol' yn y DU a gwledydd eraill sydd â phroffiliau economaidd-gymdeithasol a hinsawdd debyg;
- Datblygu fframweithiau gwerthuso i werthuso canlyniadau coedwigaeth gymunedol; a
- Fframweithiau gwerthuso presennol sy'n bodoli i asesu effaith coetiroedd a choedwigoedd a reolir gan asiantaethau cyhoeddus gan gynnwys data a adroddwyd yn ddiweddar.

Atodiad B – Canllawiau Pwnc - Ymgynghoriadau Cwmpasu

Cyflwyniad byr i'r prosiect a gofyn am ganiatâd i recordio ar gyfer trawsgrifiad (2 funud). Y swyddogaeth sgwrsio i fod wedi'i analluogi ar gyfer holl ymgysylltu/ymgynghori â rhanddeiliaid drwy MS Teams/ fideo-gynadledda arall yn unol â gofynion GDPR.

Gofyn am gyflwyniad byr gan y cyfwelai (2-3 munud): Sylwer, dylid defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra'r set o gwestiynau isod yn ôl arbenigedd. Ni fydd pob cwestiwn yn berthnasol i bob cyfwelai, a bydd angen i ffocws y protocol cyfweld adlewyrchu cefndir y cyfwelai h.y. arbenigedd gwerth cymdeithasol, arbenigedd polisi.

Rhannwyd hysbysiad preifatrwydd gyda chyfranogwyr cyn ymgynghoriadau. Cyflwynir hyn yn Atodiad D.

Mapio Rhanddeiliaid i Themâu

| | | Themâu | | | |
|----------------------|--------------------|----------|----------------|-------------|--|
| | | Amcanion | Blaenoriaethau | Cyfreithiol | Tystiolaeth Llinell Sylfaen / Data Pellach i'w defnyddio |
| Rhanddeiliaid | CNC (Gwerthu Pren) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Prosiect Skyline | ✓ | | ✓ | ✓ |
| | Llais y Goedwig | ✓ | | | ✓ |
| | Trysorlys Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Taflen Cwestiynau / Atebion

| Cwestiynau | Rhanddeiliaid | Ateb |
|---|---------------|-----------------|
| <p>A allwch chi ddweud ychydig wrthym am eich sefydliad, a'ch ymwneud â choedwigaeth gymunedol?</p> <p>Beth yw eich dealltwriaeth o 'goedwigaeth gymunedol?'</p> | Pawb | |
| Amcanion Pren a Choetiroedd | | |
| <p>O fewn eich sefydliad, beth yw'r prif amcanion sectoraidd, amgylcheddol, cymdeithasol a marchnad mewn perthynas ag asedau coetir (gan gynnwys gwerthu pren a chynhyrchion coedwig nad ydynt yn bren)?</p> | Pawb | |
| <p>Yn eich barn chi, a yw'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion sefydliadau coedwigaeth eraill (CNC/Llywodraeth Cymru/Trysorlys Cymru/ sefydliadau Cymunedol), os nad pam?</p> | Pawb | |
| Blaenoriaethau Astudiaeth ac Amcanion | | |
| <p>Beth yw'r prif ysgogwyr, pryderon, a risgiau mewn perthynas â rheoli gweithgareddau coedwigaeth Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a CNC?</p> | CNC | Trysorlys Cymru |
| <p>Mae gan rai o'r amcanion dargedau sy'n cystadlu â'i gilydd, sef, sicrhau cynhyrchiant pren wedi'i reoli'n dda tra'n cefnogi amcanion Net Sero drwy atafaelu carbon neu gynnal a gwella bioamrywiaeth.</p> <p>A ystyrir bod y gwahanol amcanion hyn yn cystadlu â'i gilydd?</p> <p>Sut mae blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael eu rheoli?</p> | CNC | Trysorlys Cymru |
| Newid strategaeth CNC a therfynau cyfreithiol | | |
| <p>Beth yw'r fframweithiau cyfreithiol allweddol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw? Er enghraifft, cwotâu ar gyfer</p> | CNC | |

| | |
|--|-----------------------------------|
| cyflenwi pren, potensial trosglwyddo asedau (drwy brydlesi hir), cyfyngiadau Cymorth Gwladwriaethol, cynnal ardaloedd coetir naturiol, atafaelu carbon (gan gynnwys cynlluniau gwrthbwysu wedi'u dilysu/canllawiau gwrthbwysu, rheolaeth/ cofrestrfeydd h.y. Cod Carbon Coetiroedd)? | Skyline Trysorlys Cymru |
|--|-----------------------------------|

Tystiolaeth Llinell Sylfaen / Data Pellach i'w Ddefnyddio

| | |
|--|------|
| Sut mae eich sefydliad ar hyn o bryd yn mesur, monitro a gwerthuso gwerth cymdeithasol (effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd) mewn perthynas ag Ystad Coetir Llywodraeth Cymru/asedau pren/cynnyrch coedwigoedd di-bren/coetir? | Pawb |
|--|------|

Pa fframweithiau neu ganllawiau ydych chi'n gweithio iddynt? A fyddech chi'n fodlon rhannu'r rhain gyda ni {os byddent dilynwch i fyny mewn e-bost}?

A ydych yn teimlo bod unrhyw gyfyngiadau i'r fframweithiau neu'r canllawiau hyn?

I ba raddau y mae 'gwerth cymdeithasol' yn cael ei ymgorffori mewn gwerthusiadau economaidd ffurfiol?

Sut mae mesur, monitro a gwerthuso 'gwerth cymdeithasol' yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar hyn o bryd? A pha flaenoriaeth a roddir gwerth cymdeithasol?

| | |
|--|------|
| Pa ddata (ansoddol a meintiol) ydych chi'n ei gasglu ar hyn o bryd mewn perthynas â gwerth cymdeithasol? | Pawb |
|--|------|

Pa mor rheolaidd y cesglir y data hwn?

A oes unrhyw heriau neu fylchau mewn perthynas â chasglu data?

A fyddech chi'n fodlon rhannu'r data hwn gyda ni at ddibenion y prosiect hwn? {os byddent, dilynwch i fyny mewn e-bost}

| | |
|---|------|
| Pa dystiolaeth sydd gennych/ydych chi'n ei chasglu ar hyn o bryd ynghylch effaith gymdeithasol, amgylcheddol, economaidd (buddiannau, costau, risgiau) trosglwyddo asedau i sefydliadau | Pawb |
|---|------|

cymunedol/ eich rhaglen/prosiect/
menter?

I ba raddau mae effeithiau dosbarthiadol
yn cael eu hystyried yn eich
dadansoddiadau?

A fydddech chi'n fodlon rhannu'r
dystiolaeth hon gyda ni at ddibenion y
prosiect hwn? {os byddent, dilynwch i
fyny mewn e-bost}

Yn fwy cyffredinol, beth yw'r setiau
data/tystiolaeth/fframweithiau allweddol
yr ydych yn ymwybodol ohonynt a allai
helpu i ddadansoddi effaith gwerth
cymdeithasol coetir/pren?

Pawb

Gwybodaeth bellach

Gyda phwy arall ddylen ni siarad? Pwy
yw'r prif randdeiliaid a phwy all ddarparu
data/gwerthoedd/tystiolaeth i lywio ein
hastudiaeth?

Pawb

Beth yw'r adroddiadau/erthyglau/setiau
data allweddol y dylem fod yn ymwybodol
ohonynt? {os oes rhai dilynwch i fyny
mewn e-bost}

Pawb

Unrhyw sylwadau eraill?

Pawb

Atodiad C – Ymgynghoriadau â Rhanddeiliaid

Amcanion ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae amcanion y sesiynau'n amrywio yn ôl carfan rhanddeiliaid fel y cyflwynir isod.

- Timau mewn lleoled penodol yn CNC sy'n rheoli Ystad Coetir Llywodraeth Cymru (n=3-4)
- Deall sut mae timau CNC mewn lleoedd penodol ar hyn o bryd yn ystyried pob trefniant trosglwyddo asedau o ran y buddion y maent yn eu cysylltu â phob un, yn seiliedig ar eu profiad o weithio gyda grwpiau cymunedol/trydydd sector hyd yma (prynu pren wedi'i gynaeafu, hawl i gynaeafu pren, trefniant prydles neu fenthyciad, rhydd-ddeiliadaeth)
- Sut allai CNC gefnogi grwpiau cymunedol yn well i dargedu gwireddu buddion ychwanegol o ddechrau'r broses asesu?
- Sut mae CNC yn pwysu a mesur y buddion, y costau a'r risgiau mewn perthynas â phob trefniant trosglwyddo asedau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau?
- Sut all grwpiau cymunedol/trydydd sector gael eu dwyn i gyfrif yn well er mwyn bodloni'r buddion ychwanegol a nodwyd ganddynt?
- *Dewisol:* Er mwyn tynnu ymhellach ar gysylltiadau'r tîm mewn manau penodol, gallwn hefyd ddarparu dolen i arolwg byr y byddwn yn gwahodd cyfweleion i'w rhannu drwy eu rhwydweithiau. Bydd yr arolwg yn ceisio deall perthnasedd (e.e. math, graddfa, gwytnwch) canlyniadau gwerth cymdeithasol posibl³⁰ sy'n gysylltiedig â Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan grwpiau ychwanegol.
- Grwpiau cymunedol yng Nghymru (n= 5, i gynnwys BBaCh a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol)
- Deall y prif ddiben (amcan(ion)) y mae pob grŵp yn ceisio'i gyflawni a'r amserlen fras berthnasol (h.y. pa rai o'r Nodau Llesiant a chanlyniadau gwerth cymdeithasol y mae grwpiau cymunedol yn eu blaenoriaethu fwyaf)
- Deall pwy mae pob grŵp yn teimlo sy'n fuddiolwr uniongyrchol diben a math o drefniant eu grŵp
- Deall y budd ychwanegol a geir gan bob prif fath o fuddiolwr
- Deall y costau y mae pob grŵp cymunedol yn eu hwynebu mewn perthynas â'u prif amcanion a'r math o drefniant

³⁰ Diffinnir perthnasedd fel: '*...materion sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar allu sefydliad i greu gwerth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol iddo'i hun, ei rhanddeiliaid a chymdeithas yn gyffredinol.*'

- Deall sut mae pob grŵp cymunedol yn teimlo y gallent fesur pob budd yn well, os ydynt yn gwneud hynny eisoes (a sut) ac os cânt eu hannog i wneud hynny
- Deall sut mae pob grŵp cymunedol yn teimlo y gallent gael eu hasesu'n well o ran gwireddu eu hamcanion o'r cychwyn cyntaf
- Cyfweiliad gyda GCCau y tu allan i Gymru (n=2, un grŵp o'r Alban ac un o Loegr)
- Deall sut (ac i ba raddau) y maent ar hyn o bryd yn mesur y buddion cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd y mae mynediad i goetir yn eu darparu
- Deall amcanion allweddol menter pob grŵp mewn perthynas â'u math o drefniant
- Deall beth yw buddion y fenter i bob un o'r rhanddeiliaid, y tu hwnt i'w hamcanion craidd a'u cymharu â'r sefyllfa llinell sylfaen cyn trosglwyddo asedau;
- Deall y risgiau allweddol i gyflawni'r amcanion hyn, faint o ystyriaeth a roddir i risg a rheoli risg, a sut maent wedi eu lliniaru neu eu rheoli yn y gorffennol
- Deall os/sut y cawsant eu hasesu ar eu nodau a'u cyflawniad o ddechrau'r prosiect.

Protocol cyfweiliad

Cyflwyniad byr i'r prosiect a gofyn am ganiatâd i recordio ar gyfer trawsgrifiad (2

funud). Y swyddogaeth sgwrsio i fod wedi'i analluogi ar gyfer holl ymgysylltu/ymgyngori â rhanddeiliaid drwy MS Teams/ fideo-gynadledda arall yn unol â gofynion GDPR.

Gofyn am gyflwyniad byr gan y cyfweilai (2-3 munud): Sylwer, dylid defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra'r set o gwestiynau isod yn ôl arbenigedd. Ni fydd pob cwestiwn yn berthnasol i bob cyfweilai, a bydd angen i ffocws y protocol cyfweld adlewyrchu cefndir y cyfweilai h.y. arbenigedd gwerth cymdeithasol, arbenigedd polisi.

Rhannwyd hysbysiad preifatrwydd gyda chyfranogwyr cyn ymgynghoriadau. Cyflwynir hyn yn Atodiad D.

Timau mewn manau penodol yn CNC sy'n rheoli'r Ystad Coetir Llywodraeth Cymru (x5)

| Cwestiynau | Atebion |
|---|----------------|
| Anfon crynodeb byr a phhecyn gwybodaeth am y prosiect hyd yn hyn a mewnwelediadau allweddol at bob ymgeisydd. | |
| Cyflwyniad byr i'r cyfweilai | |

Mathau o drefniadau cyfredol

Beth yw eich gwybodaeth a'ch profiad presennol o ymgysylltu â grwpiau cymunedol/trydydd sector ynghylch y trefniadau trosglwyddo asedau gwahanol?

Prynu pren wedi'i gynaeafu

Yr hawl i gynaeafu pren

Trefniant prydles neu fenthyciad (tymor hir neu dymor byr, a'u barn am y ddau)

Amodol

Beth allai'r amodau hyn fod?

Amodau lleiaf posibl

Beth allai'r amodau hyn fod?

Trosglwyddiad parhaol amodol

Beth allai'r amodau hyn fod?

Trosglwyddiad parhaol gydag amodau lleiaf posibl

Beth allai'r amodau hyn fod?

Yn seiliedig ar eich profiad o weithio gyda grwpiau cymunedol/trydydd sector hyd yma, pa fuddion ydych chi'n ystyried ar hyn o bryd y mae pob trefniant trosglwyddo asedau yn eu datgloi:

Prynu pren wedi'i gynaeafu

Yr hawl i gynaeafu pren

Trefniant prydles neu fenthyciad (tymor hir neu dymor byr, a'u barn am y ddau)

Trosglwyddiad parhaol amodol

Trosglwyddiad parhaol gydag amodau lleiaf posibl

| Trefniant trosglwyddo ased | Diffiniad | | Canlyniadau a nodwyd |
|--|---|---|----------------------|
| Prynu pren wedi'i gynaeafu | Prynu pren wedi'i gynaeafu gan CNC (gwerthiannau ymyl y ffordd) | | |
| Yr hawl i gynaeafu pren | Gwerthiannau sefydlog, neu ran o gynllun rheoli coedwig. | | |
| Trefniant prydles neu fenthyciad Tymor byr Tymor hir (~50 mlynedd) | Gall trefniant rheoli â therfyn amser gynnwys neu eithrio hawl i gynaeafu pren. | Amodol: Rheolaeth gyfyngedig ar asedau, neu ased a gynhyrchir ar y cyd â buddiolwr | |

| | | | |
|--|--|--|--|
| | | yn gweithio gyda CNC i gytuno ar amcanion y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr | |
| | | Amodau lleiaf: Rheolaeth lwyr ar yr ased gyda'r amodau lleiaf posibl h.y. ar faint neu natur y defnydd o asedau | |
| Trosglwyddo asedau parhaol Gwerthu; Rhoi | Gall trosglwyddiad parhaol neu brydles hirdymor (gwerthu ased neu ~> prydles 50 mlynedd) gynnwys neu eithrio'r hawl i gynaeafu pren. | Amodol: Rheolaeth gyfyngedig ar asedau, neu ased a gynhrychir ar y cyd â buddiolwr yn gweithio gyda CNC i gytuno ar amcanion y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr | |
| | | Amodau lleiaf: Rheolaeth lwyr ar yr ased gyda'r amodau lleiaf posibl h.y. ar faint neu natur y defnydd o asedau | |

Pa newidiadau ydych chi wedi sylwi arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran o ble y daw'r cynigion hyn a'r prif ysgogwyr?

Beth yw'r costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol drefniadau trosglwyddo i grwpiau cymunedol yn eich profiad chi?

Prynu pren wedi'i gynaeafu

Yr hawl i gynaeafu pren

Trefniant prydles neu fenthyciad (tymor hir neu dymor byr, a'u barn am y ddau)

Trosglwyddiad parhaol amodol

Trosglwyddiad parhaol gydag amodau lleiaf posibl

Pwy yw'r prif gynrychiolwyr (yn CNC) sy'n penderfynu pa gynigion sy'n cael eu derbyn? Pa wybodaeth a phroses y maent yn eu defnyddio/y maent wedi'u defnyddio o'r blaen i wneud/llywio penderfyniadau o'r fath?

Buddion trefniadau coetir

Yn erbyn pa fath o ddangosyddion perfformiad allweddol ydych chi'n cael eich monitro gan CNC? A yw'r rhain yn addas at ddibenion trosglwyddo asedau coetir?

SVP i egluro'r themâu canlyniadau a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth. Gellir darparu enghreifftiau fel rhan o'r diffiniad neu fel ysgogiad os oes angen.

Amgylcheddol (e.e. risg llifogydd, atafaelu carbon, bioamrywiaeth)

Economaidd/ariannol: (e.e. cyflogaeth, ffrydiau incwm, twf menter, twristiaeth);

Cymdeithasol: (e.e. sgiliau, hyfforddiant, mynediad i fannau gwyrdd);

Cyfranogol; (e.e. gwirfoddoli, grymuso cymunedau, gallu cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol).

O'r ystod o ganlyniadau (rhannu'r sgrin) o fuddion ychwanegol y gellir eu mesur, pa rai ydych chi'n meddwl sy'n cysylltu'n fwyaf uniongyrchol â phob math o drefniant? Awgrymwch ddewis y 5 uchaf fesul trefniant.

Mewn perthynas ag unrhyw fuddion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol a wireddwyd drwy'r gwahanol fathau o drefniadau, pa rai ydych chi'n eu hystyried yn ychwanegol?

Sut ydych chi'n monitro cynnydd grwpiau cymunedol sydd â chytundeb ffurfiol ynghylch perchnogaeth/rheolaeth coetir? A oes rhaid iddynt wneud unrhyw ymrwymadau fel rhan o'u cais perchnogaeth/rheolaeth? Sut yr ymdrinnir ag achosion o wyro oddi wrth gytundebau?

O ddechrau'r broses achos busnes, sut allai CNC gefnogi grwpiau cymunedol yn well i osod targedau yn erbyn buddion ychwanegol perthnasol sy'n berthnasol i nodau eu grŵp? Dechreuwch drwy fynd â ni drwy'ch proses achos busnes.

Gwybodaeth bellach

Beth allai buddion neu gostau casglu mwy o ddata yn ymwneud â chanlyniadau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol a gyflawnwyd o ganlyniad i drefniadau trosglwyddo asedau fod? Beth sydd angen ei wneud i

wella'r broses o gasglu data mewn perthynas â monitro buddion ychwanegol?

Unrhyw sylwadau pellach yr ydych chi'n teimlo a fyddai'n helpu i lywio sut mae CNC yn mesur y buddion diriaethol mewn perthynas â throsglwyddo asedau Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ar gyfer cymunedau neu fentrau lleol?

Grwpiau cymunedol yng Nghymru (x5)

Cwestiynau

Ateb

Cyflwyniad byr i'r cyfwelai, gan gynnwys ef neu hi yn nodi'r math o ased (maint), yr amodau cychwynnol cyn trosglwyddo a'r math o drefniant sydd ganddo a nodweddion y cytundeb hwnnw:

Prynu pren wedi'i gynaeafu

Yr hawl i gynaeafu pren

Trefniant prydles neu fenthyciad

Tymor hir neu fyr (diffiniwch hyd) a'u barn am y ddau.

Beth yw amodau eich trefniant?

Trosglwyddiad parhaol amodol

Beth yw'r amodau?

Trosglwyddiad parhaol gydag amodau lleiaf posibl.

Beth yw'r amodau?

Nodau'r grŵp cymunedol

Beth yw eich amcanion allweddol fel sefydliad?

Beth ydych chi'n ystyried yw buddion eich trefniant (meddyliwch am ganlyniadau ein hadolygiad tystiolaeth ac unrhyw beth arall)?

SVP i egluro'r themâu canlyniadau a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth. Gellir darparu enghreifftiau fel rhan o'r diffiniad neu fel ysgogiad os oes angen.

Amgylcheddol (e.e. risg llifogydd, atafaelu carbon, bioamrywiaeth)

Economaidd/ariannol: (e.e. cyflogaeth, ffrydiau incwm, twf menter, twristiaeth);

Cymdeithasol: (e.e. sgiliau, hyfforddiant, mynediad i fannau gwyrdd);

Cyfranogol; (e.e. gwirfoddoli, grymuso cymunedau, gallu cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol).

Ar draws yr ystod o ganlyniadau, pa rai ydych chi'n meddwl sy'n cael eu cyflawni o ganlyniad i'ch trefniant trosglwyddo?

Beth am fuddion ychwanegol y tu hwnt i ddiben craidd eich grŵp, beth ydych chi'n meddwl yw'r rhain? Gallant fod yn gymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

Os cewch eich herio, pa mor hyderus fydddech chi yng nghadernid y dystiolaeth sy'n cefnogi'r buddion hyn yn cael eu gwireddu o drefniant trosglwyddo asedau eich grŵp?

Beth yw hyd a lled pob un o'r buddion ychwanegol yr ydych wedi'u crybwyll?

Ar gyfer pob un o'r buddion ychwanegol a ddisgrifiwyd, sut y gellid eu mesur? A ydych yn eu mesur yn barod a pha mor gynhwysfawr?

Beth yw'r rhwystrau, os o gwbl, i gyflawni eich amcanion neu ganlyniadau arfaethedig, er enghraifft,

Amodau trosglwyddo

Hyd y brydles

Adnoddau (er enghraifft, sgiliau, gwybodaeth, arian, amser gwirfoddolwyr)

Yn erbyn pa fath o ddangosyddion perfformiad allweddol ydych chi'n cael eich monitro gan CNC (neu gyrff rhanddeiliaid eraill, fel cyllidwyr), os o gwbl, a pha mor aml?

Sut ydych chi ar hyn o bryd yn mesur buddion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ychwanegol eich trefniant presennol gyda CNC, mewn perthynas â'r trefniant gwreiddiol cyn trosglwyddo?

Pa rwystrau sydd o ran mesur a chasglu data ar fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a wireddwyd o ganlyniad i'ch trefniant?

I bwy ydych chi'n dal eich hun yn atebol [wrth gyflawni eich nodau] a pha mor aml ydych chi'n teimlo y dylid adrodd ar eich dangosyddion perfformiad allweddol?

Costau a risgiau

Beth yw'r costau yr ydych yn eu hwynebu yn seiliedig ar eich trefniant presennol gyda CNC? Meddyliwch am y rhai y tu hwnt i rai ariannol hefyd.

Beth yw'r risgiau yr ydych chi'n eu hwynebu yn seiliedig ar eich trefniant presennol gyda CNC? Meddyliwch am y rhai y tu hwnt i

rai ariannol hefyd. I ba raddau yr ystyriwyd y rhain cyn trosglwyddo.

Pwy sy'n gyfrifol am liniaru'r costau a/neu'r risgiau hyn? I ba raddau y mae'r rhain wedi'u gwireddu?

Beth ydych chi'n ei ystyried yn gostau ychwanegol o ganlyniad i'ch trefniant?

Gwybodaeth bellach

O ddechrau eich proses o gytuno ar eich trefniant gyda CNC, a allech fod wedi cael eich cefnogi'n well i osod targedau buddion ychwanegol mesuradwy o'r cychwyn cyntaf ac os felly, sut?

Unrhyw sylwadau pellach y teimlwch fyddai'n helpu i lywio sut mae CNC yn mesur yr ystod lawn o fuddion, costau a risgiau mewn perthynas â throsglwyddo asedau Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ar gyfer cymunedau neu fentrau lleol?

Grwpiau cymunedol o du allan i Gymru (x2)

Cwestiynau**Ateb**

Cyflwyniad byr i'r cyfweilai, gan gynnwys ef neu hi yn nodi'r math o ased (maint), yr amodau cychwynnol cyn trosglwyddo a'r math o drefniant sydd ganddo a nodweddion y cytundeb hwnnw:

Prynu pren wedi'i gynaeafu

Yr hawl i gynaeafu pren

Trefniant prydles neu fenthyciad

Tymor hir neu fyr (hir dymor tymor byr a'u barn am y ddau).

Beth yw amodau eich trefniant?

Trosglwyddiad parhaol amodol

Beth yw'r amodau?

Trosglwyddiad parhaol gydag amodau lleiaf posibl.

Beth yw'r amodau?

Nodau'r grŵp cymunedol

Beth yw amcanion craidd eich sefydliad?

Sut ydych chi'n ymgysylltu ar hyn o bryd ag Ystad Coetir eich Llywodraeth neu berchnogion coetir eraill (e.e. Ystad Coedwigaeth

Genedlaethol yr Alban, Forestry England)? Pa rôl sydd gan bob un ohonoch chi yng nghynnydd eich sefydliad?

Pa brofiad sydd gennych o ran y gwahanol fathau o drefniadau trosglwyddo?

Prynu pren wedi'i gynaeafu

Yr hawl i gynaeafu pren

Trefniant prydles neu fenthyciad

Tymor hir neu fyr (hir dymor tymor byr a'u barn am y ddau)

Trosglwyddiad parhaol amodol

Trosglwyddiad parhaol gydag amodau lleiaf posibl

Yn seiliedig ar y trefniant y mae gennych brofiad ohono, pa fath o drefniant yn eich barn chi sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar eich sefydliad? Sut ydych chi'n monitro'r effeithiau hyn?

Beth yw'r rhwystrau, os o gwbl, i gyflawni eich amcanion neu ganlyniadau arfaethedig, er enghraifft,

Amodau trosglwyddo

Hyd y brydles

Adnoddau (er enghraifft, sgiliau, gwybodaeth, arian, amser gwirfoddolwyr)

Gan feddwl am wahanol ganlyniadau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol y gellir eu mesur, pa rai ydych chi'n meddwl sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chi fel buddion uniongyrchol rydych chi'n eu gwireddu o ganlyniad i'ch trefniant.

Os cewch eich herio, pa mor hyderus fydddech chi yng nghadernid y dystiolaeth sy'n cefnogi'r buddion hyn yn cael eu gwireddu o drefniant trosglwyddo asedau eich grŵp?

Pa rai ydych chi'n teimlo y dylech chi gael eich mesur yn eu herbyn? Ydych chi wedi mesur buddion o'r fath yn flaenorol?

Mesur ac adrodd ar y buddion

Fel rhan o'ch sefydlu, a oedd unrhyw feini prawf cymhwyso y bu'n rhaid i chi eu bodloni er mwyn bod yn addas ar gyfer asesiad pellach?

Sut y cawsoch eich cefnogi i osod targedau yn erbyn canlyniadau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ychwanegol a oedd yn berthnasol i'ch trefniant?

Pa fath o ddangosyddion perfformiad allweddol y mae Ystad Coetir eich Llywodraeth yn monitro yn eu herbyn, os o gwbl, a pha mor aml?

Yn eich profiad chi, beth yw'r ffordd orau o fonitro a chasglu data er mwyn mesur buddion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol

ychwanegol eich gweithrediadau o'ch trefniant, mewn perthynas â'ch nodau? Beth all CNC ei ddysgu o sut rydych chi'n mesur y buddion ychwanegol rydych chi'n eu profi? Ydych chi'n meddwl bod y data a gasglir gennych yn eich cefnogi/eich llywio i wneud y defnydd gorau o'r asedau?

Pa rwystrau sydd o ran mesur a chasglu data ar fuddion drwy drefniadau gwahanol?

I bwy ydych chi'n dal eich hun yn atebol [am gyflawni eich nodau] a pha mor aml ydych chi'n teimlo y dylid adrodd ar eich dangosyddion perfformiad allweddol?

Gwybodaeth bellach

